Rhif: WG38969

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – Crynodeb o’r Ymatebion

# Gweithredu ar Anabledd:

# Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol

Medi 2019

© Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-83933-216-6

**Mae Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol**

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill, y Trydydd Sector, grwpiau anabledd a phartïon eraill â diddordeb. |
| **Trosolwg** | Gofynnodd yr ymgynghoriad hwn am sylwadau ar gynigion y bwriedir iddynt ddatblygu a gwella mynediad pobl anabl yng Nghymru at help, cyngor a gwasanaethau. Mae Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol yn anelu at fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a'r tlodi a wynebir gan y cymunedau hyn, gan hyrwyddo cyfle cyfartal a'u helpu i gael gafael ar adnoddau a gwasanaethau prif ffrwd yn haws ac yn fwy hwylus. |
| **Camau gweithredu gofynnol** | Dim camau gweithredu – er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br><br>Y Gangen Cydraddoldeb<br>Yr Is-adran Gymunedau<br>Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>E-bost: EqualityBranch@llyw.cymru |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru – Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol (2018). URL:<br><br>https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-10/181018-gweithredu-ar-anabledd.pdf |

**Cynnwys**


Cyflwyniad 2

Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad 2

Sylwadau Cyffredinol 3

Cwestiwn 1 12

Cwestiwn 2 17

Cwestiwn 3 21

Cwestiwn 4 24

Cwestiwn 5 29

Cwestiwn 6 35

Cwestiwn 7 39

Cwestiwn 8 43

Cwestiwn 9 46

Cwestiwn 10 50

Cwestiwn 11 52

Cwestiwn 12 53

Y Camau Nesaf 56

Atodiad A: Sylwadau ychwanegol nad ydynt yn gysylltiedig â'r themâu a nodwyd yn y Crynodeb o'r Ymatebion 57

## Cyflwyniad

Ar 22 Hydref 2018, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad er mwyn cael sylwadau ar gynigion y bwriedir iddynt ddatblygu a gwella mynediad pobl anabl yng Nghymru at help, cyngor a gwasanaethau.

Roedd Fframwaith Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Byw'n Annibynnol, a gyhoeddwyd yn 2013, yn nodi'r camau gweithredu a oedd ar waith gan adrannau'r llywodraeth i hyrwyddo cymdeithas gynhwysol a galluogol. Bu llawer o ddatblygiadau sy'n effeithio ar bobl anabl yng Nghymru ers cyhoeddi'r fframwaith blaenorol, ond mae Llywodraeth Cymru yn parhau'n ymrwymedig i weithio gyda phobl anabl o bob oedran, ac ar eu rhan, er mwyn herio canfyddiadau negyddol a dileu rhwystrau sy'n eu hatal rhag cymryd rhan lawn mewn cymdeithas.

Yn ystod 2017, cynhaliodd Llywodraeth Cymru gyfres o gyfarfodydd a digwyddiadau ymgysylltu â phobl anabl, sefydliadau anabledd a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys llawer o adrannau Llywodraeth Cymru ac amrywiaeth ehangach o ddarparwyr gwasanaethau, er mwyn adolygu'r fframwaith gwreiddiol ac ystyried y ffordd ymlaen. Cafodd Llywodraeth Cymru hefyd gyfle i ystyried safbwyntiau a phrofiadau pobl ifanc anabl a gymerodd ran mewn digwyddiadau ymgysylltu a drefnwyd gan Plant yng Nghymru. Y nod oedd nodi pa gynnydd a wnaed ers 2013 a ph'un a oedd y blaenoriaethau gweithredu allweddol yn parhau yr un fath. Sefydlwyd Grŵp Llywio ar gyfer Byw'n Annibynnol i ddatblygu olynydd i'r Fframwaith. Mae Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol yn deillio o'r gwaith hwn.

Gofynnodd yr ymgynghoriad i'r ymatebwyr ystyried y ddogfen fframwaith newydd a'r cynllun gweithredu ategol, ac i roi adborth ar eu cynnwys.

## Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 22 Hydref 2018 a 18 Ionawr 2019 (ond rhoddwyd estyniad tan 31 Ionawr 2019 i rai sefydliadau). Cyflwynwyd yr ymgynghoriad ar ffurf ysgrifenedig ac ar ffurf electronig ac roedd cyfle i ymateb drwy ddefnyddio'r holiadur a oedd yn rhan o'r ddogfen ymgynghori neu'r ffurflen ar-lein. Gellid anfon ymatebion drwy e-bost neu drwy'r post gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarparwyd.

Cafwyd cyfanswm o 67 o ymatebion ar ffurf negeseuon e-bost (n = 42), ymatebion i'r ymgynghoriad ar-lein (n = 20) ac ymatebion i'r ymgynghoriad ar ffurf copi caled (n = 5). Gellir categoreiddio'r 67 o ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn ôl y mathau canlynol:

| Mathau o ymatebwyr i'r ymgynghoriad | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|
| Unigolyn preifat | 18 |
| Cyngor | 5 |
| Ymarferwyr / cynrychiolwyr iechyd a gofal cymdeithasol | 7 |
| Y sector addysg a'r blynyddoedd cynnar | 3 |
| Y trydydd sector | 30 |
| Y Sector Cyhoeddus | 2 |
| Arall | 2 |

Roedd dau o'r ymatebion yn cynnwys safbwyntiau cyfranogwyr mewn digwyddiadau ymgynghori a gynhaliwyd yn benodol i drafod Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol. Cyflwynodd pum ymatebydd ddogfen ychwanegol i ategu eu hymateb i'r ymgynghoriad. Caiff y dogfennau hyn eu dadansoddi ar wahân fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad hwn, ac felly nid yw'r pwyntiau penodol a godwyd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad. Mae'n anelu at roi trosolwg o hyd a lled yr ymatebion, ac at roi syniad o'r materion a godwyd amlaf.

Mae'r holl ddyfyniadau o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u cyfieithu oni nodir yn wahanol.

## Sylwadau Cyffredinol

O blith y 67 o ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, roedd 21 ohonynt yn cynnwys sylwadau cyffredinol, h.y. nad oeddent yn ymwneud yn benodol â chwestiynau'r ymgynghoriad. Mae'r adrannau canlynol yn ystyried y sylwadau cyffredinol a gafwyd fesul thema.

### Y Model Cymdeithasol o Anabledd

Roedd sawl sylw yn croesawu'r cyfeiriadau at y Model Cymdeithasol o Anabledd yn y fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd. Argymhellodd un ymatebydd hefyd y dylai Llywodraeth Cymru nodi camau gweithredu cliriach o ran y ffordd y mae'n bwriadu rhaeadru'r model a'i gynnwys o fewn gwasanaethau cyhoeddus ehangach yng Nghymru. Soniodd rhai sylwadau am y defnydd anghyson o iaith y model cymdeithasol a geir drwy'r dogfennau, a nodwyd enghreifftiau o iaith nad oedd yn gysylltiedig â'r model cymdeithasol.

> *"Fodd bynnag, gellid dadlau y câi'r Fframwaith ei atgyfnerthu drwy ymgysylltu mewn ffordd fwy beirniadol â'r model er mwyn sicrhau nad dim ond datganiadau o ymrwymiad iddo a geir yn hytrach nag ymdrechion i'w roi ar waith yn effeithiol. Yn yr un modd, os bwriedir defnyddio'r model cymdeithasol fel yr egwyddor sylfaenol ar gyfer Gweithredu ar Anabledd, mae angen cymryd mwy o ofal o'r iaith a ddefnyddir yn y ddogfen. O dan y model cymdeithasol, mae gwahaniaeth amlwg rhwng anabledd a nam. Caiff y gwahaniaeth hwn ei egluro'n ofalus yn Gweithredu ar Anabledd, ond mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys datganiadau lle caiff y syniadau hyn eu cyfuno."*

### Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau

Croesewir cyfeiriadau at y Confensiwn yn y fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd, felly hefyd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r Confensiwn, ond nododd rhai ymatebwyr eu bod yn siomedig nad oedd y Confensiwn wedi cael ei gynnwys fel rhan o'r gyfraith yng Nghymru eto.

> *"Câi Gweithredu ar Anabledd, a gyflwynwyd fel y ffordd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, ei atgyfnerthu pe byddai Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo ei hun yn gyntaf i sicrhau bod y Confensiwn yn rhan o'r gyfraith yng Nghymru fel y gellid asesu'r camau gweithredu a nodir yn Gweithredu ar Anabledd yn erbyn hawliau cyfreithiol a warentir i bob person anabl yng Nghymru".*

Cafwyd cais hefyd i wella ymwybyddiaeth o'r Confensiwn ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru, ac i gyfeirio ato mewn ffordd wahanol.

> *"Mae'r Cenhedloedd Unedig yn caniatáu i bartïon gwladwriaethol gyfeirio at y confensiwn mewn modd sy'n gydnaws â'r iaith a ddefnyddir yn y wlad. O ystyried hyn, ac yn unol â therminoleg y Model Cymdeithasol o Anabledd, gofynnwn i Lywodraeth Cymru gyfeirio at y confensiwn fel Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl".*

Yn ogystal, roedd un ymatebydd yn siomedig nad oedd y fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd yn sôn am nifer o Erthyglau yn y Confensiwn er gwaethaf eu perthnasedd i'r cyd-destun datganoledig yng Nghymru, a nododd ymatebydd arall fod cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i roi'r argymhellion a gyflwynwyd gan y Pwyllgor ar Hawliau Pobl ag Anableddau ar waith.

<u>Dangosyddion, Terfynau Amser a Thargedau</u>

Nododd llawer o sylwadau y câi'r fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd eu hatgyfnerthu pe byddai'r dogfennau yn cynnwys dangosyddion, terfynau amser a thargedau penodol.

> *"Câi effeithiolrwydd y Cynllun Gweithredu ei atgyfnerthu pe bai'r camau gweithredu yn cynnwys targedau mesuradwy, dangosyddion llwyddiant a therfynau amser. Byddai hyn yn gwella tryloywder ac atebolrwydd wrth roi'r Cynllun Gweithredu ar waith ar draws adrannau Llywodraeth Cymru ac yn golygu y gallai sefydliadau allanol, gan gynnwys Sefydliadau Pobl Anabl, graffu ar y gwaith a fyddai'n arwain at welliannau pellach".*

<u>Grant Byw'n Annibynnol Cymru</u>

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at y ffaith bod y grant hwn wedi dod i ben, gan holi pam nad ymdriniwyd â hyn yn y fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd.

> *"Gellid hefyd gyfeirio'n benodol at sicrhau na chaiff y broses o drosglwyddo Grant Byw'n Annibynnol Cymru i Awdurdodau Lleol effaith negyddol ar bobl anabl, gan arwain at leihau pecynnau gofal, a gellid cynnwys ymrwymiad yn y Cynllun Gweithredu i adolygu'r effeithiau ar ôl 12 mis".*

> *"Nid yw'r ddogfen ddiwygiedig yn cynnwys trafodaeth ar ddod â Grant Byw'n Annibynnol Cymru i ben a'r effaith ar unigolion a oedd yn derbyn y grant. Rydym yn pryderu am effaith trosglwyddo'r grant i Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Yn ystod y cyfnod o drosglwyddo i becynnau Awdurdod Lleol, mae pecynnau gofal rhai pobl anabl wedi lleihau'n sylweddol. Mae'r gostyngiadau hyn yn cael effaith negyddol ar allu pobl anabl i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau. Hoffem i'r cynllun gweithredu gynnwys ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i warantu na chaiff y broses o drosglwyddo'r grant i awdurdodau lleol effaith negyddol ar bobl anabl".*

<u>Eiriolaeth</u>

Cyfeiriodd rhai o'r sylwadau a gafwyd at y ffaith nad oedd sôn am wasanaethau eiriolaeth yn y fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd.

*"nid oes sôn am eiriolaeth yn y Fframwaith, er gwaethaf y flaenoriaeth uchel a roddwyd yn 2013. Mae'r angen i sicrhau y gall pobl anabl gael gafael ar wasanaeth eiriolaeth annibynnol yn hollol amlwg".*

*"ni roddwyd digon o bwyslais i bwysigrwydd gwasanaeth eiriolaeth annibynnol, er gwaethaf y ffaith iddo gael ei nodi fel blaenoriaeth uchel yn y Fframwaith gwreiddiol. Er bod Cam Gweithredu 4 o dan adran 'Iach ac Egnïol' y Cynllun Gweithredu yn ymrwymo i "sicrhau bod gan bobl anabl lais ar faterion eiriolaeth drwy ymgynghori â nhw" ar fframwaith RISCA, dylai eiriolaeth annibynnol fod yn thema llawer cryfach yn 'Gweithredu ar Anabledd'."*

Cymeradwyo

Cyfeiriwyd at waith Alison Tarrant a Dr Simon Hoffman (ar ran Grŵp Rhanddeiliaid Hawliau Dynol Cymru) a'u hymatebion i'r ymgynghoriad, mewn nifer o'r sylwadau cyffredinol.

*"Nid ydym wedi cynnwys unrhyw adrannau o'r ymateb gan Alison Tarrant ym Mhrifysgol Caerdydd, a ddosbarthwyd yn ystod cyfarfod diwethaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd. Fodd bynnag, hoffem gyfeirio at yr ymateb hwnnw yma, gan nodi ein bod o blaid y sylwadau a wnaed am yr angen i gysylltu'r gwaith hwn â'r ffactorau perthnasol sy'n llywio polisi a deddfwriaeth yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).*

*Hoffem gyfeirio hefyd at yr ymateb a gyflwynwyd gan Dr Simon Hoffman ar ran Grŵp Rhanddeiliaid Hawliau Dynol Cymru a nodi ein bod yn cefnogi'r ymateb hwnnw, heb gynnwys y pwyntiau o sylwedd a wnaed."*

Cefnogi Amrywiaeth o Anableddau

Gofynnodd nifer o ymatebwyr i Lywodraeth Cymru sicrhau bod pobl â phob math o anabledd yn cael eu hadlewyrchu, gan gynnwys y rheini ag anableddau cudd a'r rhai sy'n wynebu mwy nag un anfantais.

*"Credwn y gallai fod yn ddefnyddiol cynnwys diffiniad o anabledd ym Mhennod 1 sy'n nodi'n glir nad yw'r Fframwaith a'r Cynllun Gweithredu hwn yn berthnasol i anableddau corfforol, gweladwy yn unig. Er mwyn osgoi amwysedd, neu'r risg y bydd sefydliadau, gwasanaethau neu asiantaethau yn canolbwyntio ar un 'math' penodol o anabledd, byddem yn dadlau y dylai'r diffiniad hwn gynnwys 'anableddau cudd' yn benodol, yn ogystal ag anableddau corfforol gweladwy. Dylai hyn gynnwys problemau iechyd meddwl, anableddau dysgu, anhwylderau ar y sbectrwm awtistig neu gyflyrau iechyd tymor hwy a allai fod yn llai gweladwy".*

*"Hoffem i'r Cynllun Gweithredu adlewyrchu'r rheini sy'n 'wynebu mwy nag un anfantais' yn well".*

Deddfwriaeth

Cyfeiriwyd at sawl darn o ddeddfwriaeth mewn sawl un o'r sylwadau, er enghraifft Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Gofynnodd rhai ymatebwyr pam na chyfeiriwyd at y ddeddfwriaeth yn y fframwaith a'r

cynllun gweithredu newydd, ac roedd eraill am gael esboniad pellach o'r ffordd y byddai'r dogfennau newydd yn gydnaws â darnau penodol o ddeddfwriaeth.

> *“Gellid hefyd gyfeirio'n benodol at y ffordd y mae'r Cynllun Gweithredu yn gydnaws â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'i Chod Ymarfer cysylltiedig….. Dylid cyfeirio'n benodol hefyd at y ffordd y mae'r Cynllun Gweithredu yn gydnaws â dogfennau polisi a deddfwriaeth arall gan Lywodraeth Cymru, fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r papur gwyn Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu.”*

Yn ogystal, gofynnodd un ymatebydd i Iaith Arwyddion Prydain gael ei chynnwys yn y gyfraith yng Nghymru.

Cydnawsedd â Chynlluniau eraill Llywodraeth Cymru

Nododd nifer o ymatebwyr yr hoffent i'r fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd fod yn gydnaws â strategaeth 'Ffyniant i Bawb' Llywodraeth Cymru.

> *"byddai'n werth sicrhau bod y Cynllun Gweithredu yn gydnaws â Strategaeth Genedlaethol Ffyniant i Bawb. Dylai'r Cynllun Gweithredu fanteisio ar y cyfle i weithredu ar yr uchelgeisiau cydraddoldeb a nodir yn y Strategaeth a chyfleu'r uchelgais o gyflawni cymdeithas gynhwysol yng Nghymru."*

Fodd bynnag, soniodd un ymatebydd, er ei fod o blaid sicrhau cydnawsedd â 'Ffyniant i Bawb', ei bod yn bwysig sicrhau na chaiff anghenion penodol pobl anabl a'r ffactorau sy'n golygu eu bod yn agored i niwed eu colli o ystyried bod 'Ffyniant i Bawb' yn seiliedig ar ganlyniadau lefel uchel i'r boblogaeth gyfan. Yn ogystal, roedd ymatebydd arall o'r farn bod cysylltu'r fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd â 'Ffyniant i Bawb' yn golygu bod gormod o symud tuag at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac oddi wrth flaenoriaethau pobl anabl.

> *"Mae'n amlwg bod Gweithredu ar Anabledd yn ymwneud cymaint â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru â blaenoriaethau pobl anabl; a'i fod wedi'i strwythuro o amgylch blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ei hun, fel y nodir yn ei strategaeth genedlaethol: Ffyniant i Bawb. Felly, o'r cychwyn cyntaf caiff y pwyslais ei symud yn amlwg o bryderon pobl anabl a thuag at bryderon Llywodraeth Cymru. O ran byw'n annibynnol, mae hwn yn gam am yn ôl – mae'n awgrymu nad yw materion sy'n bwysig i bobl anabl yn cael blaenoriaeth mwyach mewn polisïau ar fyw'n annibynnol yng Nghymru, ac yn creu perygl y caiff agweddau nad ydynt yn cyd-fynd cystal ag egwyddorion Llywodraeth Cymru ei hun eu gwthio i'r neilltu. Ymddengys bod rhai syniadau penodol, fel datblygu canolfannau byw'n annibynnol a sefydliadau eraill i bobl anabl, sy'n annog trefniadau ar gyfer cymorth gan gyfoedion i bobl anabl, eisoes wedi diflannu."*

Gofynnwyd am i'r fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd gael eu hystyried ar y cyd â strategaethau a chynlluniau gweithredu eraill Llywodraeth Cymru.

> *"Nodwn y dylid ystyried y Cynllun Gweithredu hwn ar y cyd â Strategaethau a Chynlluniau Gweithredu eraill Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu ar gyfer Prentisiaethau Cynhwysol, y Cynllun Cyflogadwyedd, y Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Strategaeth Drafnidiaeth."*

‘Ffyniant i Bawb’

Mae sawl ymatebydd yn cyfeirio'n uniongyrchol at wahanol rannau o 'Ffyniant i Bawb'. Caiff rhai o'r pwyntiau a wnaed eu cynnwys isod, wedi'u rhannu yn ôl themâu 'Ffyniant i Bawb'.

Ffyniannus a Diogel:

- croesawu'r gydnabyddiaeth i'r rhwystrau a wynebir gan bobl anabl wrth ddod o hyd i swydd a'r angen dybryd i ymdrin â hyn;
- cais i Lywodraeth Cymru ddefnyddio a hyrwyddo adnoddau'r Trydydd Sector, a gweithio gyda'r Trydydd Sector i sicrhau bod canllawiau, pecynnau cymorth a hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth gyfredol am anableddau penodol;
- cais i Lywodraeth Cymru wella cymorth gyrfaoedd mewn ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach;
- croesawu elfen benodol i bobl fyddar yn y cynllun gwobrau anabledd arfaethedig i gyflogwyr yng Nghymru, fel y nodwyd yng Ngham Gweithredu 8;
- pryder bod gormod o ffocws ar gyflogaeth yn y fframwaith a'r cynllun gweithredu heb gydnabod na all rhai pobl anabl weithio yn y ffordd draddodiadol;
- cais am fesurau i fynd i'r afael â rhwystrau mewn addysg, tai, gofal cymdeithasol a thrafnidiaeth ac argymhelliad y dylid atgyfnerthu'r cynllun gweithredu i adlewyrchu hyn;
- honiad nad yw'r system Mynediad i Waith bresennol yn gweithio i bob person anabl. Cais am waith parhaus i sicrhau bod pobl anabl a chyflogwyr yn ymwybodol o'r cynllun a'r cymorth y gall ei ddarparu iddynt;
- dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei tharged ei hun er mwyn cynyddu nifer y cyflogeion anabl a'i chynlluniau ar gyfer cyflawni hyn;
- cais am dargedau beiddgar ond cyflawnadwy i gynyddu nifer y bobl anabl sy'n ymgymryd â phrentisiaethau yng Nghymru yng nghyd-destun targed cyffredinol i leihau'r bwlch cyflogaeth i bobl anabl yng Nghymru;
- cais i Lywodraeth Cymru bennu targedau ar gyfer cartrefi hygyrch a'i gwneud hi'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol gadw a chyhoeddi Cofrestr leol o Dai Hygyrch yn rheolaidd;
- honiad nad oes unrhyw fanylion yn y cynllun gweithredu o ran sut y bydd yn ategu'r broses o roi Cynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru ar waith ac yn cefnogi'r broses honno;
- cais i Lywodraeth Cymru weithio gyda sefydliadau anabledd i ddatblygu polisïau ac i amlinellu sut y gellir eu deddfu;
- cais am fesurau i ymdrin â'r bwlch cyflogaeth i bobl anabl a'r bwlch cyflog i bobl anabl;
- cais am fwy o dryloywder o ran sut y bydd yr hyrwyddwyr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a'u timau yn gweithredu o ddifrif a sut y caiff eu heffaith ei mesur, yn arbennig o ran sicrhau bod mwy o bobl anabl yn cael cynnig prentisiaethau;
- cais i ehangu llwybrau i mewn i'r gweithle er mwyn iddynt gynnwys cynlluniau gwirfoddoli, profiad gwaith ac arweiniad gyrfaoedd sydd wedi'u teilwra ar gyfer pobl ifanc anabl;

- cais i sicrhau bod y cymorth a'r cyngor sydd ar gael ar hyn o bryd i sefydliadau yn y sector cyhoeddus sy'n cynnal eu 'Teithiau Hyderus o ran Anabledd' eu hunain ar gael i helpu sefydliadau masnachol a sefydliadau yn y Trydydd Sector;
- argymhelliad y dylid diwygio'r amcan o geisio 'helpu cyflogwyr i ddeall y rhwystrau a wynebir gan bobl anabl' i 'helpu cyflogwyr i ddeall y rhwystrau a wynebir gan bobl anabl a chymryd camau i'w helpu i oresgyn y rhwystrau hyn';
- honiad nad yw cwmpas Cam Gweithredu 9 yn ymdrin yn ddigonol â graddau'r her o ran tai ac y dylid ei ehangu;
- argymhelliad y dylid ehangu 'Cam Gweithredu 10 - Tai' i ddarparu rhagor o wybodaeth am ystyr 'cymorth yn ymwneud â thai' yn ymarferol.

Iach ac Egnïol:

- croesawu'r gydnabyddiaeth i'r rhwystrau a wynebir gan bobl anabl wrth gael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol – yn arbennig wrth iddynt ddod yn oedolion a chroesawu llawer o'r camau gweithredu;
- pryder o ran y diffyg ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc anabl a'u teuluoedd am eu hawliau;
- croesawu cam gweithredu un, sy'n ymrwymo i fonitro'r defnydd o'r safonau mewn lleoliadau gofal eilaidd. Fodd bynnag, cais i Lywodraeth Cymru ymrwymo i fonitro'r safonau ymhellach ar draws lleoliadau gofal iechyd ehangach;
- cais i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r Trydydd Sector i ddarparu llwyfan digidol ar-lein;
- cymorth i ehangu'r gwasanaeth 111 a llwyfan ar-lein digidol – cais iddynt gael eu cydgynhyrchu â phobl anabl a sefydliadau pobl anabl – cais i hyrwyddo gwasanaethau yn eang i sefydliadau cyhoeddus, cenedlaethol a lleol;
- cais i ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu canolfannau byw'n annibynnol fel adnodd hanfodol wrth fynd i'r afael â rhwystrau i fyw'n annibynnol. At hynny, cais i Lywodraeth Cymru fwrw ati i hyrwyddo defnydd eang o 'gontractau neilltuol' er mwyn annog datblygiad canolfannau byw'n annibynnol a gwasanaethau tebyg a sicrhau eu cynaliadwyedd;
- pryder am ddiffyg camau gweithredu mewn perthynas â rôl gofal cymdeithasol yn y ddogfen ddiwygiedig;
- cais i Lywodraeth Cymru weithredu mewn ffordd gydgynhyrchiol â rhanddeiliaid i ddatblygu strategaeth drawsbynciol ar Daliadau Uniongyrchol gyda'r nod o wella'r nifer o bobl sy'n defnyddio'r system, cymorth i dderbynwyr a'r broses o nodi dulliau gweithredu arloesol a'u hyrwyddo;
- pryderon bod awdurdodau lleol yn tueddu i ddarparu gwasanaethau sy'n bodloni'r gofynion statudol sylfaenol yn hytrach na galluogi pobl i fyw bywydau llawn ac egnïol;
- ymholiad pam bod 'Cam Gweithredu 1 – cyfathrebu a gwybodaeth' wedi'i gyfyngu i ofal eilaidd;

- cais i Lywodraeth Cymru ystyried ei gwneud yn ofynnol i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a Chynghorau Iechyd Cymuned (CICau) fonitro cydymffurfiaeth â'r safonau hyn fel rhan o'u gweithgareddau arferol;
- cais i ehangu 'Cam Gweithredu 4 – Eiriolaeth' er budd pob oedolyn sy'n agored i niwed, gyda'r bwriad y caiff ei fabwysiadu gan Arolygiaeth Gofal Cymru ac AGIC;
- cyfeiriad at y gwaith sy'n mynd rhagddo mewn rhannau eraill o'r DU i gefnogi 'Cam Gweithredu 9 – gwasanaethau gofal wedi'i alluogi gan dechnoleg';
- cais i sicrhau nad yw anableddau dysgu o fewn 'Cam Gweithredu 11 - ‘Gwella Bywydau' – yn gyfrifoldeb i un adran yn y Llywodraeth – a nodwyd yn y Cynllun fel 'Nyrsio' – ond yn hytrach y dylid ei uwchgyfeirio i Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anableddau Dysgu;
- cais i ehangu ‘Cam Gweithredu 12 – Chwaraeon’ i gynnwys ymwybyddiaeth gynyddol ymhlith pobl anabl o'r cyfleoedd chwaraeon hygyrch sydd ar gael. Cais am eglurder yn yr amcan hwn o ran y terfyn amser ar gyfer rhoi cymorth ariannol i Chwaraeon Anabledd Cymru, a rhagor o wybodaeth am y ffordd y caiff y cyllid ei ddosbarthu wedi hynny ac i bwy.
- pryder bod cyfleoedd i bobl anabl yng Nghymru gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden yn gyfyngedig iawn a'u bod yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar ble mae pobl anabl yn byw. Awgrym y dylid gweithredu mewn ffordd fwy cymunedol ac y dylid rhoi arian i grwpiau a sefydliadau lleol bach er mwyn eu helpu i gyflwyno gweithgareddau chwaraeon ar lawr gwlad;

Uchelgais a Dysgu:

- croesawu cam gweithredu un – cais i ddatblygu mwy o wasanaethau arbenigol a buddsoddi mwy ynddynt er mwyn helpu plant byddar yn y blynyddoedd cynnar a'u teuluoedd ar ôl cyflwyno'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg ym mis Medi 2020;
- pryder bod cost ac argaeledd cyrsiau iaith arwyddion yn rhwystr i deuluoedd plant ifanc byddar;
- pryder am yr adolygiad diweddar o gynlluniau peilot y cynnig gofal plant, a nododd ddiffyg ceisiadau am gyllid ar gyfer addasiadau i leoliadau gofal plant i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Pryder bod hyn yn debygol o ddeillio o ddiffyg ymwybyddiaeth bod angen addasiadau o'r fath;
- cais i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) gael cymorth yn ystod y blynyddoedd cynnar er mwyn cynnig sylfeini cadarn ar gyfer eu datblygiad addysgol a chymdeithasol yn y dyfodol a chroeso i'r ffaith y bydd y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg newydd yn rhoi'r hawl i blant rhwng 0 a 5 oed gael cynllun cymorth. Fodd bynnag, pryderon o ran p'un a yw awdurdodau lleol yn cynllunio eu capasiti a'u gweithlu yn briodol er mwyn cynnig cymorth o'r fath o fis Medi 2020;
- cais i ymdrin â phroblemau ariannu er mwyn sicrhau y gall dysgwyr ag anableddau dysgu yn ogystal ag anableddau eraill fanteisio ar addysg ôl-16 – angen sicrhau nad yw trafnidiaeth yn atal dysgwyr ADY sy'n agored i niwed rhag manteisio ar ddarpariaeth Addysg Bellach;

- honiad bod y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl yn hollbwysig i lawer o ddysgwyr byddar wrth sicrhau cyfle cyfartal i fanteisio ar Addysg Uwch – pryder dros gynigion i fabwysiadu dull gweithredu tebyg i'r dull sydd ar waith yn Lloegr – croeso i'r cynnig i ystyried sut y gellid gwella ymwybyddiaeth o'r lwfans ymhlith pobl ifanc anabl sy'n gwneud cais am leoedd mewn prifysgol;
- cais i rieni chwarae rhan weithredol yn y broses o benderfynu sut y caiff eu plentyn ei addysgu;
- cais i blant anabl gael y cymorth addysgol priodol i gyrraedd eu llawn botensial, gan gynnwys cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn ogystal â'r gallu i gael gafael ar gyngor gyrfaoedd, trafnidiaeth ac addysg ôl-16;
- pryder am y diffyg mannau chwarae hygyrch – cais am gamau gweithredu cadarnach gan Lywodraeth Cymru i weithio gydag Awdurdodau Lleol er mwyn cynyddu'r mannau chwarae hygyrch;
- cais am ddull gweithredu mwy creadigol tuag at ddysgu yng Nghymru sy'n caniatáu hyblygrwydd a dull gweithredu unigol mewn perthynas â dysgu;
- cais i wneud mwy i integreiddio plant i ysgolion prif ffrwd ac ysgolion addysg arbennig ar gam cynnar, er mwyn sicrhau na chaiff plant anabl eu hystyried yn wahanol, ond yn hytrach, y cânt eu derbyn fel rhan o gymdeithas;
- cais i sicrhau y caiff hyfforddiant a chyllid parhaus eu darparu i bob aelod o staff mewn addysg, er mwyn sicrhau na cheir rhwystrau cymdeithasol sy'n bychanu neu'n achosi rhwystredigaeth arall i fyfyrwyr anabl wrth iddynt wireddu eu potensial;
- argymhelliad y dylid diwygio 'Cam Gweithredu 2 - Plant a Theuluoedd' i gynnwys diweddaru'r pecyn cymorth (a fyddai o reidrwydd yn adlewyrchu nad yw rhai o'r gwasanaethau y cyfeirir atynt yn y pecyn cymorth yn bodoli mwyach, o ganlyniad i doriadau), a hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r pecyn cymorth;
- honiad mewn perthynas â 'Cham Gweithredu 3 - Plant a Theuluoedd' nad yw'r amod 'i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol' mewn perthynas â darparu digon o ofal plant i ddiwallu anghenion rhieni sy'n ymgymryd ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn dderbyniol – cais i'r Cynllun Gweithredu gynnwys ymrwymiad i gefnogi awdurdodau lleol er mwyn sicrhau y darperir gofal plant digonol;
- cais i 'Cam Gweithredu 4 - Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)' a'r Rhaglen ADY gydnabod gwerth defnyddio canolfannau integredig, sy'n darparu gwasanaethau arbenigol a chyngor;
- cais i ‘Cam Gweithredu 10 - Cydraddoldeb' fanteisio ar y cyfle i ddefnyddio 'profiadau go iawn' pobl ag amrywiaeth o anableddau.

Unedig a Chysylltiedig:

- cefnogaeth o blaid deiseb 'P-05-806' a chais i bob safle yng Nghymru gael rhif Tystysgrif Mynediad tebyg i'r Dystysgrif Hylendid Bwyd;
- honiad bod y diffyg trafnidiaeth gyhoeddus hygyrch yn atal pobl anabl rhag byw'n annibynnol ac yn cyfrannu at unigrwydd ac ynysigrwydd;

- cais am ymrwymiad llawn i roi'r datganiad polisi Amcanion Trafnidiaeth Gyhoeddus Hygyrch a Chynhwysol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2018 ar waith;
- honiad nad yw'r fframwaith a'r cynllun gweithredu yn cynnwys mesurau i ymdrin â'r rhwystrau a wynebir gan bobl anabl wrth ddefnyddio cerbydau hurio preifat a thacsis – cais am well mynediad i dacsis a cherbydau hurio preifat, yn ogystal â chais i bob gyrrwr dderbyn Hyfforddiant Cydraddoldeb Anabledd, wedi'i gynllunio a'i gyflwyno gan bobl anabl;
- pryder bod diffyg cyllid i ddarparu cymorth yn atal pobl anabl rhag gwneud cais am rolau cyhoeddus a chyflawni rolau o'r fath – cyfeiriwyd hefyd at y ffaith mai Cymru oedd yr unig wlad ym Mhrydain Fawr nad oes ganddi gynllun Mynediad i Swyddi Etholedig, gan olygu bod pobl anabl sy'n awyddus i gymryd rhan yn y maes gwleidyddol o dan anfantais o gymharu â'u cymheiriaid mewn rhannau eraill o'r DU;
- honiad bod pobl anabl yn cael eu hallgáu o hyd mewn perthynas â safleoedd twristiaeth ledled Cymru a bod diffyg hygyrchedd yn broblem – cais am gynllun arddangos sgoriau mynediad;
- cais i Lywodraeth Cymru bennu targedau mwy penodol i Awdurdodau Lleol er mwyn sicrhau bod toiledau hygyrch a chyfleusterau Changing Places ar gael i bobl anabl eu defnyddio.

<u>Sylwadau Eraill</u>

Cafwyd nifer o sylwadau ychwanegol nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw un o'r themâu uchod. Fe'u rhestrir yn llawn mewn ychwanegiad at yr adroddiad hwn yn Atodiad A.

**Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu yn nogfen Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol Llywodraeth Cymru? Esboniwch y rhesymau dros eich ateb yn y blwch sylwadau eraill.**

Nododd 37 o'r ymatebwyr eu bod yn cytuno â'r camau gweithredu yn nogfen Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol Llywodraeth Cymru, a nododd 5 ymatebydd nad oeddent yn cytuno. Ni nododd 5 ymatebydd arall p'un a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno, ac nid atebodd 20 o ymatebwyr y cwestiwn hwn.

Gwnaeth 39 o ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Mae'r adrannau canlynol yn ystyried y sylwadau fesul thema.

Diffiniad o Fyw'n Annibynnol

Cyflwynodd sawl ymatebydd ymholiadau am y diffiniad o fyw'n annibynnol a'i ystyr yn y fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd.

> *"Er ein bod yn cydnabod bod yr ymadrodd 'Byw'n Annibynnol' yn dod o erthygl 19 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl ag Anableddau, nid ydym yn gwbl siŵr bod yr ymadrodd yn parhau'n ddefnyddiol yn yr oes sydd ohoni, yn enwedig o ystyried y diffiniad mwy modern a geir yn y fframwaith arfaethedig i Gymru. Mae ystyr penodol ynghlwm wrth yr ymadrodd eisoes i bobl anabl a gweithwyr proffesiynol, sy'n ymwneud yn bennaf â rhywle i fyw a chymorth i wneud hynny, fel y nodir yn y blwch ar dudalen 10 o'r ddogfen. Nid yw'r ystyr hwnnw bob amser yn gadarnhaol nac yn unol ag egwyddorion deddfwriaeth neu bolisi cyfredol yng Nghymru a thybed a yw'r geiriad 'Gweithredu ar Anabledd: Anabledd a Chydraddoldeb' yn adlewyrchu'r uchelgais, y diffiniad, y cyd-destun deddfwriaethol a gwleidyddol yn well ac o bosibl yn llai difrïol."*

Camau gweithredu yn y cynllun gweithredu newydd

Nododd sawl sylw y câi'r cynllun gweithredu newydd ei atgyfnerthu pe bai'r camau gweithredu yn cynnwys dangosyddion, terfynau amser a thargedau penodol, a honnodd rhai ymatebwyr fod rhai camau gweithredu penodol yn rhy eang ac wedi'u pennu ar lefel rhy uchel. Nododd eraill fod angen egluro pwy sy'n gyfrifol am y camau gweithredu.

> *"nid yw'n teimlo fel cynllun gweithredu - mae rhai o'r camau gweithredu yn rhy eang, nid oes unrhyw derfynau amser ar gyfer pob cam gweithredu, mae'r cyfrifoldebau yn annelwig (e.e. cam gweithredu 11 o dan Iach ac Egnïol) ac nid oes unrhyw fesurau llwyddiant."*
>
> *"Er mwyn cael tawelwch meddwl bod systemau cadarn ar waith i sicrhau y bydd y rheini sy'n gyfrifol yn gallu craffu ar y cynllun a chadarnhau p'un a yw'n cael yr effaith ddymunol ac yn wir, effaith gadarnhaol, ar bobl anabl ac yn arbennig ar blant a phobl ifanc. Byddwn wedi hoffi gweld mwy o fanylion na'r rheini a ddarperir yn y ddogfen ymgynghori a'r cynllun gweithredu. Hoffwn i chi ystyried y canlynol:*
>
> - *Cynnwys terfynau amser yn erbyn pob un o'r camau gweithredu*
> - *Adolygu'r camau gweithredu ehangach yn y cynllun gyda'r bwriad naill ai o'u mireinio neu sicrhau eu bod yn gliriach o ran pa ganlyniadau y dylai hyn eu cyflawni.*
> - *Sicrhau bod system gadarn a chyson o bosibl ar waith y gall y rheini sy'n gyfrifol ei defnyddio i asesu cynnydd y cynllun hwn dros amser a'r canlyniadau a gyflawnwyd. Gallai hyn gynnwys setiau data a gwybodaeth ansoddol. Byddwn hefyd yn*

*awyddus i'r wybodaeth a gaiff ei defnyddio i fonitro'r cynllun hwn fod ar gael i'r cyhoedd".*

Gwnaed cais i gynnwys mwy o gamau gweithredu yn y cynllun terfynol.

> *"Mae'r cynllun yn helpu i ddod ag amrywiaeth o gamau gweithredu ynghyd o bob rhan o'r system addysg a hyfforddiant sy'n cyfrannu at y broses o sicrhau system gymorth gyfannol i bobl anabl yng Nghymru. Fodd bynnag, gellid cynnwys camau gweithredu ychwanegol yn y cynllun. Er enghraifft, cynnwys gwaith i ddiwygio a chreu cwricwlwm cynhwysol i ysgolion."*

Yn ôl un ymatebydd, nid yw'r cynllun gweithredu newydd yn ddigon uchelgeisiol, ond cyfeiriodd ymatebydd arall at y ffaith bod y cynllun gweithredu yn uchelgeisiol ac yn flaengar.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Nododd cwpwl o'r ymatebwyr eu bod yn croesawu'r gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a wnaed cyn llunio'r fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd.

> *"Rydym hefyd yn croesawu'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r Fframwaith, gyda gwaith ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid yn ei lywio a chan sicrhau y caiff y materion a nodwyd gan bobl anabl eu hystyried a'i fod yn gydnaws â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru".*
>
> *"Nodwn hefyd fod y fframwaith wedi'i lunio gan ystyried mewnbwn gan bobl anabl a sefydliadau sy'n canolbwyntio ar anabledd, sy'n hanfodol yn ein barn ni."*

Fodd bynnag, gofynnodd un ymatebydd sut y byddai pobl anabl yn cael eu cynnwys, a gofynnodd ymatebydd arall ar i Lywodraeth Cymru weithio gyda phobl anabl mewn ffordd gydgynhyrchiol yn hytrach na dim ond sicrhau bod ganddynt lais.

> *"Byddem hefyd yn awgrymu y dylid ychwanegu cam gweithredu sy'n cyfeirio at y ffordd y caiff pob adran ei monitro a'i hadolygu, a sut yr ymgysylltir â phobl ag anableddau."*
>
> *"Byddem yn awgrymu bod angen gweithio gyda phobl anabl mewn ffordd gydgynhyrchiol yn lle dim ond 'sicrhau bod ganddynt lais' fel y nodir yng ngham gweithredu 4* (Iach ac Egnïol)."

Yn ogystal, gofynnodd un ymatebydd am y gwaith ymgysylltu a wnaed gyda phlant a phobl ifanc drwy gydol y broses o ddatblygu'r fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd, gan awgrymu y dylid bod wedi datblygu fersiwn benodol o'r deunyddiau ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc.

> *"Rwyf wrth fy modd yn darllen bod pobl ifanc anabl wedi cymryd rhan mewn digwyddiad/au ymgysylltu penodol. Ond byddai wedi bod o fudd pe byddai'r CRIA a/neu Bennod 3 y ddogfen ei hun yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn, gan gynnwys; nifer y bobl ifanc a gymerodd ran a'u hystod oedran. Am y rhesymau a nodir yn y paragraff uchod, mae'n peri pryder ei bod yn anodd cadarnhau o'r wybodaeth sydd ar gael p'un a gafodd y sylwadau a wnaed gan y bobl ifanc effaith uniongyrchol ar gynnwys y cynllun gweithredu hyd yn hyn neu a fyddant yn bwydo i mewn i'r rhaglenni perthnasol sy'n bodoli eisoes y maent fwyaf perthnasol iddynt. Byddwn hefyd wedi hoffi gweld sylwadau eraill a gasglwyd gan blant a phobl ifanc o ffynonellau ychwanegol yn cael eu hystyried."*

Gweithio cydgysylltiedig

Cyfeiriodd nifer o sylwadau at yr angen am drefniadau gweithio cydgysylltiedig yn y dyfodol er mwyn sicrhau llwyddiant y fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd.

> *"Nodwn fod cam gweithredu 8 (Ffyniannus a Diogel), sef cynnal adolygiad o’r systemau ar gyfer cael gafael ar 'gymhorthion ac addasiadau sy’n cynorthwyo pobl anabl a phobl hŷn i fyw’n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain' wedi'i gynnwys o fewn tai. Dylid nodi mai therapyddion galwedigaethol sy'n cynnal y rhan fwyaf o'r asesiadau ac yn darparu'r gwaith hwn a'u bod wedi'u lleoli mewn timau gofal cymdeithasol/gwaith cymdeithasol awdurdodau lleol neu weithiau mewn lleoliadau iechyd a bydd angen cyfranogiad ar y cyd gan y gwasanaethau hyn mewn perthynas â'r adolygiad hwnnw, ond hefyd gwell trefniadau ar gyfer integreiddio gwasanaethau ar draws iechyd, gofal cymdeithasol a thai er mwyn gwneud newid gwirioneddol."*

> *"Mae'n bleser gennym weld bod Llywodraeth Cymru yn parhau i arwain y ffordd drwy gyflwyno'r Cynllun Gweithredu hwn ar gyfer Byw'n Annibynnol a byddem yn annog Llywodraeth Cymru i barhau i weithio gyda gweinyddiaethau datganoledig eraill yn ogystal â Llywodraeth y DU i rannu arfer gorau ac i hyrwyddo'r Cynllun Gweithredu hwn."*

> *"Rydym yn cytuno'n gryf bod angen gwelliannau ym maes tai, addysg ac iechyd ac yn gadarn o blaid dull gweithredu cydgysylltiedig a mwy cysylltiedig ar draws pob sector sy'n gweithio gyda phobl anabl."*

Y Model Cymdeithasol o Anabledd a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau

Nododd sawl ymatebydd eu bod o blaid penderfyniad Cymru i fabwysiadu'r Model Cymdeithasol o Anabledd. Fodd bynnag, gofynnodd un ymatebydd am i'r model cymdeithasol gael ei esblygu a'i ehangu i'r model sy'n seiliedig ar hawliau dynol, ac roedd siom bod y fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd yn cyfeirio at y model cymdeithasol fel rhywbeth newydd.

> *"Cam gweithredu 10, byddem yn cytuno bod angen i'r model cymdeithasol o anabledd chwarae rhan ganolog. Ymddengys bod y bennod gyflwyniadol yn cyflwyno'r model cymdeithasol fel cysyniad cymharol newydd, ond cyflwynwyd y model yn y DU ar ddechrau'r 1970au. I'r graddau hynny, efallai ei bod yn siomedig braidd bod yn rhaid cynnwys rhaglen ymwybyddiaeth a hyfforddiant i swyddogion y llywodraeth ac eraill, ond o ran ein rôl arwain ym maes gofal cymdeithasol, hoffem i'r model hwn yn awr gael ei ehangu neu ei esblygu i'r model sy'n seiliedig ar hawliau dynol hefyd, a hoffem weld hynny'n cael sylw amlycach yn y fframwaith. Credwn y byddai hynny'n fwy cydnaws â'r ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol bresennol yng Nghymru yn ogystal â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a pholisïau fel Ffyniant i Bawb, a'i fod yn adlewyrchu'r dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau a awgrymwyd yn nau gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig. Byddai hyn yn un ffordd i Gymru ymdrin â rhai o'r argymhellion a wnaed yng Nghasgliadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ynghylch cydymffurfiaeth y DU â'r Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn 2017, sy'n mynd y tu hwnt i'r model cymdeithasol."*

> *"awgrymir bod y Model Cymdeithasol yn ddull gweithredu newydd ac y dylem roi amser i gyrff cyhoeddus ddod i arfer â'r ffordd 'newydd' hon o weithredu...datblygwyd*

*y Model Cymdeithasol [gan Vic Finkelstein a'i gyfeillion] 40 mlynedd yn ôl, fe'i henwyd [gan Mike Oliver] 35 mlynedd yn ôl, fe'i mabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru 16 mlynedd yn ôl, fe'i cynhwyswyd yn y gyfraith yn y DU 13 mlynedd yn ôl ac yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig 12 mlynedd yn ôl, felly mae'n annerbyniol bod Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod o hyd sut y dylai ymateb i'r Model Cymdeithasol a'i bod yn esgus bod iaith y Model Meddygol yn dderbyniol mewn unrhyw ffordd...rhaid cynnwys y Model Cymdeithasol mewn deddfwriaeth a rheoliadau...er mwyn i ddinasyddion allu arfer eu hawliau gan wybod na all cyrff lleol wrthod gweithredu yn syml am nad oes unrhyw reidrwydd cyfreithiol arnynt i wneud hynny."*

At hynny, roedd un ymatebydd yn amau p'un a ddylid defnyddio'r Model Cymdeithasol o Anabledd o gwbl.

*"Fodd bynnag, rydym yn poeni am y defnydd o'r model cymdeithasol o anabledd gan ein bod o'r farn bod y model wedi dyddio a bod angen ei adolygu gan nad yw'n cynrychioli pobl anabl yn llawn."*

Gwnaed rhai sylwadau hefyd o blaid cynnig cysylltiadau yn y fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, gydag un ymatebydd yn galw am i'r confensiwn gael ei gynnwys mewn deddfwriaeth ac un arall yn galw am esboniad am y gydberthynas rhwng y confensiwn hwn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

<u>Hawliau Plant a Phobl Ifanc</u>

Nododd un ymatebydd bryder na chaiff bywydau a phrofiadau plant a phobl ifanc eu hadlewyrchu'n ddigonol yn y fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd, gan alw am gynllun penodol i blant a phobl ifanc yn nodi eu hawliau.

*"Er y bydd rhai darpariaethau yn berthnasol i bob oedran, teimlaf o bosibl nad yw bywydau a phrofiadau plant wedi'u hadlewyrchu'n ddigonol yn y cynllun, gan arwain at risg na chaiff eu safbwyntiau a'u canlyniadau eu cofnodi'n gadarn ac na weithredir arnynt.... Yn y pen draw, hoffwn i Lywodraeth Cymru lunio cynllun penodol i blant a phobl ifanc yng Nghymru, gan gynnwys y rheini ag anableddau."*

<u>Iechyd Meddwl</u>

Cyfeiriwyd at iechyd meddwl mewn rhai o'r sylwadau a gafwyd wrth ateb y cwestiwn hwn, ac awgrymodd un ymatebydd fod cynllun gweithredu newydd yn cynnig cyfle i ymdrin â phroblemau iechyd meddwl ac i fynd i'r afael â'r achosion cysylltiedig o stigma/gwahaniaethu.

*"Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn cynnig cyfle go iawn i sicrhau bod pobl â phroblemau iechyd meddwl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i aros yn iach ac i fyw bywyd llawn. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid ystyried anghenion a phrofiadau pobl â phroblemau iechyd meddwl drwy'r cynllun.... Byddem yn croesawu cam gweithredu penodol wedi'i anelu at fynd i'r afael â'r stigma cymdeithasol a'r achosion o wahaniaethu a wynebir gan bobl â phroblemau iechyd meddwl."*

Cyfeiriodd sylw arall at drin salwch meddwl gan alw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

*"Ymdrin yn benodol â'r ffaith bod y model a ddefnyddir ar gyfer pobl â phrofiad gwirioneddol o drallod meddwl (problemau iechyd meddwl) yn parhau'n glinigol yn yr ystyr ei fod yn seiliedig ar ddiagnosis seiciatrig ac ar y cyfan, bod llawer mwy o*

> *adnoddau clinigol ar gael nag opsiynau gwasanaeth nad ydynt yn glinigol a gwasanaethau sy'n briodol yn ddiwylliannol ac yn cael eu harwain gan y defnyddiwr."*

Ynghyd â chanolbwyntio ar:

> *"yr angen i osgoi penderfyniadau amnewidiol, cyfnodau cadw mewn ysbytai seiciatrig a thriniaeth anwirfoddol i bobl â diagnosis o iechyd meddwl, er mwyn sicrhau, yn unol ag Erthygl 19, bod gan yr unigolion hynny yr un hawl i fyw'n annibynnol a'r un hawl i wneud eu dewisiadau eu hunain ag y caiff aelodau o'r cyhoedd yn gyffredinol. Yn y Sylw Cyffredinol ar Erthygl 19, mae paragraffau 27 a 48 yn arbennig o berthnasol i'r materion hyn."*

<u>Anableddau/Anawsterau Dysgu</u>

Cyfeiriodd cwpl o ymatebwyr yn uniongyrchol at anableddau/anawsterau dysgu.

> *"Mae'n anodd anghytuno â'r cymhelliad a'r cyfeiriad cyffredinol. Ond drwy gydol y ddogfen, anaml y mae'r camau gweithredu yn berthnasol i bobl ag anableddau dysgu. Rwy'n ymwybodol bod Gwella Bywydau yn ymdrin yn benodol ag anableddau dysgu, ac mae hynny wir i'w groesawu, ond mae'n teimlo unwaith eto fel petai anableddau dysgu yn cael eu gosod mewn seilo"*

> *"Er bod deddfwriaeth, polisi, a'r cynllun gweithredu gyda'i gilydd yn ymddangos yn gynhwysfawr o ran ymdrin â'r rhwystrau i bobl anabl, yn ôl adborth ein haelodau ac yn unol â'n profiad ni, ceir gwahaniaethau o ran y ffactorau sy'n atal pobl ag anableddau dysgu rhag byw'n annibynnol a'r ffactorau sy'n atal grwpiau â namau eraill. Mae natur anabledd dysgu yn golygu bod y broses o addasu'r amgylchedd yn unol â'r model cymdeithasol o anabledd yn wahanol iawn i'r broses ar gyfer grwpiau â namau eraill.... Mae angen i'r cynllun gweithredu sicrhau y caiff pobl sy'n gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu eu hannog a'u haddysgu i rymuso pobl ag anableddau dysgu mewn ffordd ddiogel a blaengar."*

<u>Sylwadau eraill</u>

Cafwyd nifer o sylwadau ychwanegol nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw un o'r themâu uchod. Fe'u rhestrir yn llawn mewn ychwanegiad at yr adroddiad hwn yn Atodiad A.

**Cwestiwn 2: Rydym eisiau gwneud yn siŵr fod sefydliadau a chymunedau eraill ledled Cymru yn gweithredu i gefnogi'r cysyniad o'r Hawl i Fyw'n Annibynnol. Beth yw'r ffordd orau o weithio gydag eraill i gyflawni hyn?**

Gwnaed cyfanswm o 43 o sylwadau gan ymatebwyr mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Mae'r adrannau canlynol yn ystyried y sylwadau fesul thema.

Cydgynhyrchu

Nododd nifer o ymatebwyr bwysigrwydd cydgynhyrchu a threfniadau gweithio cydgysylltiedig, ac y dylid ymgymryd â gwaith o'r fath ar lefel genedlaethol/rhanbarthol/lleol a chynnwys pobl anabl, sefydliadau'r sector cyhoeddus/preifat a chymunedau.

> *"Mae angen dileu'r drefn o weithio mewn seilo drwy groesawu ffyrdd mwy cydweithredol a chydgynhyrchiol o weithio rhwng y sector di-elw, y sector busnes a'r sector cyhoeddus. Er mwyn creu annibyniaeth go iawn i bobl anabl, mae angen i ni ystyried sut y caiff realiti'r fframwaith hwn ei fabwysiadu gan sefydliadau fel llywodraeth leol a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wedi'i chael hi'n anodd cyflawni'r potensial llawn ar lefel llywodraeth leol, a cheir pryder tebyg o ran y fframwaith hwn."*

> *"Byddem yn awgrymu y dylai pob cam gweithredu sy'n gysylltiedig â'r maes gwaith hwn gael ei gynnal mewn ffordd gydgynhyrchiol, gan sicrhau bod pobl anabl (gan gynnwys pobl ifanc), sefydliadau pobl anabl ac ati yn bartneriaid cyfartal yn y broses. Mae trefniadau cydgynhyrchu yn mynd y tu hwnt i'r sefyllfa a ddisgrifir yn y fframwaith lle mae'r gwaith ymgysylltu yn llywio'r gwaith cynhyrchu, ac 'ystyried safbwyntiau pobl anabl'. Byddem yn gobeithio y câi'r egwyddor o gydgynhyrchu, sydd mor greiddiol i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ei rhoi ar waith yn ymarferol ac y bydd yn llywio'r datblygiadau hyn a'r broses weithredu ddilynol. Dylid ystyried cyd-ddylunio strategaethau a gwasanaethau a chyd-ddarparu'r strategaethau a'r gwasanaethau hynny a dylai geiriad unrhyw fframwaith adlewyrchu'r uchelgeisiau hynny yn agosach."*

Cyfathrebu

Cafwyd llawer o sylwadau yn cynnig y dylid ystyried gwahanol ffyrdd o gyfathrebu'r fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd, gydag awgrymiadau yn cynnwys y dylid datblygu ymgyrch ymwybyddiaeth, rhannu arfer gorau, trefnu diwrnodau agored/digwyddiadau cymunedol a hysbysebu.

> *"Cynllun cyfathrebu parhaus: defnyddio rhwydweithiau: gwaith ymgysylltu ystyrlon â sefydliadau: llunio rheoliadau/canllawiau."*

> *"Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu ymgyrch ymwybyddiaeth a chynllun ymgysylltu cynhwysfawr a hygyrch, er mwyn sicrhau y caiff yr holl sefydliadau a chymunedau perthnasol eu hannog i gymryd camau i gefnogi fframwaith "Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol"."*

*"Cyfathrebu a chymorth i sefydliadau'r sector cyhoeddus roi addasiadau ar waith i staff anabl a'u cefnogi – hefyd i sefydliadau'r Sector Gwirfoddol a'r Trydydd Sector ac annog y sector preifat i gyflwyno mentrau."*

Yn ogystal, nododd rhai ymatebwyr fod angen cyfleu gwybodaeth am y Model Cymdeithasol o Anabledd i sefydliadau a chymunedau, ac awgrymwyd hefyd fod angen sicrhau bod pobl anabl yn ymwybodol o'u hawliau ac yn eu deall.

*"Bydd yn bwysig o'r cychwyn cyntaf i sicrhau bod pob sefydliad a chymuned yn deall yr egwyddorion a'r arferion sydd eu hangen fel rhan o'r model cymdeithasol o anabledd a/neu'r modelau hawliau dynol, a'u bod yn ymgysylltu'n llawn â'r egwyddorion a'r arferion hynny."*

*"Mae ein profiad yn awgrymu nad yw pob person anabl yn ymwybodol o'i hawl i gael addasiadau rhesymol wedi'u gwneud er mwyn sicrhau y caiff ei drin mewn ffordd deg a chyfartal, nac yn deall yr hawl honno. Mae hawliau hefyd yn esgor ar gyfrifoldebau ac nid yw pob sefydliad yn deall y model cymdeithasol o anabledd nac yn cyflawni ei gyfrifoldebau o ran cynllunio a darparu gwasanaethau mewn ffordd hygyrch a chynhwysol. Dylai unrhyw gyfleoedd ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth cymunedau a sefydliadau o'r Fframwaith newydd a'r camau gweithredu y gallant eu cymryd i gefnogi ei nodau helpu i sicrhau bod yr hawl i fyw'n annibynnol yn realiti i bobl anabl yng Nghymru".*

Cyfranogiad Pobl Anabl

Galwodd nifer o ymatebwyr am fwy o gyfranogiad gan bobl anabl, gydag un ymatebydd yn dadlau o blaid creu grŵp llywio yn cynnwys pobl anabl ac un arall yn honni y dylid cynnwys pobl â chymaint o wahanol anableddau â phosibl o ystyried bod gan bob un ohonynt anghenion penodol iawn.

*"Sicrhau y caiff y gwaith ei arwain gan bobl ag anableddau, gan gynnwys anableddau dysgu, yn eu cymunedau. Gwaith â thâl, gydag adnoddau priodol ar ei gyfer."*

*"Dylid cynnwys pobl â chymaint o anableddau â phosibl yn ystod pob cam, gan fod gan bob anabledd anghenion cymharol benodol".*

*"Mae llais pobl anabl ar bob lefel ac ar bob cam o'r broses hon yn hanfodol, ac ni ddylid gwneud hynny drwy "sefydliadau" sy'n honni eu bod yn cynrychioli pobl anabl ond drwy gasglu safbwyntiau uniongyrchol y bobl anabl eu hunain. Am ormod o amser yng Nghymru, rydym wedi ymddiried yn yr un sefydliadau ac wedi'u hariannu i gynrychioli pobl anabl ac mae'n amlwg o'r diffyg canlyniadau ar eu rhan a'r cynnydd a wnaed nad ydynt yn ymgysylltu â'r union bobl yr honnir eu bod yn eu cynrychioli."*

Camau Gorfodi, Atebolrwydd a Chymhellion

Cyfeiriodd sawl sylw at yr angen am gamau gorfodi, atebolrwydd a chymhellion er mwyn sicrhau bod cymunedau a sefydliadau eraill ledled Cymru yn cefnogi'r fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd.

*"Dylid craffu'n drylwyr ar sefydliadau a'u monitro yn hyn o beth a'i gwneud yn ofynnol iddynt ddangos sut maent yn hyrwyddo ac yn amddiffyn yr hawl i fyw'n annibynnol."*

*"Yn anffodus, nid yw'r rhan fwyaf o sefydliadau yn barod i wneud y newidiadau angenrheidiol felly mae'n bosibl y bydd angen camau gorfodi."*

*"Byddem yn awgrymu bod atebolrwydd ar y cyd yn un ffordd o sicrhau gwell ymrwymiad ac y dylid nodi hynny'n glir yn y cynllun."*

*"Dylid ystyried cymhellion i gyflogwyr a sefydliadau sy'n rhoi'r cynlluniau ar waith ac yn cydymffurfio".*

Cyfranogiad y Trydydd Sector

Nododd sawl un o'r sylwadau ei bod yn hanfodol cynnwys y Trydydd Sector fel rhan o'r holl drafodaethau yn y dyfodol.

*"Mae'r trydydd sector ledled Cymru yn arbenigo mewn datblygu modelau cydgynhyrchu â dinasyddion a gall arwain y ffordd ac annog mwy o ddinasyddion i gymryd rhan wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus..... Rydym o blaid y rôl bwysig y gall y trydydd sector ei chwarae ac y dylai ei chwarae wrth helpu pobl anabl i ddod o hyd i waith. Gwyddom wrth ddarparu gwasanaethau cyflogaeth ein hunain, y gall elusennau berfformio llawn cystal, os nad gwell, o ran contractau cymorth cyflogaeth na'r sector preifat. Yn ogystal, mae elusennau yn buddsoddi'r gwarged y maent yn ei wneud yn ôl i mewn i'r cymunedau a'r gwasanaethau a gefnogir ganddynt, gan wella gwerth am arian i drethdalwyr."*

Ariannu

Cyfeiriodd sawl un o'r ymatebion a gafwyd at bwysigrwydd ariannu.

*"mae ariannu yn broblem gynyddol ac mae elusennau llai o faint yn colli staff profiadol a hyfforddedig wrth i'r ansicrwydd ynghylch swyddi gynyddu. Dylid osgoi ariannu ar hap yn sicr, gan y gall arwain at gau mwy o elusennau a diffyg ansawdd gwasanaeth."*

*"Bydd hefyd yn bwysig darparu digon o arian i sefydliadau a gaiff eu harwain gan ddefnyddwyr ac unigolion anabl sy'n eu galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau am wasanaethau ac yn golygu y cânt eu talu ar gyfraddau teg am eu cyfranogiad."*

Cynlluniau Llesiant

Galwodd dau ymatebydd am i gynlluniau llesiant gynnwys camau gweithredu i helpu unigolion i fyw'n annibynnol.

*"Mae hefyd yn bwysig sicrhau y caiff camau gweithredu i gefnogi'r hawl i fyw'n annibynnol eu prif-ffrydio o fewn y blaenoriaethau, y strategaethau a'r cynlluniau gweithredu a ddatblygir gan sefydliadau i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol. Dylai camau gweithredu i gefnogi'r hawl i bobl anabl fyw'n annibynnol fod yn amlwg o fewn Cynlluniau Llesiant cyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaeth cyhoeddus ac o fewn cynlluniau cydraddoldeb strategol er mwyn cyflawni Dyletswydd Statudol y Sector Cyhoeddus yng Nghymru."*

Sylwadau eraill

Cafwyd nifer o sylwadau ychwanegol nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw un o'r themâu uchod. Fe'u rhestrir yn llawn mewn ychwanegiad at yr adroddiad hwn yn Atodiad A.

**Cwestiwn 3: Gan gyfeirio at Bennod 2 yn benodol, a ydych chi'n ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau eraill ers i'r Fframwaith blaenorol gael ei gyhoeddi yn 2013 y dylid eu cynnwys yn eich barn chi?**

Gwnaeth 33 o ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Mae'r adrannau canlynol yn ystyried y sylwadau fesul thema.

Trafnidiaeth

Cyfeiriodd sawl ymatebydd at ddatblygiadau o ran trafnidiaeth.

> *"Nid ydych yn cyfeirio at y gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd gan Trafnidiaeth Cymru mewn perthynas â gwasanaethau bysiau, gan gynnwys gwasanaethau trafnidiaeth ymatebol integredig. Gwnaed rhywfaint o waith hefyd i wella gwasanaethau tacsi, gan gynnwys cynigion i gyflwyno hyfforddiant gorfodol, a amlinellir o fewn ymgynghoriad presennol Llywodraeth Cymru 'Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus'."*

> *"Mynediad at dacsis a cherbydau hurio preifat - O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'n drosedd i unrhyw weithredwr neu yrrwr (onid oes ganddo dystysgrif eithriad meddygol) wrthod cludo cŵn cymorth neu godi mwy am wneud hynny. Gellir codi dirwy o hyd at £1,000 ar yrwyr os cânt eu collfarnu o drosedd o'r fath, a diddymu eu trwydded. Hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd gorfodol i yrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat (PHV) - yn dilyn gwaith helaeth gan Cŵn Tywys Cymru, derbyniodd Llywodrath Cymru argymhelliad y dylai'r safonau cenedlaethol newydd sy'n cael eu llunio gynnwys gofyniad i bob gyrrwr tacsis a Cherbyd Hurio Preifat yng Nghymru gwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd cyffredinol. Caiff trefniadau ar gyfer datblygu hyfforddiant ymwybyddiaeth hygyrchedd i staff eu cynnwys o fewn amcanion trafnidiaeth hygyrch Llywodraeth Cymru, a gaiff eu cyhoeddi erbyn diwedd 2018. Disgwylir i awdurdodau trwyddedu lleol sicrhau bod pob gyrrwr sy'n gweithredu yn eu hardal yn ymgymryd â'r hyfforddiant."*

Addysg

Cyfeiriodd llawer o sylwadau at y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg. Soniodd un ymatebydd hefyd am ddeddfwriaeth arall sy'n gysylltiedig ag addysg.

> *"Adran 123 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000: Yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu, trefnu neu gymryd rhan wrth ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid sy'n galluogi pobl ifanc i gymryd rhan effeithiol mewn addysg neu hyfforddiant, manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth a chymryd rhan effeithiol a chyfrifol ym mywyd eu cymunedau, neu'n eu helpu i wneud hynny; a, Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009: Yn gosod dyletswydd ar ysgolion a cholegau addysg bellach i sicrhau bod cwricwlwm eang a chytbwys a gwasanaethau cymorth dysgu ar gael i ddysgwyr."*

Gwasanaethau Cymdeithasol

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

> *"(Rydym) yn argymell y dylid diweddaru Pennod 2 i gynnwys manylion yr effaith y mae datblygiadau polisi a datblygiadau deddfwriaethol wedi'i chael ar fywydau pobl anabl.*

*Er enghraifft, bu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ddatblygiad allweddol, yn arbennig o ran cynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl ag Anableddau yn y Cod Ymarfer, ond nid oes unrhyw dystiolaeth o ran p'un a yw'r Ddeddf yn gwella trefniadau byw'n annibynnol ar lawr gwlad, na ph'un a yw darparwyr gwasanaethau yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer. Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys manylion unrhyw werthusiad o effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn y Fframwaith."*

Soniwyd hefyd am Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Deddf Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017.

Hygyrchedd

Gwnaed llawer o sylwadau am ddatblygiadau o ran hygyrchedd. Cyfeiriodd un ymatebydd at y Safon Gwybodaeth Hygyrch gan NHS England, a soniodd un arall am y Dystysgrif Hygyrchedd i fusnesau. Nodwyd mynediad at wybodaeth hefyd.

*"Rydym hefyd yn teimlo'n gryf ers dechrau'r Safon Gwybodaeth Hygyrch orfodol gan NHS England, y dylai'r Safonau yng Nghymru fod yn orfodol hefyd, gan gynnwys cosbau neu gymhellion, yn hytrach nag yn wirfoddol fel sy'n wir ar hyn o bryd. Dengys ein hadborth gan ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain yng Nghymru nad yw'r Safonau wedi gwneud unrhyw wahaniaeth i hygyrchedd sefydliadau iechyd ledled Cymru. Fodd bynnag, nodwn fod un neu ddau Fwrdd Iechyd yn gwneud rhai gwelliannau sydd i'w canmol."*

Ariannol

Soniodd llawer o ymatebwyr am ddatblygiadau ariannol. Er enghraifft, soniwyd am y newidiadau i Grant Byw'n Annibynnol Cymru, a Diwygiadau Lles yn fwy cyffredinol hefyd. Cyfeiriwyd at y defnydd hyblyg o Daliadau Uniongyrchol ac at y problemau yn dilyn cyflwyno pensiynau i gyflogeion, lle nad oedd y dull ariannu yn sicr am fisoedd. Cynigiwyd hefyd y gellid cyflwyno cyllidebau cyfun, y teimlwyd y byddent yn helpu i ddangos y bydd awdurdodau iechyd ac awdurdodau lleol yn cydweithio ac i ddangos na fydd unrhyw ddadlau rhwng asiantaethau a fydd yn oedi'r broses o ddarparu cyfarpar neu wasanaethau.

Anableddau Penodol

Soniodd rhai ymatebwyr am ddatblygiadau sy'n ymwneud ag anableddau dysgu.

*"Lansiwyd Rhaglen Anableddau Dysgu – Gwella Bywydau Llywodraeth Cymru yn 2018 a chaiff y broses o'i rhoi ar waith ei goruchwylio gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anableddau Dysgu, a gaiff ei gadeirio ar y cyd gan Sophie Hinksman a Gwenda Thomas …..Mae fframwaith comisiynu a chanllawiau newydd y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu (y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2019) hefyd yn berthnasol."*

*"Gall y trydydd sector helpu hefyd drwy annog cynlluniau Mannau Diogel sy'n cynnig mannau lloches i bobl ag anableddau dysgu yn eu cymunedau lleol os byddant yn teimlo'n agored i niwed neu'n ofidus....Rydym hefyd yn annog ac yn croesawu'r cyfleoedd a gyflwynir i randdeiliaid allweddol yn y trydydd sector drwy Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anableddau Dysgu."*

Cyfeiriodd sawl ymatebydd yn uniongyrchol at awtistiaeth, gydag un yn sôn am y cynllun gweithredu ar gyfer Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig, ac un arall yn sôn am greu Sefydliad Awtistiaeth Caldwell mewn ymateb i ddiffyg gweithredu yn y sector gwladol a thrydydd ymatebydd yn nodi ei fod yn pryderu am y diffyg datblygiad mewn perthynas â'r anabledd penodol hwn.

> *"Hoffwn nodi nad ydym yn teimlo bod y camau gweithredu na'r broses o ddarparu gwasanaethau ar gyfer oedolion sy'n cael diagnosis hwyr ar y sbectrwm awtistig wedi datblygu fel yr addawyd. Rydym yn parhau i'w chael hi'n anodd cael gafael ar yr adnoddau a fyddai o fudd i'n hiechyd a'n lles"*

Soniwyd am fuddsoddiad Llywodraeth Cymru i helpu pobl ag anableddau/anawsterau dysgu a chyflyrau ar y sbectrwm awtistig.

> *"Rydym yn croesawu'r buddsoddiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru o grant Ar y Blaen 2 a ariannodd brosiect Engage to Change sy'n anelu at sicrhau swyddi i bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed ag anableddau dysgu a chyflyrau ar y sbectrwm awtistig. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ddefnyddio canfyddiadau'r gwaith hwn ar ôl iddo gael ei gwblhau i ehangu cyfleoedd cyflogaeth i bob person ag anabledd dysgu ac anhwylder ar y sbectrwm awtistig yn y dyfodol."*

Gwnaed sylw hefyd am Iaith Arwyddion Prydain (BSL).

> *"Nodwyd gennym wrth chwilio am 'BSL' neu 'iaith arwyddion' mewn unrhyw ddarn o ddeddfwriaeth a ddyfynnwyd ym Mhennod 2 nad oedd y ddau ymadrodd yn ymddangos. Yn yr un modd, wrth chwilio yn Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy, cafwyd hyd i dair enghraifft o BSL a dwy enghraifft o 'iaith arwyddion'. Mae angen ymdrin â'r diffyg hwn a rhoi llawer mwy o amlygrwydd i BSL er mwyn sicrhau y gall defnyddwyr BSL Byddar fyw'n annibynnol".*

<u>Sylwadau eraill</u>

Cafwyd nifer o sylwadau ychwanegol nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw un o'r themâu uchod. Fe'u rhestrir yn llawn mewn ychwanegiad at yr adroddiad hwn yn Atodiad A.

**Cwestiwn 4: Ein nod yw i bawb gael y cyfle i gyflawni eu potensial yn llawn a byw bywyd iach, llewyrchus a boddhaus, gan eu galluogi i gymryd rhan lawn yn eu cymunedau a chyfrannu at lwyddiant economaidd Cymru yn y dyfodol. Gan ystyried y Cynllun Gweithredu, sut y gallem gyflawni hyn yn well ar gyfer pobl anabl?**

Cyflwynodd 41 o ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Mae'r adrannau canlynol yn ystyried y sylwadau fesul thema.

Cyfranogiad Pobl Anabl

Roedd cyfranogiad pobl anabl yn y broses ymgysylltu yn thema gyffredin drwy'r sylwadau a wnaed.

> *"Nid oes gwerth gofyn i bobl abl wneud penderfyniadau ar ran pobl anabl, ni allant ddeall yr holl broblemau."*

> *"Parhau i ymgysylltu â phobl sy'n byw ag anabledd a'u teuluoedd drwy gydol y broses o roi'r cynllun gweithredu hwn ar waith, nid yn unig wrth lunio'r cynllun. Gweithio gyda gweithwyr proffesiynol a busnesau lleol i weithredu fel eiriolwyr anffurfiol ar ran pobl anabl er mwyn sicrhau bod llais pobl ag anableddau yn dod yn rhan o sgyrsiau cyffredinol. Sicrhau y caiff pobl ag anableddau eu grymuso i fod yn rhan o'r ateb, yn rhan o'r penderfyniadau a wneir. Sicrhau mwy o lais o fewn gwasanaethau cyhoeddus a busnesau - cydgynhyrchu o ddifrif. Gwell cynhwysiant o fewn cymunedau ac wrth wneud penderfyniadau."*

Ariannu

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at heriau ariannu a sut roedd angen eu datrys er mwyn sicrhau y gellir rhoi'r fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd ar waith yn effeithiol.

Cyfeiriwyd at y mesurau cyni presennol y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu a'r angen am arian yn y gymuned.

> *"Er bod y bwriad i'w ganmol, mae angen ei weithredu o fewn cyd-destun y cyni y bu awdurdodau lleol yn ymdrin ag ef ers degawd bellach. O ganlyniad, mae llawer o'r gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael i bobl ag anableddau wedi dod i ben a chyflwynwyd meini prawf cymhwysedd sy'n rhoi blaenoriaeth i'r bobl â'r anghenion mwyaf neu y mae angen gofal a chymorth arnynt ar fyrder."*

> *"Gallai'r sector cyhoeddus gefnogi mentrau cymunedol drwy ei gwneud hi'n haws i grwpiau cymunedol gael gafael ar symiau o arian sy'n aml yn isel."*

Gwnaed sylw mewn perthynas ag ariannu ar ôl Brexit.

> *"Mae cymorth cyflogaeth yn dal i chwarae rhan allweddol wrth helpu pobl anabl i fyw bywydau ffyniannus. Maes sy'n peri pryder i'r....sector gwasanaethau cyflogaeth yn ehangach, o ran cymorth i'r bobl anabl sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf, yw'r sefyllfa o ran Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) ar ôl Brexit."*

Soniodd dau ymatebydd am drefniadau ariannu mewn perthynas â gwasanaethau eiriolaeth.

*"Mae rhwymedigaethau statudol i ariannu gwasanaeth eiriolaeth un-i-un o dan y Grant Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol wedi gorfodi llawer o awdurdodau lleol i gyfuno eu cyllidebau hunaneiriolaeth er mwyn darparu gwasanaethau eiriolaeth un-i-un yn unig. Mae hyn eisoes wedi dechrau cael effaith andwyol ar hunaneiriolaeth a mathau eraill o eiriolaeth... Os collir hunaneiriolaeth, byddwn yn gorfodi pobl ag anableddau dysgu i ddibynnu ar eraill i lefaru ar eu rhan. Byddai hyn yn dadrymuso pobl ag anableddau dysgu ac yn dad-wneud sawl blwyddyn o gynnydd gan y sefydliadau hunaneiriolaeth a'r hunaneiriolwyr eu hunain. Byddai hyn yn cael effaith andwyol ar eu gallu i fyw'n annibynnol."*

*"Mae angen i'r camau gweithredu mewn perthynas ag eiriolaeth gydnabod gallu darparwyr bach, lleol, sefydledig sy'n darparu gwasanaethau eiriolaeth o ansawdd da, a allai fod yn ei chael hi'n anodd ymdopi â threfniadau rheoleiddio ac arolygu, gan nad oes ganddynt y swyddogaethau 'swyddfa gefn' sydd eu hangen. Yn lleol, rydym yn pryderu y bydd y darparwyr hyn, heb gymorth, yn rhoi'r gorau iddi os/pan gaiff trefniadau arolygu a rheoleiddio eu cyflwyno, ac y caiff hyn effaith ar y bobl a gefnogir ganddynt."*

Roedd pryder hefyd nad oedd unrhyw fanylion penodol am drefniadau ariannu yn y fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd. Yn ogystal, roedd galw am gymorth i'r GIG ddarparu Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus.

<u>Mesurau o Lwyddiant</u>

Cyfeiriodd llawer o sylwadau at yr angen am amseroldeb, nodau cyflawnadwy, mesurau o lwyddiant a gwaith monitro.

*"Byddem yn awgrymu y dylid cynnwys amserlen ar gyfer rhoi'r camau gweithredu ar waith. Byddai hyn yn helpu i fesur cynnydd ac i ddangos gwelliant fesul blwyddyn. Byddai cyfres o fesurau canlyniad yn cynnig naratif i bobl anabl am yr hyn y gallant ei ddisgwyl i'r Fframwaith ei gyflawni iddynt. Byddai trefniadau monitro sy'n canolbwyntio ar gyflawni camau gweithredu a'u heffaith ar bobl anabl yn sicrhau bod gwahanol adrannau yn atebol, yn dangos cynnydd i bobl anabl ac yn eu hysbysu am y cynnydd hwnnw ac yn dangos bod y Llywodraeth yn cymryd yr hawl i fyw'n annibynnol o ddifrif."*

<u>Cydgynhyrchu a Chydweithredu</u>

Roedd thema gyffredin ymhlith llawer o'r sylwadau a wnaed yn ymwneud â phwysigrwydd cydweithredu a chydgynhyrchu.

*"Mae hyn oll yn awgrymu bod angen symud i fodel cydgynhyrchiol yn hytrach na model ymgysylltu. Credwn y byddai'n well gwneud hynny drwy ddefnyddio prosesau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn hytrach na chreu gwasanaethau ar wahân sy'n ei gwneud yn ofynnol i bobl anabl ddefnyddio gwahanol wasanaethau, sy'n egluro ein hawgrym y dylid newid yr enw o 'Byw'n Annibynnol' i 'Cydraddoldeb ac Anabledd'."*

*"Mae dull gweithredu parhaus a chydgysylltiedig ar draws pob disgyblaeth yn hanfodol. Rhaid rhoi'r gorau i gyfarfodydd lle na wneir dim byd ond sgwrsio a therfynu'r diwylliant o "edrychwch beth a gyflawnwyd gennym". Rhaid i ddarparwyr addysg gyd-drafod â darparwyr gwasanaethau cymdeithasol a gofal iechyd. Rhaid i*

*wasanaethau cymdeithasol gydnabod rôl y trydydd sector wrth roi cynlluniau gweithredu ar waith a rhoi'r gorau i weithio mewn seilo wrth ddarparu gwasanaethau...Drwy ymgysylltu â busnesau a sefydliadau'r trydydd sector sydd eisoes yn gweithio gyda phobl anabl, gellir defnyddio adnoddau yn well. Yn ein barn ni, nid yw'r Deddfau a'r Fframweithiau presennol yn ddigon eang, gan ystyried adnoddau o safbwynt ariannol yn unig yn hytrach nag ystyried y cyfraniad y gall busnesau ei wneud o ran gwirfoddoli a noddi rhaglenni."*

<u>Cyflogi Pobl Anabl</u>

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr yn benodol at gyflogaeth. Er enghraifft, cafwyd sawl cyfeiriad at y cynllun Mynediad i Waith.

> *"Nodwn fod y Cynllun Gweithredu yn cynnwys cam gweithredu penodol i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y cynllun Mynediad i Waith yng Nghymru (Ffyniannus a Diogel: Cam gweithredu 2). Rydym yn argymell y dylai'r cam gweithredu hwn hefyd gynnwys hyrwyddo Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl Mynediad i Waith. Er gwaethaf cyflwyno Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl Mynediad i Waith, mae nifer y bobl â phroblemau iechyd meddwl sy'n cael budd o'r gwasanaeth bob blwyddyn yn parhau'n isel. Canfu sawl adroddiad, gan gynnwys adolygiad Sayce yn 2011 ac ymchwiliad gan y Pwyllgor Gwaith a Phensiynau yn 2014 nad yw'r gwasanaeth yn cael ei hyrwyddo'n ddigonol, yn enwedig i weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae angen gweithgareddau newydd i godi ymwybyddiaeth a thynnu sylw cyflogwyr, cyflogeion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol at y gwasanaeth."*

Roedd cefnogaeth o blaid Cynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru.

> *"Rydym yn croesawu Cynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys cam gweithredu i ddarparu cymorth cyflogadwyedd wedi'i deilwra i'r unigolyn sy'n ymateb i anghenion yr unigolyn. Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn ategu'r Cynllun Cyflogadwyedd a bydd yn gweithredu fel galluogwr allweddol wrth helpu pobl anabl i ddod o hyd i waith ac i aros mewn gwaith drwy nodi'r amrywiaeth eang o ffactorau a all effeithio ar gyflogi pobl anabl."*

Gwnaed rhai sylwadau mewn perthynas â menter Hyderus o ran Anabledd.

> *"Credwn fod ymrwymiad llywodraeth y DU i ddatblygu porth gwybodaeth 'siop un stop' ar gyfer Hyderus o ran Anabledd yn cynnig cyfle i ddarparu adnoddau ar Dechnoleg Gynorthwyol ac i wella ymwybyddiaeth cyflogwyr a chyflogeion o'i buddiannau. Mae'r Cynllun Gweithredu yn sôn am ddatblygu cynllun gwobrwyo anabledd i gyflogwyr yng Nghymru a fydd naill ai'n adeiladu ar Hyderus o ran Anabledd neu'n gynllun newydd a fydd yn annog cyflogwyr i geisio bod yn fwy cefnogol o bobl anabl. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i fwrw ati â'r cynllun gwell neu'r cynllun olynol hwn ac yn argymell y dylai gynnwys gwybodaeth i gyflogwr am dechnoleg gynorthwyol."*

Yn ogystal â'r uchod, cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at gyflogi pobl anabl drwy alw am y canlynol:

- cyllid parhaus gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r model cyflogaeth â chymorth a ddefnyddir gan y prosiect Engage to Change;
- mynediad cyfartal i hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy i bobl anabl;
- dileu'r holl rwystrau i gyflogaeth a wynebir gan bobl anabl;
- sicrhau na fydd cyflogwyr yn gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl;
- annog gweithwyr proffesiynol a busnesau lleol i weithredu fel eiriolwyr anffurfiol ar ran pobl anabl;
- rhoi cymorth i bobl anabl ddefnyddio'r ganolfan gwaith;
- newid yn y duedd lle mai dim ond gwaith gwirfoddol di-dâl a gynigir i bobl anabl;
- cynnig gweithdai i bobl anabl ar faterion fel mynediad i waith, taliadau annibyniaeth bersonol, lwfans i fyfyrwyr anabl a thechnolegau cynorthwyol;
- cael gwared ar gynlluniau cyflogaeth byrdymor o ystyried y gallant gael effaith andwyol ar fudd-daliadau pobl anabl ac y gallant achosi problemau i bobl anabl sy'n awyddus i weithio;
- ymdrin â'r bwlch cyflogaeth i bobl anabl;
- ystyried sut y gellir ategu cyflogau gan ddefnyddio budd-daliadau;
- datblygu hyrwyddwyr awtistiaeth ymhellach.

Technoleg Gynorthwyol

Galwodd un ymatebydd am fwy o weithredu ym maes Technoleg Gynorthwyol.

> *"Un maes y gallai'r Cynllun Gweithredu ganolbwyntio mwy arno, yn ei barn ni, yw buddiannau Technoleg Gynorthwyol i bobl anabl, yn ogystal â'r budd i lefelau cynhyrchiant yng Nghymru a'r economi yn fwy cyffredinol...Credwn y gall Technoleg Gynorthwyol gael effaith sylweddol ar allu pobl anabl yng Nghymru i gyflawni eu llawn botensial a byw bywyd iach, ffyniannus a bodlon...Byddem yn awgrymu y dylai'r Cynllun Gweithredu ganolbwyntio mwy ar Dechnoleg Gynorthwyol a'r rhan y gall ei chwarae wrth helpu pobl anabl i fyw bywydau ffyniannus."*

Anableddau Penodol

Cyfeiriwyd at sawl anabledd penodol mewn rhai o'r sylwadau a wnaed, gan gynnwys anableddau/anawsterau dysgu, awtistiaeth, byddardod ac iechyd meddwl.

> *"Mae angen i'r camau gweithredu mewn perthynas â gwasanaethau iechyd meddwl gynnwys cyfeiriadau at unigolion ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth sy'n wynebu problemau iechyd meddwl hefyd, a all ei chael hi'n anodd iawn cael gafael ar wasanaethau iechyd meddwl."*

> *"Credwn, yn ogystal â thlodi incwm ac amddifadedd sylweddol, y dylid cynnwys mesuriadau tlodi amlwg mewn perthynas â gwybodaeth a dealltwriaeth hefyd. Mae'r rhain yn effeithio'n ddifrifol ar y gallu i ddod o hyd i gyflogaeth ystyrlon, integreiddio â'r gymuned leol a gallu gwneud defnydd priodol o wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd. Nodwyd gennym fod gan lawer o'n defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain swyddi gwaeth (neu ddim swyddi), nad oes ganddynt sgiliau cystal, na allant ddefnyddio gwasanaethau iechyd cystal a bod problemau iechyd meddwl yn fwy cyffredin yn eu plith (Rhif 13). Mae'r effaith ar lesiant a deallusrwydd emosiynol yn sylweddol ac yn arwain at gylch dibyniaeth sy'n para oes. Mae hyn yn deillio o dlodi*

*gwybodaeth a dealltwriaeth. Byddem hefyd yn hoffi gweld pwyslais llawer cryfach ar gyflogi defnyddwyr BSL Byddar na'r arfer ar hyn o bryd."*

*"Rydym yn croesawu nod y Fframwaith hwn i sicrhau y caiff pawb y cyfle i gymryd rhan lawn yn eu cymuned ac i gyfrannu at lwyddiant economaidd y wlad. Rydym am wireddu'r nod hwn i bobl â phroblemau iechyd meddwl....gellid atgyfnerthu a datblygu'r Fframwaith a'r Cynllun Gweithredu gan roi mwy o ffocws ar bobl â phroblemau iechyd meddwl, gan gynnwys yn yr adrannau ar ffyniant a diogelwch."*

Sylwadau eraill

Cafwyd nifer o sylwadau ychwanegol nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw un o'r themâu uchod. Fe'u rhestrir yn llawn mewn ychwanegiad at yr adroddiad hwn yn Atodiad A.

**Cwestiwn 5: Dylai pawb fod â'r sgiliau a'r addysg sydd eu hangen arnynt i gael swydd a'r cyfle i ddatblygu sgiliau newydd drwy gydol eu bywyd gwaith. Gan ystyried y Cynllun Gweithredu, sut gallwn gyflawni hyn yn well ar gyfer pobl anabl?**

Cafwyd cyfanswm o 36 o sylwadau ar gyfer y cwestiwn hwn. Mae'r adrannau canlynol yn ystyried y sylwadau fesul thema.

<u>Addysg</u>

Roedd thema gyffredin ar draws llawer o'r sylwadau a wnaed mewn perthynas â'r cwestiwn hwn yn ymwneud ag addysg. Dadleuodd un ymatebydd o blaid rhoi mwy o bwyslais ar ysgolion yn y cynllun gweithredu newydd, a galwodd ymatebydd arall am i gamau gweithredu i ddatblygu cwricwlwm cynhwysol i ysgolion gael eu cynnwys yn y cynllun gweithredu.

Cyfeiriwyd at addysg ôl-16.

> *"(Rydym) yn croesawu'r ymrwymiad i wella mynediad pobl anabl i addysg ôl-16 a byw'n annibynnol. Fodd bynnag, mae'n anodd penderfynu o'r Cynllun Gweithredu arfaethedig sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gwireddu hyn... (byddem) yn croesawu rhagor o fanylion yn y Cynllun Gweithredu sy'n ystyried ein hargymhellion i wella'r wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad a roddir i ddysgwyr am yr amrywiaeth lawn o gyfleoedd addysg a hyfforddiant ôl-16 sydd ar gael iddynt."*

> *"Er bod eich cynllun gweithredu yn datgan y byddwch yn helpu pobl ifanc ag anableddau dysgu i fanteisio ar addysg ôl-16, rwy'n ymwybodol bod ein coleg 'ôl-16' lleol wedi cau'n ddiweddar a bod yn rhaid i oedolion ag anableddau dysgu bellach deithio o rannau gwledig canolbarth a de Sir y Fflint i'r llain arfordirol i ymgymryd ag addysg mewn colegau ôl-16. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw ymyriad gan Lywodraeth Cymru i geisio atal y coleg rhag cau. Felly nid wyf yn glir ynghylch beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud neu beth y bydd yn ei wneud i helpu dysgwyr ôl-16, o ystyried y profiad diweddar hwn. Mae angen i'r camau gweithredu fod yn gliriach ac yn fwy realistig o ran yr hyn y gellir ei wneud ac a gaiff ei wneud i helpu pobl ifanc i fanteisio ar addysg ôl-16, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig/lled-wledig Cymraeg eu hiaith."*

Cyfeiriodd sawl ymatebydd at waith yn seiliedig ar anghenion dysgu ychwanegol.

> *"Credwn y bydd y diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol yn helpu i sicrhau bod pob unigolyn yn cael addysg ac yn meddu ar sgiliau, o ystyried y bydd y CDU yn berthnasol hyd at 25 oed."*

> *"Wrth roi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2017 ar waith, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau nad yw'r bylchau cyrhaeddiad rhwng disgyblion anabl a disgyblion nad ydynt yn anabl yn ehangu."*

Gwnaed sylw yn cyfeirio at bryderon mewn perthynas ag addysg i oedolion.

> *"Unwaith eto, gwell cysylltiadau ag addysg i oedolion. Os yw oedolion anabl eisoes yn gweithio, mae'n bosibl na fydd coleg llawn amser yn opsiwn iddynt felly rhaid sicrhau dealltwriaeth well o'r strwythur ar gyfer ariannu dysgu rhan amser, blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran sut y dylid gwario'r arian hwn a nodau hirdymor i ddatblygu*

*dysgu rhan amser er mwyn gallu diwallu anghenion oedolion anabl. Mae rhan o'r broblem yn ymwneud â'r elfen gorfforol. Er enghraifft, hen ysgolion yw llawer o adeiladau awdurdodau lleol (a ail-ddyrannwyd i adrannau newydd ar ôl cau'r ysgolion) ac nid oes mynediad llawn i bobl anabl. Mae llawer o ganolfannau cymunedol a llyfrgelloedd wedi cau, sy'n golygu bod darparu lleoliadau ar gyfer cyflwyno addysg ran amser yn her barhaus, yn enwedig o ystyried mynediad i bobl anabl."*

Galwyd am ymdrechion mwy ysbrydoledig wrth addysgu pobl ifanc anabl ac er mwyn magu hyder.

*"Ar lefel y system addysgol, mae angen i blant anabl gael cymorth mwy ysbrydoledig a chymhellol er mwyn anelu at freuddwydion a nodau uwch o ran gyrfaoedd."*

*"Credwn ei bod yn hanfodol gwella dyheadau pobl ifanc anabl o ran addysg a sicrhau cyfle cyfartal iddynt gyflawni'r cymwysterau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu potensial."*

Awgrymwyd newidiadau i'r system addysgol hefyd.

*"(Rydym) yn teimlo nad yw'r system addysg bob amser yn diwallu anghenion pobl anabl; er enghraifft, mae angen i bobl anabl allu manteisio ar amrywiaeth o arddulliau dysgu, fel arddulliau cyffyrddol, clywedol neu weledol. Yn gyffredinol, mae gwersi awr o hyd yn rhy hir, ond mae sesiynau dysgu byrrach yn fwy effeithiol. Mae angen pecyn un-i-un sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi'i deilwra at anghenion yr unigolyn. Gallai hyn gynnwys yr unigolyn yn dysgu sut i gymryd nodiadau, sut i nodi ei arddull dysgu, nodi sut mae ei anabledd yn effeithio ar ei ddysgu, helpu'r unigolyn i ddeall ei gryfderau a'i wendidau yn ogystal â gwella ei strategaethau er mwyn gwella ei arfer/addysg ac ati. Bydd hyn yn galluogi pobl anabl i gyfleu eu hanghenion. Yn yr ysgol gynradd, ceir ymgais i osgoi "labelu" plentyn yn ôl ei ddiagnosis. Fodd bynnag, mewn addysg uwch, nid oes modd cael gafael ar gymorth heb ddiagnosis a thystiolaeth o'r diagnosis hwnnw."*

*"Gallai tablau cynghrair ar gynwysoldeb ysgolion a cholegau roi cyfle i bobl anabl a'u gwarcheidwaid wneud dewis hyddysg o ran ble i astudio neu hyfforddi."*

*"Mae ymateb cyflymach i symud plentyn anabl i raglen fwy galwedigaethol os nodir nad yw rhaglen academaidd yn addas iddo yn hanfodol er mwyn iddo allu dod o hyd i faes sydd o ddiddordeb iddo a chanfod ffordd o ymuno â'r byd gwaith ar ôl iddo gwblhau ei addysg. Mae gormod o bobl ifanc anabl yn symud i'r Lwfans Byw i'r Anabl i Daliadau Annibyniaeth Personol ac wedyn, gan wybod bod arian ar gael iddynt a heb ddyheadau, yn dod yn rhan o system budd-daliadau na fydd yn eu hannog i ddod o hyd i waith ystyrlon ond yn hytrach, i wneud dim ond ticio blychau a gweithio drwy'r system."*

Cyfeiriwyd at drefniadau ariannu addysgol hefyd.

*"Cyllid a chymorth ar gyfer yr holl gymhorthion dysgu – llechi, ffonau deallus, cyfrifiaduron, cyrsiau, gweminarau, colegau ac ati a hyfforddiant a chyngor gyrfaoedd perthnasol i gyflogwyr a darpar gyflogeion. Dylid ariannu dysgu cymunedol – ar hyn o bryd, dim ond dosbarthiadau llythrennedd, rhifedd a Chymraeg a ariennir yn Sir Gaerfyrddin."*

Prentisiaethau

Cyflwynodd llawer o ymatebwyr sylwadau ar brentisiaethau. Cyfeiriwyd at yr adroddiad gan Estyn a ymchwiliodd i'r rhwystrau sy'n atal pobl anabl rhag ymgymryd â rhaglenni prentisiaeth, gan gynnwys argymhellion yr adroddiad. Codwyd pryder nad yw'r fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd yn cyfeirio at Gynllun Prentisiaethau Cynhwysol newydd Llywodraeth Cymru.

> *"Gwyddom fod pobl anabl yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i gyfleoedd i ymgymryd â rhaglenni prentisiaeth. Yn 2014, cyhoeddodd Estyn adroddiad thematig yn ymchwilio i'r rhwystrau hyn....nododd yr adroddiad fod angen rhagor o waith i ymdrin â'r ffaith bod dysgwyr anabl wedi'u tangynrychioli ar raglenni prentisiaeth ac i ystyried y trefniadau recriwtio."*

> *"Un fenter polisi y mae Llywodraeth Cymru wedi'i hyrwyddo ac wedi dangos arweinyddiaeth mewn perthynas â hi yn ystod y misoedd diwethaf yw Prentisiaethau Cynhwysol: Cynllun Gweithredu ar Anabledd 2018-21. Mae'r cysylltiadau â'r fenter polisi hon a'r Cynllun Gweithredu ar yr Hawl i Fyw'n Annibynnol yn amlwg. Felly ymddengys bod cyfle wedi'i fethu drwy beidio â chyfeirio atynt yn y Fframwaith nac yn y Cynllun Gweithredu. Byddai cynnwys yr ymrwymiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn ei pholisi Prentisiaethau Cynhwysol yn atgyfnerthu'r Cynllun Gweithredu."*

Croesawodd un ymatebydd y ffocws yn y cynllun gweithredu newydd ar gynyddu nifer y bobl ifanc anabl ar gynlluniau prentisiaeth, a chroesawodd un arall Fforwm Prentisiaid Cynhwysol Llywodraeth Cymru a'r Cynllun Gweithredu dilynol i gynyddu cyfleoedd prentisiaeth i bobl anabl, a oedd yn ei farn ef, yn cynyddu'r cyfleoedd i bobl anabl ymgymryd â phrentisiaeth.

Cynlluniau Cyflogi Pobl Anabl

Cyfeiriwyd at y broses o ddatblygu Hyrwyddwyr Anabledd mewn rhai o'r sylwadau a gafwyd.

> *"Mae angen i ni sicrhau bod y rhwydwaith Hyrwyddwyr Anabledd yn cynnwys pobl ag anableddau dysgu gan fod eu hanghenion o ran dod o hyd i swydd yn aml yn wahanol iawn i'r rheini â namau corfforol neu synhwyraidd."*

> *"Mae mwy o hyfforddwyr a hyrwyddwyr swyddi yn y gweithle oll yn helpu i wella'r gweithle i bobl ag anableddau. Hoffem weld cynllun clir yn cael ei roi ar waith yn hyn o beth. Mae gennym dri Hyrwyddwr Anableddau Dysgu yn Sir Benfro ac mae hynny'n gam cadarnhaol ymlaen, yn ein barn ni."*

Gwnaeth sawl ymatebydd gyfeiriadau cadarnhaol at gynllun arfaethedig ar gyfer gwobrau anabledd.

> *"Rydym yn gadarn o blaid yr angen i gael cynllun gwobrau anabledd mwy cadarn i gyflogwyr yng Nghymru, sy'n cynnwys asesiadau allanol. Gallai cynllun ag effaith fawr o ran enw da, fel Mynegai Cyflogwyr Stonewall, fod o fudd sylweddol wrth sicrhau bod y gweithle yn fwy hygyrch i bobl anabl. Byddai'n dangos bod cyflogwyr yn cymryd cydraddoldeb anabledd o ddifrif, yn hytrach na dim ond cwblhau ymarfer ticio blychau. Mae hyn yn bwysig o ran creu amgylcheddau diogel a chynhaliol i reolwyr a staff ac o ran newid agweddau tuag at bobl anabl a sicrhau mannau gwaith amrywiol a chynhwysol."*

Ond codwyd pryder o ran sut y câi'r cynllun ei fonitro.

> *"Mae'r cynllun gwobrau anabledd yn ddiddorol ond unwaith eto, mae angen iddo gyflawni canlyniadau gwirioneddol, ac rydym am wybod sut y byddwch yn darganfod p'un a yw cyflogwyr yn parhau i weithredu mewn ffordd gadarnhaol, yn hytrach na dim ond cwblhau ffurflen neu gwrs byr er mwyn cael gwobr."*

<u>Argaeledd Data</u>

Nodwyd ei bod yn bwysig sicrhau bod data ar gael.

> *"(Byddem) yn croesawu rhagor o wybodaeth yn y Fframwaith am y dangosyddion a'r data y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu defnyddio i fesur y cynnydd o ran llesiant pobl anabl. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio amrywiaeth eang o ffynonellau data (gan gynnwys Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) a'i bod yn ystyried profiadau go iawn dysgwyr anabl sy'n ceisio cael gafael ar gyfleoedd addysg a hyfforddiant. Mae hefyd yn bwysig nodi nad yw'r set data sy'n sail i Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys safbwyntiau plant a phobl ifanc rhwng 0 a 15 oed. Bydd yn arbennig o bwysig i Lywodraeth Cymru ystyried sut y mae'n bwriadu cofnodi, dadansoddi a mesur safbwyntiau/profiad dysgwyr, yn arbennig y dysgwyr anabl hynny sy'n paratoi i symud y tu hwnt i Gyfnod Allweddol 4."*

> *"Byddem yn gofyn i Lywodraeth Cymru helpu i ymdrin â'r anghydraddoldeb canlyniadau mewn addysg drwy gasglu data cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion o oedran gadael ysgol a'u cyhoeddi yn ôl y math o nam, gan gynnwys plant a phobl ifanc sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL). Byddai hyn yn dangos unrhyw welliant mewn canlyniadau, yn tynnu sylw at feysydd lle y gallai fod angen gweithredu ymhellach ac yn helpu i sicrhau bod awdurdodau lleol yn atebol am ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc anabl."*

<u>Targedau</u>

Roedd sawl ymatebydd yn awyddus i weld targedau penodol yn cael eu cynnwys yn y fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd.

> *"Byddem yn gofyn i Lywodraeth Cymru bennu targedau ar gyfer cynyddu nifer y bobl anabl mewn swyddi ac ar brentisiaethau ac i sicrhau bod gan unrhyw fentrau, gan gynnwys ei chynllun cyflogadwyedd ei hun a chynllun Cymru'n Gweithio, dargedau a'u bod yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar gynnydd yn ôl grwpiau nam."*

> *"Dylid gofyn i'r awdurdod lleol gynnig prentisiaethau i 5 person anabl."*

<u>Hyfforddiant</u>

Cydnabu nifer o ymatebwyr yr angen am hyfforddiant.

> *"Mae angen hyfforddiant ar gyflogwyr er mwyn newid eu hagwedd tuag at groesawu pobl anabl a gwella eu sgiliau yn y gweithle."*

> *"Yn ogystal â rhoi gwybod iddynt am gynlluniau fel Mynediad i Waith, dylid hefyd sicrhau bod cyflogwyr wedi'u hyfforddi'n llawn o ran meysydd cyflogaeth fel*

*addasiadau rhesymol, Hyderus o ran Anabledd ac mae angen gwneud mwy i ddileu'r rhwystrau sy'n atal cyflogwyr rhag gweithredu."*

<u>Pontio</u>

Roedd rhai o'r sylwadau yn canolbwyntio ar y cyfnod pontio pan oedd pobl ifanc anabl yn ymuno â'r byd gwaith.

> *"Mae angen gwneud rhagor o waith hefyd i wella'r cyfnod pontio i bobl ifanc anabl, gwella dyheadau a sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau i ddod o hyd i waith, gan gynnwys hyfforddiant teithio, hunanhyder a sgiliau cymdeithasol, yn ogystal â sgiliau ar gyfer swyddi penodol."*

> *"Mae rhai pobl ifanc anabl yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r system a byddai cyfnod pontio haws i fywyd fel oedolyn drwy ganolbwyntio ar sgiliau cyflogaeth ac ar addysgu cyflogwyr am fuddiannau cyflogi pobl anabl yn gwella llwyddiant economaidd Cymru yn y dyfodol drwy helpu pobl yn hytrach na disgwyl iddynt fethu. Ni fydd pob person anabl yn gallu gweithio, ond mae'n bosibl y byddant yn gallu gwirfoddoli a chyfrannu at gymdeithas drwy wneud hynny."*

<u>Cydgynhyrchu / Cydweithredu</u>

Cyfeiriwyd at yr angen i gydgynhyrchu a chydweithredu sawl gwaith.

> *"Mae'n amlwg bod angen cydbwysedd lle na chaiff hyn effaith andwyol ar weithwyr cymorth neu wasanaethau gofal yn gyfreithiol. Credwn fod cydgynhyrchu ystyrlon yn allweddol er mwyn sicrhau'r cydbwysedd hwn. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru yn llwyddo i ysgogi newidiadau o ran cydgynhyrchu i ryw raddau, ond nid yw'r broses hon yn digwydd yn ddidrafferth i bob person ag anabledd dysgu ledled Cymru gyfan."*

<u>Darparu Gwybodaeth</u>

Awgrymodd nifer o ymatebwyr fod y diffyg gwybodaeth sydd ar gael i gyflogwyr am anableddau, a'r diffyg gwybodaeth sydd ar gael i bobl anabl am eu hopsiynau ar gyfer y dyfodol, yn eu hatal rhag dod o hyd i swydd.

> *"Mae angen gwella'r wybodaeth a'i chyflwyno mewn gwahanol fformatau. Nid yw pobl yn ymwybodol o bob prosiect, os nad oes cysylltiad rhyngddynt â'u cymunedau....Mae angen hysbysu cyflogwyr o ran ble i gael help i gyflogi pobl ag anableddau dysgu. Mae angen i bobl nad ydynt yn anabl ddysgu sut i gyfathrebu â ni."*

> *"Mae angen rhagor o addysg mewn perthynas â chyflogi pobl ag anableddau er mwyn sicrhau bod cyflogwyr yn gwbl ymwybodol o'r manteision ac er mwyn chwalu'r mythau. Mae'r lwfans sy'n rhan o'r cynllun Mynediad i Waith wedi'i anelu at y person anabl yn hytrach na'r cyflogwr ac felly mae cyfrifoldeb ar y person anabl i wneud cais amdano ac i wybod beth sydd ei angen arno o ran cymorth. Nid oes digon o gymorth i'r person anabl ddeall beth sydd ar gael iddo a pha fath o gymorth y gallai ei drefnu. Mae cyflogwyr yn dueddol o ddefnyddio sefydliadau allanol mewn perthynas â mynediad i waith sy'n aml yn troi'n ymarfer gwneud arian i'r cwmnïau hynny. Mae gwell dealltwriaeth o'r cynllun yn hanfodol a hynny i gyflogeion a chyflogwyr, neu fel*

*arall mae angen i Lywodraeth Cymru greu ei fersiwn ei hun o Mynediad i Waith a chreu gwell proses ar gyfer gwneud cais."*

*"Byddem hefyd yn awgrymu bod angen i bobl ifanc anabl gael cyngor arbenigol ar yrfaoedd o 14 oed. Dylid rhoi'r cyngor hwn wyneb-yn-wyneb a dylai ganolbwyntio ar eu galluoedd a'u dyheadau, yn hytrach na chanolbwyntio ar yr hyn na allant ei wneud. Dylid annog pobl ifanc anabl, nid yn unig i ystyried mynd i'r coleg, ond dylid cynnig cyngor ehangach iddynt ar yrfaoedd o ran Prentisiaethau, cyfleoedd cyflogaeth a chyfleoedd i fynd i'r Brifysgol. Credwn ei bod hefyd yn bwysig sicrhau y caiff pobl ifanc anabl sy'n gadael yr ysgol neu'r coleg eu cyfeirio'n ffurfiol at y cymorth cyflogaeth anabledd arbenigol sydd ar gael yn eu cymunedau lleol. Gall hyn gynnwys cymorth gan y Ganolfan Byd Gwaith neu raglenni cymorth cyflogaeth eraill."*

<u>Sylwadau eraill</u>

Cafwyd nifer o sylwadau ychwanegol nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw un o'r themâu uchod. Fe'u rhestrir yn llawn mewn ychwanegiad at yr adroddiad hwn yn Atodiad A.

**Cwestiwn 6: Rydym am i bawb fyw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion ac yn cefnogi bywyd iach, llwyddiannus a llewyrchus. Gan ystyried y Cynllun Gweithredu, sut gallwn gyflawni hyn yn well ar gyfer pobl anabl?**

Cyflwynodd 39 o'r ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Mae'r adrannau canlynol yn ystyried y sylwadau fesul thema.

Tai Hygyrch

Tynnodd llawer o sylwadau sylw at bwysigrwydd tai hygyrch.

> *"Un o'r rhwystrau mwyaf o ran tai ac atal llawer o bobl anabl rhag gwireddu eu hawl i fyw'n annibynnol yw'r prinder cronig o ran tai hygyrch. Nid ymdrinnir â hyn yn y Cynllun Gweithredu. Nid yw Cam Gweithredu 11, sy'n ymwneud â'r Rhaglen Tai Arloesol a'i defnyddio i ysgogi ffyrdd newydd o feddwl o ran dylunio a darparu tai fforddiadwy, yn sôn am dai hygyrch na thai y gellir eu haddasu o gwbl. Byddem yn croesawu ymrwymiad sy'n nodi sut y gallai Llywodraeth Cymru ymdrin â'r ddarpariaeth tai hygyrch, er enghraifft, ymrwymiad i ystyried sut y gellir cynyddu'r cyflenwad tai hygyrch i'r eithaf fel rhan o'r Adolygiad presennol o'r Cyflenwad Tai Fforddiadwy."*

> *"Dylai hygyrchedd a chynaliadwyedd fod wrth wraidd y broses gynllunio...Mae angen darparu tai hygyrch yn gyflymach."*

Awgrymwyd sawl cynnig gan ymatebwyr o ran sut y gellid cynyddu nifer y tai hygyrch sydd ar gael, gan gynnwys cymhellion a chamau gorfodi.

> *"Mae angen mwy o fuddsoddiadau a chymhellion er mwyn datblygu amrywiaeth o dai cymdeithasol hygyrch, gydag amrywiol lefelau o lety a chymorth, a gwell mynediad i gyfleusterau cymunedol."*

> *"Rydym o blaid argymhellion y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a nodwyd yn ei adroddiad, 'A yw Cymru'n Decach? - Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol 2018' a byddem yn awgrymu er mwyn sicrhau gwell cyfleoedd i bobl anabl fyw'n annibynnol, y dylai'r Cynllun Gweithredu gynnwys camau gweithredu i sicrhau cyflenwad digonol o dai hygyrch a thai y gellir eu haddasu a chymorth cysylltiedig drwy: 'Ei gwneud yn ofynnol i bob cartref newydd gael ei adeiladu'n unol â Gofynion Ansawdd Datblygu (sy'n cynnwys y Safon Cartref Gydol Oes) ac y caiff 10% o gartrefi newydd eu hadeiladu'n unol â safonau sy'n golygu eu bod yn hygyrch i gadeiriau olwyn."*

> *"Mae gweithredu yn allweddol ac efallai ei bod yn bryd gorfodi adeiladwyr tai drwy reoliadau adeiladu i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion dylunio cynhwysol, er enghraifft, mynedfeydd gwastad a drysau llydan."*

Cyfeiriwyd at Gofrestri Tai Hygyrch sawl gwaith.

> *Roedd Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Byw'n Annibynnol (2013) yn cynnwys ymrwymiad i annog awdurdodau i fabwysiadu Cofrestri Tai Hygyrch. Mae'n siomedig nad yw'r Cynllun Gweithredu newydd yn cynnwys yr ymrwymiad i'r cofrestri hyn. Canfu ein hymchwiliad enghreifftiau o arfer da o ran Cofrestri Tai Hygyrch yng Nghymru ac argymhellwyd y dylid eu mabwysiadu ledled Prydain Fawr."*

Cafwyd argymhelliad hefyd y dylid mabwysiadu egwyddorion 'Visibly Better' RNIB Cymru wrth ddylunio cartrefi er mwyn sicrhau hygyrchedd.

Ariannol

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at y ffaith nad oedd digon o dai fforddiadwy ar gael.

> *"Mae'r diffyg cydnabyddedig o dai fforddiadwy yn cynnwys diffyg llety byw â chymorth. Mae hyn yn atal pobl ag anabledd dysgu rhag symud allan o gartref y teulu ac yn cyfrannu at y nifer uchel o oedolion sy'n byw gyda rhieni oedrannus. Mae angen gwneud llawer mwy i ymdrin â'r diffyg hwn ac i sicrhau y caiff pobl anabl gynnig yr un cyfleoedd i ddewis ble i fyw a chyda phwy. Yn rhy aml, ni chaiff pobl anabl, yn enwedig y rheini ag anableddau dysgu, lawer o ddewis, os o gwbl, o ran gyda phwy i fyw, er enghraifft mewn tai byw â chymorth. Gall hyn achosi problemau sylweddol, gan gynnwys problemau iechyd meddwl, ymddygiad heriol ac yn y pen draw, gall achosi iddynt golli eu hannibyniaeth."*

> *"Un broblem yn aml yw nad yw'r tai a ddisgrifir fel tai 'fforddiadwy' yn fforddiadwy o gwbl. Mae rhenti sy'n anodd i bobl anabl eu fforddio hefyd yn broblem."*

Codwyd pryder ynghylch lefel y cyllid sydd ar gael.

> *"Darparu cyllid ychwanegol i sefydliadau pobl anabl ac asiantaethau cynghori er mwyn sicrhau bod mwy o gyngor a gwybodaeth annibynnol ar gael am opsiynau tai, gan gynnwys addasiadau, gan ganolbwyntio'n benodol ar y sector rhentu preifat."*

*"Mae gennym amheuon ynghylch sut y gellir ariannu rhai agweddau ar eich cynllun."*

Gofynnodd un ymatebydd am eglurder ynghylch y dreth ystafell wely yn benodol, a galwodd un arall am ddiddymu'r cynllun hwnnw. Codwyd pwynt hefyd am y ffaith bod gofalwyr pobl anabl ymhlith y gweithwyr proffesiynol â'r cyflogau isaf ac nad oes unrhyw sicrwydd ar gael iddynt.

Addasiadau

Soniwyd y dylid ystyried addasiadau er mwyn helpu pobl anabl i fyw'n annibynnol, a nododd un ymatebydd y dylid dileu'r fiwrocratiaeth gysylltiedig. Cyfeiriodd un arall at yr angen i gynnwys pobl â phroblemau iechyd meddwl.

> *"Ar y cyd ag awdurdodau lleol a darparwyr tai, ymdrin fel mater o frys â'r rhwystrau biwrocrataidd a'r oedi yn y system addasiadau, er mwyn sicrhau y gellir gosod mân addasiadau cost isel yn arbennig yn gyflym."*

> *"Hoffem weld unrhyw ymgais i ddiwygio systemau cymhorthion ac addasiadau yn cynnwys y cymhorthion a'r addasiadau sydd eu hangen ar bobl â phroblemau iechyd meddwl. Yn rhy aml, mae addasiadau o'r fath yn canolbwyntio ar anghenion corfforol yn unig."*

Cydgynhyrchu

Gwnaed llawer o sylwadau mewn perthynas â chydgynhyrchu, gan gynnwys pobl anabl a gofalwyr.

*"Credaf fod angen gweithredu drwy gydgynhyrchu lle y caiff pobl anabl go iawn a'u gofalwyr eu cynnwys o'r cychwyn hyd at ddiwedd y broses wrth ddylunio a rhoi newidiadau gwirioneddol i dai yn ein cymunedau ar waith."*

Argaeledd Data

Galwyd am fwy o ddata.

*"Dywedodd awdurdodau lleol wrthym fod data gwael yn ei gwneud hi'n anodd herio datblygwyr i ddarparu tai hygyrch ychwanegol a thai ychwanegol y gellir eu haddasu. Byddai ymrwymiad i fynd i'r afael â'r bylchau data ar dai hygyrch a thai y gellir eu haddasu yn helpu i ddarparu'r dystiolaeth i Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol seilio eu penderfyniadau ynghylch tai arni."*

*"Darparu ystadegau i gymdeithasau tai a landlordiaid preifat am y rheini nad ydynt yn byw ble y byddent yn dewis byw, er mwyn eu hannog i adeiladu eiddo hygyrch yn yr ardaloedd cywir gyda'r nifer gywir o ystafelloedd gwely, h.y. eiddo un ystafell wely i bob oedran, yn hytrach na dim ond i bobl dros 55 oed."*

Darparu Gwybodaeth

Cyfeiriodd sawl ymatebydd at yr angen i wella'r wybodaeth a ddarperir.

*"Sicrhau bod gwybodaeth am opsiynau a budd-daliadau tai yn gyfredol. Sicrhau bod gwybodaeth yn hawdd i bobl ei deall ac yn hawdd iddynt gael gafael arni."*

*"Helpu asiantiaid gosod tai lleol/ cymdeithasau landlordiaid ac asiantiaid gwerthu tai i fod yn fwy ymwybodol o anghenion pobl ag anableddau a sut y gallant helpu unigolion yn eu cartrefi eu hunain, a helpu pobl i chwilio am dai. Mapio anghenion tai a defnyddio'r wybodaeth wrth ddatblygu tai."*

*"Rydym yn awgrymu y dylid cynnwys cynigion i ddarparu gwybodaeth ddealladwy o ansawdd uchel am dai o bob math, a sut mae tai yn effeithio ar iechyd meddwl ac iechyd corfforol, yn y cynllun ochr yn ochr â chymorth sy'n gysylltiedig â thai."*

Sicrhau bod Landlordiaid yn Atebol

Soniwyd am yr angen i sicrhau bod landlordiaid yn atebol yn y sylwadau a wnaed.

*"Mae sicrhau bod dull rheoleiddio syml a chadarn a phroses gwyno annibynnol a hygyrch ar waith yn rhan hanfodol o ddarparu cartrefi o ansawdd uchel. Byddem yn hoffi pe câi cam gweithredu ychwanegol ei ychwanegu at y Cynllun Gweithredu, er mwyn adolygu'r prosesau rheoleiddio a chwyno presennol i sicrhau y caiff pobl anabl eu grymuso er mwyn gwneud yn siwr bod landlordiaid yn atebol."*

Effaith Gwahanol Anableddau

Gwnaed llawer o sylwadau yn cyfeirio at bwysigrwydd ystyried anghenion pobl â gwahanol anableddau.

*"Mae tai sefydlog o ansawdd uchel yn allweddol o ran sicrhau iechyd meddwl da ac os bydd rhywun wedi datblygu problem iechyd meddwl, mae'n bwysig i'w helpu i wella.*

*Ond serch hynny, mae pobl â phroblemau iechyd meddwl yn llawer mwy tebygol o fod yn byw mewn llety o ansawdd gwael. Rydym yn falch bod tai yn rhan o'r Cynllun Gweithredu, ond mae angen rhoi ystyriaeth bellach i anghenion pobl ag anableddau nad ydynt yn anableddau corfforol wrth ystyried tai."*

*"Dywed ein haelodau ag anableddau dysgu wrthym fod pobl ag anableddau dysgu yn aml yn cael eu rhoi mewn llety heb lawer o ddewis, os o gwbl, o ran lleoliad neu addasrwydd y llety i ddiwallu eu hanghenion. Mae rhai aelodau'n teimlo'n anniogel, neu wedi teimlo felly, wrth fynd allan a theithio'n annibynnol o ganlyniad i gael eu lletya mewn ardal lle mae troseddau yn gyffredin, yn enwedig troseddau sy'n gysylltiedig â chasineb. Rydym yn annog proses ymgynghori ystyrlon â phobl ag anableddau dysgu ynghylch ble yr hoffent fyw, ac i'w helpu i deimlo'n ddiogel o ran ble y maent yn byw. Yn sicr, mae ofn yn atal pobl ag anableddau dysgu rhag gwneud dewisiadau am annibyniaeth."*

*"Mae angen hyfforddi'r gwasanaethau cymdeithasol yn well o ran sut y dylid gwneud penderfyniadau. Mae gan bobl anabl wahanol anghenion ac ni ellir eu gosod o dan un categori, mae angen eu trin fel unigolion."*

Sylwadau Eraill

Cafwyd nifer o sylwadau ychwanegol nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw un o'r themâu uchod. Fe'u rhestrir yn llawn mewn ychwanegiad at yr adroddiad hwn yn Atodiad A.

**Cwestiwn 7: Rydym am i sector gofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd Cymru gefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol. Gan ystyried y Cynllun Gweithredu, sut gallwn gyflawni hyn yn well ar gyfer pobl anabl?**

Cafwyd sylwadau gan 42 o ymatebwyr mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Mae'r adrannau canlynol yn ystyried y sylwadau cyffredinol a gafwyd fesul thema.

<u>Cydgynhyrchu a Chydweithredu</u>

Gwnaed sawl awgrym mewn perthynas â chydgynhyrchu a chydweithredu rhwng y sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol.

> *"Dileu rhwystrau rhwng iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn hwyluso trefniadau symlach ar gyfer cydweithio."*

> *"Mae angen integreiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd yn well er mwyn diwallu anghenion pobl anabl. Mae angen trefniadau gweithio rhyng-asiantaeth â'r gwasanaeth addysg a gwasanaethau eraill fel cyflogaeth, tai a'r trydydd sector hefyd."*

Galwodd nifer o ymatebwyr i'r sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol gyfuno eu cyllidebau.

> *"Mae angen dybryd am un ffrwd ariannu ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn dod â dadleuon tiriogaethol ofer a niweidiol i ben. Er mwyn gwireddu hyn o ddifrif, mae angen diwygiadau treth hefyd er mwyn sicrhau y caiff y sector iechyd a'r sector gwasanaethau cymdeithasol eu hariannu'n llawn gan un gronfa risg genedlaethol, boed drwy dreth benodedig, yswiriant gwladol neu fodel newydd o ffrwd ariannu...Un enghraifft o'r dadlau diangen sy'n deillio o'r ffaith bod y sector Iechyd a'r sector Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u hariannu ar wahân yw bod diffyg cysylltiad rhwng cymhorthion ac addasiadau tai [Gwasanaethau Cymdeithasol] a chymorth osgo a symudedd [Iechyd], er gwaethaf ymdrechion gan y llywodraeth i hyrwyddo cynigion i integreiddio ac i gyfuno cronfeydd, gan arwain at sefyllfa lle y caiff arian ei wario ar addasiadau costus i adeiladau y gellid bod wedi'u hosgoi drwy wneud dewisiadau llawer llai costus yn darparu cadeiriau olwyn."*

<u>Technoleg</u>

Cyfeiriodd llawer o sylwadau at gymorth i ddefnyddio technoleg.

> *"Mae technoleg yn rhan o'n tirlun modern. Rydym yn ei defnyddio at ddibenion gwaith, hamdden, gartref ac wrth symud o gwmpas, mae'n gwneud ein bywydau'n haws. Dylai pobl anabl rannu'r profiad hwnnw, gan fanteisio ar y buddiannau y gall cymorth technolegol wedi'i deilwra'n arbennig eu cynnig iddynt. Gall hyn gynnwys technoleg arbenigol a phrif ffrwd a chynhwysiant digidol. Mae technoleg wedi'i phersonoli yn cynnig sawl budd, gan gynnwys mwy o ddewis, rheolaeth ac annibyniaeth i'r person anabl. Gall helpu comisiynwyr a darparwyr i redeg gwasanaethau cost-effeithiol. Mae angen buddsoddi mwy mewn technoleg wedi'i phersonoli. Dylai ddod yn rhan o'r llwybr comisiynu lle y caiff buddiannau ac effaith technoleg wedi'i phersonoli eu mesur. Mae angen mwy o ymwybyddiaeth ymhlith pobl anabl, eu teuluoedd a staff cymorth o ran yr hyn sydd ar gael a sut y gall helpu bywydau pobl. Mae angen dull gweithredu*

*tymor hwy y tu hwnt i gyfyngiadau ariannol presennol awdurdodau lleol a'r sector iechyd er mwyn gallu gweld y potensial o ran arbedion hirdymor."*

*"O ran y cam gweithredu i greu llwyfan digidol ar-lein hygyrch i ddinasyddion er mwyn rhoi mwy o reolaeth i bobl a'u galluogi i ddod yn gyfranogwyr mwy gweithredol yn eu hiechyd a'u lles eu hunain, mae'n bwysig bod y llwyfan yn hygyrch yn yr ystyr ehangaf a'i fod yn cynnwys gwahanol anghenion cyfathrebu ac iaith pob dinesydd. Dengys ein profiad fod gwybodaeth iechyd mewn Iaith Arwyddion Prydain (BSL) yn gyfyngedig o hyd a bod lefel isel o ymwybyddiaeth o lefelau llythrennedd Saesneg llawer is pobl y mae Iaith Arwyddion Prydain yn iaith gyntaf iddynt. Ceir diffyg gwybodaeth iechyd mewn fformatau hygyrch eraill hefyd. Mae llwyfan digidol yn cynnig cyfle ardderchog i ddarparu gwybodaeth iechyd ar ffurf sain er mwyn sicrhau ei bod yn fwy hygyrch i bobl sy'n ddall neu sydd â nam sylweddol ar eu golwg ac i ychwanegu isdeitlau i glipiau fideo er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch i bobl sydd wedi colli eu clyw."*

Fodd bynnag, codwyd pryderon hefyd mewn perthynas â sicrhau na chaiff pobl anabl eu gadael ar ei hôl hi os caiff technoleg ei defnyddio'n ehangach.

*"Dylem allu cael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn amrywiaeth o ffyrdd, mae rhai pobl yn ei chael hi'n anodd defnyddio technoleg felly ni ddylai hynny ddisodli cyswllt dynol."*

*"Sicrhau y caiff pobl nad ydynt mor gyfarwydd â thechnoleg fodern y cyfle i ddysgu a/neu fod dewisiadau amgen ar gael iddynt o ran cael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau er mwyn iddynt gael dewis sut i wneud hynny."*

<u>Ariannu</u>

Nododd rhai o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn fod y trefniadau ariannu yn fater pwysig i'w ystyried.

*"Codwyd pryderon ynghylch yr her o gael gafael ar arian ar gyfer anghenion parhaus, a sut y gallai'r ansicrwydd hwn effeithio ar rai dinasyddion. Er enghraifft, cytuno ar arian ar gyfer cyfarpar, a all fod yn hanfodol i lesiant a symudedd unigolyn. Dylid rhoi blaenoriaeth i lesiant yr unigolyn, a dylai unrhyw benderfyniadau a wneir fod yn dryloyw ac yn agored i'w herio, gan sicrhau bod cymorth ar gael i'r unigolyn herio o dan rai amgylchiadau."*

*"Mae Llywodraeth Cymru wedi wynebu beirniadaeth am ei phenderfyniad i ddod â Grant Byw'n Annibynnol Cymru (WILG) i ben a throsglwyddo cyfrifoldeb i'r Awdurdodau Lleol. Nid yw'r Fframwaith na'r Cynllun Gweithredu yn sôn am y penderfyniad polisi pwysig hwn na'r effaith debygol ar bobl a oedd yn derbyn y grant yn flaenorol. Dylai'r Cynllun Gweithredu nodi ymrwymiadau o ran sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau bod pobl anabl yn parhau i gael y cymorth sydd ei angen arnynt i fyw'n annibynnol yn y gymuned. Dylid ystyried cynnwys cam gweithredu i werthuso effaith y penderfyniad yn 2016 yn y Cynllun Gweithredu."*

*"Cyllid fydd y cyfyngiad mwyaf bob amser."*

Eiriolaeth

Codwyd pwysigrwydd eiriolaeth sawl gwaith.

> *"Dylid annog mwy o ddefnydd o eiriolaeth. Mae'n well gan lawer o'n haelodau gael eiriolwr wrth law wrth gael cymorth iechyd a gofal cymdeithasol. Dylid ystyried hyn mewn ffordd gadarnhaol."*

> *"Mae eiriolaeth i ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain Byddar yn hanfodol er mwyn iddynt allu byw'n annibynnol. Mae angen i'r eiriolaeth hon rymuso a chefnogi yn hytrach na chynrychioli, sy'n dadrymuso defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain byddar gan fod cynrychiolwyr yn aml yn defnyddio iaith nad yw'n gydnaws ag iaith defnyddiwr Iaith Arwyddion Prydain Byddar."*

Darparu Gwybodaeth

Gwnaed nifer o sylwadau ynghylch darparu gwybodaeth.

> *"Sicrhau bod y wybodaeth leol sydd ar gael am wasanaethau yn gyfredol a'i bod ar gael mewn amrywiaeth o fformatau. Sicrhau bod gwybodaeth yn hawdd i bobl ei deall ac yn hawdd iddynt gael gafael arni."*

> *"Nid yw'n glir o'r Adroddiad ar Gynnydd Law yn Llaw at Iechyd Meddwl p'un a luniwyd canllawiau a gwybodaeth ategol i Fyrddau Iechyd ac awdurdodau lleol am helpu defnyddwyr gwasanaethau â nodweddion gwarchodedig. Os na wnaed hynny, rydym yn argymell y dylid cynnwys y cam gweithredu hwn yn y Cynllun Gweithredu hwn hefyd."*

Cyflogaeth a Hyfforddiant

Cyfeiriodd sawl ymatebydd at gyflogaeth yn eu hymatebion.

> *"Gallai hyrwyddo gofal cymdeithasol fel gyrfa fod yn flaenoriaeth – yn aml, mae angen staff hyfforddedig a medrus ar unigolion, ac mae angen cysondeb arnynt. Mae'r sector yn ei chael hi'n anodd recriwtio a chadw staff."*

> *"Ar wahân i'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd, credaf y dylem ddarparu hyfforddwr cymorth i ddechrau lle bo posibilrwydd uchel y gall unigolyn weithio. Fodd bynnag, dylid sicrhau mai pobl sy'n deall anabledd person a galluoedd posibl yr unigolyn hwnnw sy'n gwneud y penderfyniadau hyn. Mae'n bosibl na wnaiff rhai pobl ag anabledd weithio byth, heb fod unrhyw fai arnyn nhw am hynny, a dylem fod yn gweithio gyda'r unigolion hynny i'w helpu i integreiddio i mewn i gymdeithas. Yn anffodus, does wybod pa sefydliad neu swyddfa gyhoeddus fyddai'n gyfrifol am hyn."*

> *"Un o'r canlyniadau negyddol sy'n deillio o'r ffaith bod y Model Meddygol yn parhau ar waith ar draws y sector cyhoeddus ac i'w weld yn agweddau'r cyhoedd yw nad yw cymdeithas o'r farn bod yr aelodau hynny o staff a gyflogir i helpu pobl anabl yn gwneud rhywbeth o unrhyw werth ac y cânt felly eu trin yn ofnadwy a'u talu'n ofnadwy. Yn amlwg, mae rhesymau ariannol sylfaenol pam bod pob lefel o'r llywodraeth yn ei chael hi'n anodd ariannu'r Isafswm Cyflog neu hyd yn oed y Cyflog Byw neu'n uwch, ond byddai agwedd fwy parchus a chadarnhaol gan y cyhoedd tuag*

*at bobl hŷn a phobl anabl yn ei gwneud hi'n haws i Lywodraeth Cymru o leiaf ddadlau o blaid gwneud hynny."*

Cyfeiriwyd at hyfforddiant hefyd mewn rhai o'r sylwadau a wnaed.

*"Mae hyfforddiant a chymwysterau ar y cyd ynghyd â gwell dealltwriaeth gan weithwyr iechyd proffesiynol o'r modelau cymdeithasol o anabledd a symud oddi wrth y model meddygol (neu'r model diagnosis) neu'r model bioseicogymdeithasol yn bwysig o ran rhoi'r cynigion ar waith."*

*"Gwyddom o'r adroddiad diweddaraf ar gynnydd Law yn Llaw at Iechyd Meddwl fod 86% o staff y GIG wedi cwblhau'r hyfforddiant cydraddoldebau 'Fy Nhrin yn Deg' yn 2017. Er mwyn sicrhau bod staff yn parhau i ymgymryd â'r hyfforddiant hwn, rydym yn argymell y dylid cynnwys cam gweithredu penodol sy'n ymdrin â hyn a gwaith i fonitro'r sefyllfa fel rhan o'r Cynllun hwn."*

Sylwadau eraill

Cafwyd nifer o sylwadau ychwanegol nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw un o'r themâu uchod. Fe'u rhestrir yn llawn mewn ychwanegiad at yr adroddiad hwn yn Atodiad A.

**Cwestiwn 8: Gan ystyried y Cynllun Gweithredu, beth arall allwn ni ei wneud i wella hygyrchedd lleoliadau a thrafnidiaeth gyhoeddus i bobl anabl?**

Cyflwynwyd cyfanswm o 41 o sylwadau ar gyfer y cwestiwn hwn. Mae'r adrannau canlynol yn ystyried y sylwadau cyffredinol a gafwyd fesul thema.

Hyfforddiant

Gwnaeth nifer o ymatebwyr sylwadau am yr angen i ddarparu rhagor o hyfforddiant.

> *"Byddem yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru annog pob aelod o staff sy'n gweithio ym maes trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru i ymgymryd â hyfforddiant cydraddoldeb anabledd, gydag arweiniad gan bobl anabl a sefydliadau anabledd arbenigol o ran yr hyn y dylid ei gynnwys fel rhan o'r hyfforddiant."*

Awgrymwyd bod angen hyfforddi amrywiaeth o bobl â gwahanol rolau a chyfrifoldebau, gan gynnwys gyrwyr, pob cyflogai â swydd sy'n cynnwys ymdrin â chwsmeriaid, yn ogystal â phobl anabl a'u teuluoedd. Nodwyd hefyd y dylai'r hyfforddiant ganolbwyntio ar anableddau penodol.

> *"Rhaid i ni sicrhau bod hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd yn cynnwys hyfforddiant penodol ar anghenion pobl ag anabledd dysgu ac awtistiaeth, nid namau corfforol neu synhwyraidd yn unig."*

Ymgyrch Gyhoeddus

Nododd ambell i ymatebydd fod angen cynnal ymgyrch gyhoeddus.

> *"Mae angen newid ffordd o feddwl pobl yn hyn o beth, yn fwy o bosibl nag mewn meysydd eraill. Mae effaith gadarnhaol hygyrchedd i bawb yn sylweddol ac mae angen ei 'werthu' mwy. Mae angen newid y dull gweithredu cyfan, sy'n awgrymu mewn gwirionedd nad yw hygyrchedd yn berthnasol i un grŵp yn unig, a'i droi wyneb-i-waered. Drwy strategaeth gyfathrebu neu drwy ddamcaniaeth wthio, ond yn sicr mae angen rhoi mwy o ystyriaeth i'r mater."*

> *"Credwn fod cyfle i Gymru ddangos esiampl mewn perthynas â'r agenda hon drwy lansio ymgyrch gyhoeddus i fynd i'r afael â'r achosion o wahaniaethu y mae pobl anabl yn eu hwynebu wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Gellid ehangu'r ymgyrch hon hefyd er mwyn hybu dealltwriaeth ehangach o'r Model Cymdeithasol ledled Cymru."*

Camau Gorfodi a Chymhellion

Galwodd rhai sylwadau am fwy o gamau gorfodi, gan nodi y dylid sicrhau bod darparwyr trafnidiaeth yn atebol.

> *"Byddai'n ddefnyddiol pe byddai gan Lywodraeth Cymru bwerau datganoledig dros drafnidiaeth er mwyn gallu sicrhau bod darparwyr trafnidiaeth yn atebol am y gwasanaethau a ddarperir ganddynt ac am eu cyfrifoldebau tuag at bobl anabl."*

> *"Dylai Llywodraeth Cymru bennu gofynion penodol y gellir eu gorfodi er mwyn sicrhau mynediad i bobl anabl ar gyfer pob prosiect a gwasanaeth seilwaith ym maes cynllunio a thrafnidiaeth."*

Trafodwyd cymhellion hefyd, yn ogystal â mentrau amgen i annog gwasanaethau trafnidiaeth/lleoliadau i fod yn fwy hygyrch.

> *"Cydgysylltu a chynnig cymhellion ar gyfer atebion trafnidiaeth cymunedol, â darpariaeth wedi'i haddasu mewn ffordd addas. Gellid gwneud hyn drwy gynlluniau llogi ceir am gost isel, treth ostyngol ac ati."*

> *"Enwi ac adolygu gwasanaethau/lleoliadau da a drwg, o bosibl ar ffurf debyg i'r sgoriau hylendid bwyd y mae'n rhaid i allfeydd bwyd eu harddangos."*

Cymorth Ariannol

Soniodd sawl ymatebydd am bwysigrwydd teithio rhatach o ystyried cost uchel trafnidiaeth gyhoeddus/cymunedol.

> *"Parhau i weithredu'r cynllun tocynnau bws rhatach, sydd o fudd sylweddol i'r un o bob tri unigolyn sydd wedi colli eu golwg sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru."*

> *"Byddem yn annog dull gweithredu mwy cyson o ran sut mae awdurdodau lleol yn asesu ceisiadau am docynnau bws rhatach i bobl anabl. I'r rheini mewn ardaloedd gwledig, byddai ehangu'r defnydd o'r tocynnau bws hyn i gynnwys gwasanaethau rheilffordd lleol hefyd yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'w profiad teithio."*

Cynnwys Pobl Anabl

Cafwyd ambell i gyfeiriad at yr angen i gynnwys pobl anabl.

> *"Deall y rhwystrau a chymryd camau i ymdrin â phroblemau mynediad a chysylltedd gan ddefnyddio profiad uniongyrchol pobl anabl i ddod i'r ddealltwriaeth hon."*

> *"Er mwyn gwneud hyn, mae angen cynnwys pobl ag amrywiaeth o anableddau, ac mae angen i bob grŵp trafnidiaeth gyhoeddus a lleoliadau gyfarfod gyda'i gilydd."*

Problemau mewn Ardaloedd Gwledig

Nododd sawl ymatebydd broblemau sy'n gysylltiedig â theithio mewn ardaloedd gwledig.

> *"Y broblem yn Sir Ddinbych, i oedolion ag anableddau dysgu, yw argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, a chyda'r nos. Mae hyn yn aml yn rhwystr sylweddol iddynt wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau yn eu hardal. Byddai cam gweithredu i fonitro argaeledd trafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig (yn enwedig gyda'r nos) yn ddefnyddiol o ran hybu annibyniaeth."*

> *"Mae natur wledig Cymru yn golygu y gall hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus fod yn broblem sylweddol i bobl anabl. Er enghraifft, ym Mhontarfynach, nid oes trafnidiaeth gyhoeddus ar gael bob dydd, mae'n rhaid ei threfnu ymlaen llaw ac nid yw'n addas ar gyfer rhai anableddau. Fel y nodir yn y Strategaeth Drafnidiaeth, mae gan Drafnidiaeth Gymunedol ran arbennig o bwysig i'w chwarae wrth helpu pobl hŷn a phobl anabl ag anghenion hygyrchedd. Nododd 84% o sefydliadau Trafnidiaeth Gyhoeddus yng Nghymru fod defnyddwyr eu gwasanaethau yn cynnwys pobl anabl. Felly mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi mentrau Trafnidiaeth Gymunedol."*

Cyfathrebu

Cyfeiriodd llawer o sylwadau at yr angen i sicrhau y caiff gwybodaeth ei chyfleu'n effeithiol i bobl anabl, a galwyd am well gwybodaeth ar ffurf sain ac ar ffurf weledol.

> *"Hoffem pe byddai pob bws newydd yn gallu arddangos gwybodaeth clyweledol er mwyn sicrhau y gall pobl â nam ar eu clyw neu ar eu golwg ddefnyddio bysiau yn annibynnol. Dylid sicrhau bod mynediad heb risiau, gwybodaeth mewn braille a chanllawiau mewn gwahanol fformatau hygyrch ar gael ym mhob gorsaf bysiau a threnau....Dylai gweithredwyr sicrhau y caiff unrhyw newidiadau beunyddiol i wasanaethau trên eu cyfleu mewn ffyrdd sy'n hygyrch ac sy'n golygu na fydd teithwyr anabl yn methu cyhoeddiadau ac yn wynebu oedi diangen i'w taith."*
>
> *"Byddai system amserlenni symlach ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus, fel fersiwn hawdd ei deall, yn hygyrch i bawb a byddai'n gwneud gwahaniaeth mawr o ran hygyrchedd teithio i bobl ag anableddau dysgu....Byddai arwyddion cyhoeddus mewn iaith hawdd i'w deall neu syml i'w defnyddio hefyd yn fuddiol iawn i bobl ag anableddau dysgu mewn mannau cyhoeddus."*

Sylwadau eraill

Cafwyd nifer o sylwadau ychwanegol nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw un o'r themâu uchod. Fe'u rhestrir yn llawn mewn ychwanegiad at yr adroddiad hwn yn Atodiad A.

**Cwestiwn 9: Yn eich barn chi, pa faterion eraill sy'n effeithio ar bobl anabl ddylai fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru?**

Cafwyd 36 o sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae'r adrannau canlynol yn ystyried y sylwadau a gafwyd fesul thema.

Ynysigrwydd Cymdeithasol ac Unigrwydd

Cododd sawl ymatebydd faterion fel ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd.

> *"Mae unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol yn broblem, a gallai cysylltiad â dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru Cymunedau Cysylltiedig: Mynd i'r Afael ag Unigrwydd ac Ynysigrwydd Cymdeithasol fod yn gam gweithredu posibl i'w roi ar waith fel rhan o adran 'Unedig a Chysylltiedig' y Cynllun Gweithredu."*

> *"Mae cymunedau yn ynysu pobl ag anableddau, weithiau'n fwriadol ond yn aml yn anfwriadol. O ganlyniad, mae unigrwydd yn broblem sylweddol i bobl ag anabledd ac o ganlyniad yn cael effaith eithriadol ar eu lles meddwl. Gall helpu pobl i gysylltu â'u cymunedau ac eraill â diddordebau tebyg helpu i liniau'r broblem."*

Tlodi/Budd-daliadau

Roedd llawer o'r sylwadau yn cyfeirio at y problemau y mae pobl anabl yn eu hwynebu o ran tlodi a budd-daliadau.

> *"Rhaid ystyried y system budd-daliadau a'r cysylltiad rhyngddi â chyni a chaledi fel rhan o unrhyw gynllun gweithredu sy'n anelu at helpu pobl i fyw bywydau mwy annibynnol."*

> *"Adolygu effaith diddymu Grant Byw'n Annibynnol Cymru a'r penderfyniad i drosglwyddo'r trefniadau ariannu a'r cyfrifoldeb i Awdurdodau Lleol yng Nghymru."*

> *"Tlodi, ac effaith newidiadau deddfwriaethol mewn perthynas â budd-daliadau...Mae'r rhan fwyaf o oedolion ag anableddau dysgu yn dibynnu ar fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd, felly caiff newidiadau lles effaith anghymesur arnynt. Gall cyfyngiadau ar Fudd-dal Tai, a gostyngiadau mewn cyllid ar gyfer prosiectau tai cymdeithasol, er enghraifft, gael effaith sylweddol ar eu gallu i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Ymdrinnir â hyn yn fras yng ngham gweithredu 13."*

Cyflogaeth

Cyfeiriwyd at bryderon ynghylch cyflogi pobl anabl.

> *"Mae'r bwlch cyflogaeth i bobl anabl yn mynd yn fwy, felly mae'n hanfodol y dylai sefydliadau sy'n ceisio cynrychioli buddiannau cymuned benodol fwrw ati i recriwtio a datblygu staff â phrofiad uniongyrchol o'r materion y maent yn ceisio ymdrin â nhw. Dylid cynnig mwy o gyfleoedd i bobl anabl ddatblygu rolau ar bob lefel o fewn eu sefydliadau."*

*"Er mwyn cau'r bwlch cyflogaeth i bobl anabl, rhaid ymdrin ag agweddau negyddol a stigma yn y gweithle tuag at bobl anabl, a'r rheini â chyflyrau iechyd meddwl, a dylid helpu pobl anabl i barhau i weithio, ac i ddychwelyd i weithio ar ôl cyfnodau o salwch."*

Addysg a Hyfforddiant

Galwodd nifer o ymatebwyr am welliannau ym maes addysg a hyfforddiant.

*"Ffocws ar addysg i bob grŵp oedran, hyfforddiant a phrentisiaethau addas er mwyn i unigolion allu meithrin sgiliau newydd, cyfleoedd cyflogaeth ac i fyw'n annibynnol."*

*"Mewn ysgolion, dylai pobl ddysgu sut i atal achosion o gam-drin, camfanteisio a gwahaniaethu! Dylid addysgu plant ifanc er mwyn iddynt ddysgu sut i adnabod technegau meithrin perthynas amhriodol, gan fod unigolion sy'n cam-drin a throseddwyr yn aml yn defnyddio'r technegau hyn. Dylid addysgu plant i barchu pawb (gan gynnwys pobl ag anableddau), gan mai dyna'r unig ffordd y byddant yn dod yn unigolion sy'n annog heddwch! Dylai ysgolion hefyd addysgu rhieni mewn perthynas â'r pynciau a grybwyllwyd gennyf uchod. Gellid cynnal cyfarfod arbennig bob blwyddyn i'w haddysgu! Gall anwybodaeth rhieni olygu y byddant yn amlygu eu plant eu hunain i droseddwyr. Os na chaiff oedolion a phlant eu haddysgu i atal achosion o gam-drin a gwahaniaethu, byddwn yn creu cymdeithas o gamfanteisio, a chylch parhaus o gam-drin!"*

Deddfwriaeth

Gwnaed llawer o sylwadau mewn perthynas â newidiadau deddfwriaethol.

*"(Rydym) yn galw ar Lywodraeth y DU i atgyfnerthu'r Ddeddf Cydraddoldeb er mwyn sicrhau y caiff hawliau pobl anabl eu hamddiffyn pan fyddant yn ceisio dod o hyd i waith, parhau i weithio a gwneud cynnydd yn y gwaith. Rydym am i'r Ddeddf Cydraddoldeb gael ei hatgyfnerthu er mwyn amddiffyn hawliau pobl anabl a gweithwyr â chyflyrau iechyd meddwl yn well; drwy gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl yng nghyfraith y DU, gan amddiffyn pobl rhag achosion o wahaniaethu ar sail mwy nag un nodwedd warchodedig, ac achosion o wahaniaethu oherwydd cyflwr iechyd byrdymor sy'n effeithio arnynt unwaith neu gyflwr parhaus o'r fath.  Rydym wrth ein bodd bod y cynllun gweithredu yn defnyddio'r Ddeddf Cydraddoldeb ac yn cysylltu â'r ddeddf honno, ac yn ystyried egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl. Hoffem i'r dull gweithredu hwn gael ei adlewyrchu yng nghyfraith ddomestig y DU. Byddem hefyd yn croesawu cyfleoedd i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac EHRC Cymru i ystyried sut y gellir atgyfnerthu'r Ddeddf ymhellach yng Nghymru."*

*"Dylai Llywodraeth Cymru ddeddfu Adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 – y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol."*

*"Sefydlu Deddf Iaith Arwyddion Prydain, yn debyg i Ddeddf Iaith Arwyddion Prydain Senedd yr Alban. Mae'r ffaith na cheir llawer o sôn am Iaith Arwyddion Prydain mewn deddfwriaeth bresennol yn golygu ei bod fwy neu lai'n amhosibl gorfodi'r ddeddfwriaeth ar gyfer defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain Byddar. Ymddengys mai Deddf ar wahân yw'r unig ffordd ymlaen o ran galluogi defnyddwyr Iaith Arwyddion*

*Prydain Byddar i gyflawni'r nod o fyw'n annibynnol a sicrhau nad oes angen iddynt ddibynnu ar wasanaethau er mwyn cael gafael ar ddarparwyr gwasanaethau prif ffrwd."*

Eiriolaeth

Tynnodd ambell i ymatebydd sylw at y buddiannau sy'n gysylltiedig ag eiriolaeth.

*"Mae'r diffyg gwasanaethau eiriolaeth arbenigol yn bryder difrifol i bobl anabl yng Nghymru, yn enwedig pobl ag anabledd dysgu. Rydym wedi colli llawer o'r gwasanaethau hyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf oherwydd diffyg cyllid. Mae awdurdodau lleol yn aml yn comisiynu gwasanaethau eiriolaeth cyffredinol ond heb wybodaeth a dealltwriaeth arbenigol o anghenion penodol pobl ag anabledd dysgu, mae'r gwasanaethau hyn yn aml yn aneffeithiol iawn. Mae hyn yn arbennig o bwysig i rieni ag anabledd dysgu gan fod angen eiriolwyr arnynt sydd nid yn unig yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion pobl ag anabledd dysgu ond sydd hefyd yn meddu ar wybodaeth arbenigol am y broses amddiffyn plant a'r gallu i fynd gyda nhw i'r llys. Dylai'r Hawl i Fyw'n Annibynnol gynnwys hawl teuluoedd i gael gwasanaethau eiriolaeth a'r cymorth i wneud hynny mewn ffordd ddiogel a digonol."*

*"Rydym am gael mwy o gefnogaeth o blaid hunaneiriolaeth er mwyn i ni allu eirioli ein hunain ac eraill."*

Gofal Iechyd

Awgrymwyd cynigion a oedd yn gysylltiedig â gofal iechyd mewn rhai o'r sylwadau a wnaed.

*"Rydym yn ymwybodol o'r ffaith na all pobl anabl barhau i gael taliadau uniongyrchol pan fyddant yn gymwys i gael gofal iechyd parhaus. Er ein bod yn gwerthfawrogi nad yw Llywodraeth Cymru, yn wahanol i Loegr, yn ystyried cyllidebau iechyd personol ar hyn o bryd, byddem yn awyddus i Lywodraeth Cymru ystyried cam gweithredu sy'n annog Byrddau Iechyd i ystyried opsiynau fel Ymddiriedolaethau Defnyddwyr Annibynnol, lle mae person anabl yn gymwys i gael gofal iechyd parhaus, er mwyn i'r person anabl a/neu ei deulu allu parhau i arfer rheolaeth wrth wneud trefniadau ar gyfer eu gofal."*

*"Mae gwella mynediad a chyflymu'r broses ar gyfer gwneud diagnosis yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau gofal llygaid yn addas ar gyfer y dyfodol. Rydym yn croesawu'r newid system newydd o ran gofal llygaid yng Nghymru, lle y caiff cleifion eu blaenoriaethu yn ôl y risg y byddant yn colli eu golwg ac na fydd modd gwrth-droi'r cyflwr. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y cânt eu gweithredu a'u monitro'n llawn ym mhob bwrdd iechyd er mwyn sicrhau y gall pobl gael gafael ar driniaeth mewn modd amserol ac na fyddant yn colli eu golwg yn ddiangen. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gyflwyno llwybrau newydd i gleifion i'w hatal rhag colli eu golwg, gan roi mwy o gymorth i bobl fyw'n annibynnol yn y gymuned. Bydd modelau gofal newydd, cefnogi gofal iechyd darbodus a 'Cymru Iachach' a gofal yn agosach i gartref yn sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithio'n anad dim i ddiogelu golwg unigolion, drwy ganfod achosion o glefyd y llygaid yn gynnar ac wedyn geisio rhoi helpu i'r rheini â nam ar eu golwg nad yw triniaeth bellach yn briodol ar eu cyfer."*

Sylwadau eraill

Cafwyd nifer o sylwadau ychwanegol nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw un o'r themâu uchod. Fe'u rhestrir yn llawn mewn ychwanegiad at yr adroddiad hwn yn Atodiad A.

**Cwestiwn 10: Hoffem gael eich barn ar yr effeithiau y byddai Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**
**Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

Cyflwynodd 30 o ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Mae'r adrannau canlynol yn ystyried y sylwadau cyffredinol a gafwyd fesul thema.

<u>Cefnogaeth i'r Gymraeg</u>

Nododd llawer o ymatebwyr eu bod o blaid y Gymraeg yn gyffredinol.

> *"Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Gymraeg wedi'i chynnwys yn yr ymgynghoriad hwn a'r cyfeiriadau amlwg ati. Dylai cadarnhau a chefnogi hawl pobl anabl i fyw bywydau annibynnol gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg gan fod diwallu gwahanol anghenion ieithyddol unigolion yn hollbwysig wrth sicrhau ymreolaeth ac annibyniaeth."*

> *"Rhaid i'r holl wybodaeth fod yn ddwyieithog ac ni ddylai pobl orfod gofyn am gael eu gwybodaeth yn Gymraeg."*

<u>Addysg a Hyfforddiant</u>

Cyfeiriwyd at bwysigrwydd cyfleoedd i fanteisio ar addysg Gymraeg mewn sawl sylw.

> *"I ategu hyn, mae angen rhoi mesurau ar waith fel sicrhau bod cyfleoedd dysgu yn gwbl hygyrch, y gellir cyrraedd lleoliadau dysgu yn hawdd a bod ystyriaethau teithio ar waith."*

> *"Fel aelwyd ddwyieithog, mae'r gallu i fanteisio ar addysg Gymraeg yn bwysig iawn i ni. Er bod dwy ysgol gynradd Saesneg o fewn pellter cerdded neu sgwtio cyfleus, mae'n rhaid i ni deithio 4 milltir i'r ysgol gynradd Gymraeg agosaf. Mae hyn yn amlwg yn golygu fy mod o dan anfantais, fel rhiant anabl sy'n awyddus i'w phlant gael addysg ddwyieithog. Efallai y byddai grant er mwyn galluogi dulliau teithio cynhwysol yn helpu i sicrhau y gallai rhieni anabl gynnig addysg Gymraeg i'w plant."*

> *"Dylid rhoi cymorth i weithwyr proffesiynol ddysgu Cymraeg fel bod y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn ddwyieithog."*

Cafwyd cais hefyd i sicrhau bod deunyddiau hyfforddi yn gwbl hygyrch.

> *"Rydym yn argymell y dylai'r holl ddeunyddiau hyfforddi fod ar gael mewn fformatau hygyrch ac y dylent ddilyn y canllawiau a argymhellir yn Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy."*

<u>Ariannu</u>

Awgrymwyd bod angen sicrhau bod cyllid ar gael er mwyn mabwysiadu'r Gymraeg.

> *"Fel gydag unrhyw fater a ariennir yn gyhoeddus, mae angen gwarantu y bydd cyllid ar gael, heb hynny ni ellir gwneud unrhyw newidiadau."*

*"Os bwriedir rhoi'r fframwaith hwn ar waith gan ystyried y Gymraeg, yna rhagwelwn y bydd y gost yn uwch, gan y bydd angen sicrhau bod yr holl hyfforddiant, deunyddiau a newidiadau ffisegol yn ystyried y Gymraeg a, lle y bo'n briodol, yn cael eu llunio yn Gymraeg."*

Sylwadau Eraill

Cafwyd nifer o sylwadau ychwanegol nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw un o'r themâu uchod. Fe'u rhestrir yn llawn mewn ychwanegiad at yr adroddiad hwn yn Atodiad A.

**Cwestiwn 11: Esboniwch hefyd sut y credwch y gellid llunio'r polisi arfaethedig Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol neu ei newid er mwyn:**

- **creu effeithiau cadarnhaol neu ragor o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg,**
- **a sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a'r gofyniad i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Ymatebodd 11 o unigolion i'r cwestiwn hwn. Rhestrir detholiad o'r sylwadau penodol isod.

> *"Un o'r heriau mwyaf i'r sector gofal cymdeithasol yw recriwtio, ac i ddarparwyr yn lleol, mae recriwtio staff cymorth sy'n siarad Cymraeg yn arbennig o anodd. Mewn gwirionedd, nid yw'r polisi yn cydnabod nac yn ymdrin â'r her hon"*
>
> *"Nid oes unrhyw gyfeiriad amlwg yn y brif ddogfen at y Gymraeg nac at 'Mwy na Geiriau', sef strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau dwyieithog ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n bwysig sicrhau bod darparu gwasanaethau dwyieithog yn rhan annatod o'r fframwaith gweithredu cyffredinol ac y caiff anghenion Cymraeg eu hystyried lle y bo'n berthnasol o fewn gwahanol themâu'r Cynllun Gweithredu. Byddem yn hoffi gweld cyfeiriad penodol at 'Mwy na Geiriau' yn y brif ddogfen a dealltwriaeth amlwg o'r cyswllt pwysig rhwng iaith, darparu gwasanaethau ac iechyd a lles."*
>
> *"Byddai darparu amrywiaeth o gyfleoedd i bobl anabl ddysgu Cymraeg yn eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg, ac yn cefnogi cynhwysiant gan y byddai'n galluogi pobl anabl i fanteisio ar yr un cyfleoedd â'u cyfoedion nad ydynt yn anabl sy'n dysgu Cymraeg. Byddai hefyd yn cyflawni gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb."*
>
> *"Ni ddylai unrhyw un fod o dan anfantais oherwydd ei iaith. Mae angen cydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaethau yn Gymraeg, yn enwedig i bobl hŷn y mae'r Gymraeg fwy na thebyg yn famiaith iddynt, ac mae hyn yn arbennig o wir i bobl sy'n byw â dementia. Dylid darparu cymorth priodol wedi'i ariannu i sefydliadau er mwyn iddynt allu gweithredu'n ddwyieithog, yn enwedig yn y trydydd sector."*
>
> *"Mae'r effaith fwyaf, yn gadarnhaol ac yn negyddol, yn ariannol. Heb yr arian, nid oes dim byd yn digwydd."*
>
> *"Un peth y dylai'r Llywodraeth ei wneud, yn fy marn i, yw cyhoeddi'r Gymraeg a'r Saesneg ar yr un dudalen, er mwyn i ni allu deall yr eirfa yn ei chyd-destun, heb orfod troi llyfrynnau drosodd er mwyn dod o hyd i'r dudalen gyfatebol."*

**Cwestiwn 12: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech chi godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle hwn er mwyn sôn amdanynt.**

Cafwyd 18 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Mae'r adrannau canlynol yn ystyried y sylwadau cyffredinol a gafwyd fesul thema.

Anghenion Penodol ar gyfer Rhai Anableddau Penodol

Cyfeiriwyd at sawl gwahanol fath o anabledd, ynghyd â'r gwahanol anghenion sy'n gysylltiedig â'r anableddau hyn.

> *"Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r gwahaniaethau rhwng anableddau 'confensiynol' ac anableddau 'gweladwy', lle y gallai addasiadau rhesymol fod yn gymharol syml i'w gwneud, a'r rheini ag achosion o salwch cronig / parhaus, boed yn gorfforol neu'n feddyliol.... Hoffem weld mwy o werthfawrogiad gan y cyhoedd i'r amrywiol fathau o anableddau, er mwyn sicrhau na fydd y rheini â chyflyrau cronig, anweladwy yn wynebu cymaint o ragfarn a chamddealltwriaeth ag y maent yn ei wynebu ar hyn o bryd."*

> *"Mae Byw'n Annibynnol yn y gymuned yn dibynnu ar ddull gweithredu cydgysylltiedig lle y caiff pobl ag anableddau dysgu eu hystyried fel dinasyddion gweithgar a chyfartal a all wneud cyfraniad gwirioneddol i gymdeithas. Rhaid i'r sector tai, cyflogaeth, addysg a sgiliau byw'n annibynnol gydweithio er mwyn i hyn lwyddo."*

> *"Mae'r camau gweithredu mewn perthynas ag awtistiaeth yn cyfeirio at asesu, diagnosis, hyfforddiant a chymorth i deuluoedd. Ond i'r oedolion sydd wedi cael diagnosis...? Yn rhy aml o lawer, mae oedolion sy'n nodi eu bod yn awtistig ac yn gweithredu ar lefel uchel yn syrthio drwy'r rhwyd yn llwyr."*

> *"Teimlwn fod anfanteision yn gysylltiedig â thrin pobl fyddar/trwm eu clyw fel grŵp unffurf. Mae bwlch mawr rhwng defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain sy'n ystyried eu bod yn grŵp ieithyddol a diwylliannol ar y cyfan, a phobl trwm eu clyw sy'n aml yn ystyried eu bod yn anabl gan eu bod wedi colli eu clyw fel arfer fel oedolyn neu'n ddiweddarach mewn bywyd. Mae eu canfyddiadau fel arfer yn wahanol iawn ac er ein bod ni, fel sefydliad, yn gadarn o blaid unrhyw fesurau sy'n gwella mynediad i bobl â phob math o fyddardod/nam ar eu clyw, rydym hefyd yn poeni'n benodol am ein buddiolwyr - defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain Byddar. Maent yn colli allan ar wybodaeth, cyfleoedd i feithrin dealltwriaeth ac yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar wasanaethau. Rydym yn poeni nad yw'r ddogfen hon mewn gwirionedd yn ymdrin â'r mater hwn ac nad yw'r awduron wedi llwyddo i feithrin dealltwriaeth ddigonol o'r graddau y mae defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain Byddar yn wynebu anfantais oherwydd diffyg cyfleoedd addysgol a chyfleoedd i fod yn rhan o'r gymuned ehangach. "Byddem yn croesawu cyfle i ymgysylltu'n agosach o lawer â'r rheini sy'n gyfrifol am roi'r strategaeth gydraddoldeb ar waith yng Nghymru yn fawr."*

Diwygiadau Lles a Budd-daliadau

Gwnaed rhywfaint o sylwadau mewn perthynas â diwygiadau lles a budd-daliadau.

*"Gellid cyfeirio at effaith diwygiadau lles ac ideoleg cyni llywodraeth y DU yn y ddogfen. Ni cheir unrhyw gydnabyddiaeth o'r ofn a'r pwysau a grëwyd drwy ddiddymu Grant Byw'n Annibynnol Cymru."*

*"Mae'n bwysig iawn bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gall y ffocws ar waith waethygu profiadau negyddol y dinasyddion hynny na allant weithio oherwydd eu hiechyd. Ceir ymdeimlad sylweddol bod pobl anabl ar fudd-daliadau yn dod yn fychod dihangol ar gyfer yr hinsawdd cyni bresennol, a all olygu eu bod yn cael eu dirmygu a'u sarhau gan y cyhoedd, ac sydd hefyd yn effeithio ar eu lles / prognosis.*

*Mae hefyd yn bwysig bod Llywodraeth Cymru yn ystyried yn ofalus yr effaith y mae'r ofn y byddant yn colli budd-daliadau yn ei chael ar awydd / gallu pobl i wirfoddoli neu i wneud unrhyw fath o waith a ganiateir. Yn ogystal, mae llawer o bobl anabl neu sâl yn nodi bod ofn arnynt geisio dychwelyd i'r gwaith rhag ofn y bydd eu cyflwr yn dychwelyd ac y bydd yn rhaid iddynt ddechrau cais arall. Ers cyflwyno Credyd Cynhwysol, bydd rhai pobl o bosibl yn waeth eu byd yn ariannol os bydd yn rhaid iddynt ddechrau cais newydd. Mae'r sefyllfa hon yn golygu bod gormod o ofn ar rai hyd yn oed i geisio dychwelyd i'r gwaith, yn enwedig y rheini â salwch cronig / parhaus. Mae angen i Lywodraeth Cymru wneud popeth o fewn ei gallu i ddarparu cymorth ariannol a seicolegol i'r bobl hyn. Mae llawer o'n haelodau yn nodi bod y broses ar gyfer gwneud cais am fudd-daliadau yn achosi straen mawr iddynt, hyd yn oed os bydd ganddynt dystiolaeth feddygol sylweddol gan eu darparwyr gofal iechyd.*

*Mae angen i Lywodraeth Cymru ymdrin â thoriadau diweddar a pharhaus i fudd-daliadau, fel y Premiwm Anabledd Difrifol i'r rheini â salwch / nam sylweddol sy'n byw ar eu pen eu hunain, a'r dreth ystafell wely i'r rheini y mae angen ystafell wely sbâr arnynt er mwyn cadw cyfarpar sy'n gysylltiedig â'u cyflwr, neu berthynas / gofalwr sy'n ymweld, ar fyrder."*

Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cyfeiriodd sawl ymatebydd at ystyriaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

*"Credwn y dylai cleifion ag anghenion iechyd cymhleth allu cael gafael yn hwylus ac yn amserol ar lywiwr / hwylusydd / eiriolwr gofal iechyd penodedig a all gydgysylltu gofal gyda'r person hwnnw neu ar ran y person hwnnw.*

*O ystyried y diffyg gwybodaeth am lwybrau atgyfeirio, credwn hefyd y dylai 'catalog' neu wyddoniadur 'ar-lein' o lwybrau atgyfeirio, gan gynnwys gwasanaethau trydyddol / eilaidd ar gyfer pob cyflwr, a sicrhau ei fod ar gael i weithwyr meddygol proffesiynol a chleifion, fod ar waith ledled Cymru.*

*Efallai y byddai'n ddefnyddiol cynnal dadansoddiad cost / budd o therapïau cyflenwol, yn enwedig o gymharu â'r costau cyhoeddus sy'n gysylltiedig â darpariaeth fwy confensiynol (apwyntiadau meddygon, cyfleoedd cyflogaeth a gollir ac ati) lle na cheir mynediad i'r cyntaf. Tybed a fyddai'n werth ystyried system debyg i'r system taliadau uniongyrchol ym maes gwasanaethau cymdeithasol, lle y caiff cleifion gyfle i drefnu elfennau o'u gofal eu hunain. Ar gyfer cleifion ag anghenion penodol, dylid sicrhau bod eiriolaeth ffurfiol / cymorth ar gael i gyllidebu a defnyddio'r arian yn briodol."*

Addysg

Cyfeiriwyd at wahanol agweddau ar addysg mewn sylw a wnaed gan un o'r ymatebwyr.

> *"Hoffem weld mwy o fuddsoddiad mewn nyrsys ysgol, er mwyn sicrhau bod rhywun ar gael bob amser sy'n meddu ar wybodaeth feddygol i fynd atynt i gael help a chymorth mewn man diogel a phreifat.*
>
> *Hoffem weld sesiynau addysg lles mislifol yn cael eu cynllunio a'u cyflwyno gan bobl â phrofiad uniongyrchol. Mae hynny'n well na disgwyl i athrawon dosbarth, na fydd y disgyblion o bosibl yn teimlo'n gyfforddus â nhw (ac na fyddant hwythau eu hunain o reidrwydd yn teimlo'n gymwys i wneud hynny) yn ymdrin â phynciau mor sensitif.*
>
> *Hoffem weld pobl anabl / pobl â phrofiad uniongyrchol o amrywiaeth o gyflyrau iechyd yn cael eu gwahodd fel mater o drefn i ysgolion i gyflwyno sesiynau am eu bywydau, eu cyflawniadau a / neu rwystrau y maent wedi dod ar eu traws, yn ogystal ag unrhyw gyngor ymarferol y byddant o bosibl am ei roi. Mae'n hanfodol bod disgyblion yn dod ar draws amrywiaeth ac yn dod yn gyfarwydd ag amrywiaeth, er mwyn i ni allu dechrau adeiladu cymdeithas fwy gydlynus lle ceir llai o ragfarn a chamddealltwriaeth. Byddem yn awyddus i'r unigolion hynny gael eu talu am eu cyfraniadau, yn hytrach na chyflwyno'r sesiynau hyn o'u gwirfodd, yn unol â'r awgrym a geir yn Adran 1 'Ffyniannus a Diogel' yr ymgynghoriad hwn."*

Ariannu

Soniodd nifer o ymatebwyr am drefniadau ariannu a'r heriau cysylltiedig.

> *"Hoffem i Lywodraeth Cymru gynnig cyllid i amrywiaeth fwy o dderbynwyr. Mae'r trydydd sector yn cynnwys amrywiaeth o grwpiau, ac nid dim ond elusennau mawr a all wneud cais am dendrau, er enghraifft. Fel sefydliad gwirfoddol a arweinir gan gleifion, hoffem i Lywodraeth Cymru fod yn fwy hyblyg wrth ddosbarthu cyllid; bydd cynaliadwyedd yn fater pwysig wrth i'r polisi rhagnodi cymdeithasol ddod i rym, felly mae'n hanfodol bod arianwyr, gan gynnwys y Llywodraeth, yn cymryd camau i sicrhau bodolaeth hirdymor grwpiau sy'n darparu gwasanaethau i bobl anabl."*
>
> *"Gellid cyfeirio at effaith diwygiadau lles ac ideoleg cyni llywodraeth y DU yn y ddogfen. Ni cheir unrhyw gydnabyddiaeth o'r ofn a'r pwysau a grëwyd drwy ddiddymu Grant Byw'n Annibynnol Cymru."*
>
> *"Yn ystod y cyfnod hwn o gyni, ymddengys bod diffyg cyllid yn cael ei ddefnyddio fel esgus i wneud toriadau. Byddai'n ddefnyddiol sicrhau rhywfaint o atebolrwydd am wadu hawliau. Gan fod anghenion anabledd eisoes yn cael eu symud o bob adran, ni ddylai diffyg cyllid fod yn esgus. Wedyn efallai y byddai'r awdurdodau yn disgwyl i San Steffan a'r rheini sy'n gyfrifol am lefelau ariannu Cymru ymdrin â'r sefyllfa, yn hytrach na gwadu hawliau i'r teuluoedd yr effeithir arnynt."*

Sylwadau Eraill

Cafwyd nifer o sylwadau ychwanegol nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw un o'r themâu uchod. Fe'u rhestrir yn llawn mewn ychwanegiad at yr adroddiad hwn yn Atodiad A.

## Camau Nesaf

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at yr ymgynghoriad ar y fframwaith newydd ar gyfer Gweithredu ar Anabledd a'i Gynllun Gweithredu ategol. Yn dilyn yr ymgynghoriad, gwnaed newidiadau sylweddol i'r ddwy ddogfen. Ceir crynodeb o rai o'r newidiadau allweddol yn fersiwn derfynol y fframwaith. Yn ogystal, bydd yr adroddiad hwn yn llywio proses barhaus ar gyfer datblygu'r cynllun gweithredu a fydd yn parhau'n ddogfen fyw. Cyhoeddir fersiwn derfynol Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol ym mis Awst 2019 a chyhoeddir yr adroddiad hwn ar yr un pryd.

**ATODIAD A**

## Sylwadau ychwanegol nad ydynt yn ymwneud â'r themâu a nodwyd yn y crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen ymgynghori Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol

Gwnaed nifer o sylwadau ychwanegol gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol nad ydynt yn gysylltiedig â thema benodol a nodwyd yn y prif adroddiad o'r crynodeb o'r ymatebion. Isod, nodir y sylwadau ychwanegol hyn a'r cwestiynau roeddent yn ymwneud â nhw yn yr ymgynghoriad.

### Sylwadau Cyffredinol

Yn ogystal â'r sylwadau cyffredinol a gafwyd, gwnaed nifer o sylwadau nad oeddent yn gysylltiedig â thema benodol, gan gynnwys cyfeiriadau at y canlynol:

- cais i Ysgolion, Colegau a Phrifysgolion yng Nghymru anelu at gynnig graddau mewn Astudiaethau Busnes, tystysgrifau ôl-raddedig mewn Mentora, Hyfforddi a Grymuso Cymunedau a phrofiadau gwaith eraill, yn hytrach na gweithredu gan ddilyn dull mwy traddodiadol y Model Meddygol / Cymdeithasol mewn perthynas ag Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chymunedol ac ati.
- yr angen i wella'r gwasanaethau a ddarperir mewn perthynas â thai, gwaith / budd-daliadau, cyllid, addysg / gofal iechyd, hamdden a phleser / opsiynau adloniant ac ati.
- honiad nad yw rhaglen Cymunedau am Waith yn helpu pobl ag anableddau dysgu i ddod o hyd i waith gan fod angen sefydliadau arbenigol.
- ceisiadau i staff gael eu hyfforddi ym maes cyflogaeth â chymorth a negodi â chyflogwyr.
- yr angen i'r fframwaith newydd nodi y caiff pob enghraifft o gyfranogiad cymdeithasol gan bobl anabl ei chroesawu er mwyn osgoi straeon o hunanddibyniaeth a chynhyrchiant economaidd sydd ar hyn o bryd yn cael effaith andwyol iawn ar lawer o bobl anabl.
- yr angen i ymdrin â gofal cymdeithasol yn y cynllun gweithredu, ac i wasanaethau gofal cymdeithasol ddarparu'r gwasanaethau sylfaenol y mae gan bobl yr hawl i'w cael.
- angen i sicrhau bod rhagor o wybodaeth ar gael i gleifion sydd newydd gael diagnosis a gwell dulliau o'u cyfeirio at gymorth.
- honiad bod angen i bobl anabl allu cael gafael ar therapi galwedigaethol, therapi lleferydd ac iaith, ffisiotherapi a therapi dietegol i'w helpu i fyw â'u cyflwr, a bod prinder therapyddion.
- y gofyniad i sicrhau bod cymorth ariannol ar gael i bobl anabl a'u teuluoedd er mwyn i bobl anabl allu byw'n annibynnol.
- monitro a defnyddio enghreifftiau posibl o arfer gorau o Ddeddf Canada Hygyrch.
- yr angen i sicrhau bod pob Cynllun Llesiant a gaiff ei lunio gan Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus yn cynnwys y camau gweithredu i gefnogi'r cysyniad o'r Hawl i Fyw'n Annibynnol ac yn ystyried anghenion pobl leol anabl.
- ceisiadau am fwy o ffocws ar Dechnoleg Gynorthwyol a'r rhan y gall ei chwarae wrth helpu pobl anabl i fyw bywydau ffyniannus.
- Llywodraeth Cymru yn arwain ymgyrch i fynd i'r afael â'r achosion o wahaniaethu y mae pobl anabl yn eu hwynebu wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.
- Llywodraeth Cymru yn arwain ymgyrch gwrth-stigma ac ymwybyddiaeth o anabledd ac iechyd meddwl, wedi'i thargedu at gyflogwyr mawr, canolig a bach, yn ogystal â chyflogeion.

- Llywodraeth Cymru sydd yn y sefyllfa orau i weinyddu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yng Nghymru.
- cais am gyngor gyrfaoedd arbenigol i bobl ifanc anabl o 14 oed, ynghyd â galw am wasanaeth atgyfeirio ffurfiol i bobl ifanc anabl sy'n gadael yr ysgol neu'r coleg er mwyn iddynt ddod o hyd i'r cymorth cyflogaeth anabledd arbenigol sydd ar gael yn eu cymunedau lleol.
- yr angen i Lywodraeth Cymru ymchwilio i'r effaith y mae'r Credyd Cynhwysol yn ei chael ar bobl anabl yng Nghymru ac i ystyried p'un a oes camau gweinyddol y gall eu cymryd er mwyn helpu i liniaru unrhyw effeithiau a nodir.
- cais i'r fframwaith a'r cynllun gweithredu adlewyrchu nifer o argymhellion a wnaed yn adroddiad EHRC 'A yw Cymru'n Decach? 2018'.
- Llywodraeth Cymru yn ymdrin â'r bylchau data sy'n bodoli i bobl anabl ar draws meysydd gwasanaeth cyhoeddus.
- Llywodraeth Cymru yn rhoi argymhellion yr adroddiad 'Tai a Phobl Anabl: argyfwng cudd Cymru' ar waith.
- rhoi blaenoriaeth uwch i fyw'n annibynnol a dyrannu adnoddau priodol i'r maes.
- pryderon nad oes unrhyw gyfeiriad at Brexit yn y fframwaith na'r cynllun gweithredu.
  *"Ymddengys nad oes unrhyw gyfeiriad at Brexit yn Gweithredu ar Anabledd er gwaethaf yr effaith sylweddol a gaiff ar bobl anabl. Ar y cyd â Sefydliadau i Bobl Anabl ledled y DU, rydym yn pryderu am y diffyg ymgysylltu â phobl anabl wrth gynllunio ar gyfer Brexit. Hyd y gwyddom, ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith mewn perthynas â phobl anabl ac ni nodwyd unrhyw gamau lliniaru."*
- honiad bod rhwystrau mewn perthynas â thai yn ei gwneud hi'n anodd byw'n annibynnol, os nad yn amhosibl. Cais i'r adran ar Dai gynnwys enghreifftiau o rwystrau eraill sy'n atal pobl ag amrywiaeth eang o anableddau rhag cael gafael ar dai a'u cadw - e.e. gall lleoliad tai gael effaith eithriadol o ran p'un a all unigolyn â phroblem iechyd meddwl ddifrifol a pharhaus fyw'n annibynnol ai peidio.
- yr angen i waith Llywodraeth Cymru ar fyw'n annibynnol geisio dylanwadu ar yr Adolygiad Tai Fforddiadwy er mwyn annog darpariaeth tai sy'n galluogi unigolion i fyw'n annibynnol ac yn eu helpu i wneud hynny.
- awgrymwyd testun newydd gan un o'r ymatebwyr:
  *"Hoffem awgrymu'r ychwanegiadau canlynol:*
  *Yn gyntaf, awgrymwn yr ychwanegiad canlynol, o bosibl ar ôl (9):*
  *Defnyddio systemau fel y canllawiau newydd ar y Grant Cymorth a phrosesau cynllunio eraill i sicrhau y caiff cynlluniau tai â chymorth, tai lloches a byw'n annibynnol newydd eu datblygu'n agos at wasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau cymorth y trydydd sector, gwasanaethau i leihau ynysigrwydd cymdeithasol, rhwydweithiau teulu/ffrindiau/cymorth a chysylltiadau trafnidiaeth er mwyn sicrhau bod y tai yn gynaliadwy i bobl ag anableddau corfforol, problemau iechyd hirdymor, problemau iechyd meddwl ac anableddau dysgu.*
  *Yn ail, awgrymwn yr ychwanegiad canlynol i gam gweithredu (10):*
  *Parhau i ddarparu cymorth yn ymwneud â thai, llety â chymorth a chynlluniau byw â chymorth i helpu pobl anabl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, gan gynnwys pobl ag anableddau corfforol, anableddau dysgu, problemau iechyd meddwl, salwch cronig ac anhwylderau ar y sbectrwm awtistig. .*
  *Yn drydydd, awgrymwn gam gweithredu newydd ar ôl (10):*

*Sicrhau bod cymorth yn ymwneud â thai yn ystyried unrhyw faterion sy'n ymwneud â thrawma ac unrhyw faterion seicolegol. Dengys tystiolaeth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fod unigolion sydd wedi profi trawma yn ystod eu plentyndod yn llawer mwy tebygol o fod yn defnyddio gwasanaethau pan fyddant yn hŷn. Felly mae'n hanfodol sicrhau y caiff gwasanaethau ar bob lefel eu hyfforddi i gydnabod y gall pobl â rhai anableddau fel problemau iechyd meddwl fod wedi profi trawma, ac felly bod angen i wasanaethau roi ystyriaeth i faterion seicolegol er mwyn lleihau'r effaith negyddol.*
*Sicrhau y caiff Cymorth Ymddygiadol Cadarnhaol ei annog a'i fabwysiadu fel methodoleg ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu lle y gwelir enghreifftiau o ymddygiad heriol yn amlach."*

- Cefnogaeth o blaid y diffiniad o Byw'n Annibynnol a ddefnyddiwyd yn y fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd, ac awgrym hefyd y dylai gynnwys cyfeiriad at yr hawl i ddewis y math o gymorth sydd ei angen a sut a chan bwy y caiff ei ddarparu - cais i adlewyrchu'r diffiniad diwygiedig yn yr holl ddogfennau polisi perthnasol a gyhoeddir gan adrannau eraill Llywodraeth Cymru.
- Parhau i ymgysylltu â phobl anabl unwaith y caiff y fframwaith newydd ei fabwysiadu.
- Bod yn rhaid i'r strategaeth gyfathrebu sy'n gysylltiedig â'r fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd gynnwys camau i gynnwys rhanddeiliaid presennol a rhanddeiliaid newydd yn y mudiad byw'n annibynnol. Rhaid defnyddio iaith a therminoleg gyson a hygyrch, ac mae'n hanfodol cyfathrebu gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu cynhwysol, gan gynnwys fformatau digidol, fformatau hawdd i'w darllen a fideos Iaith Arwyddion Prydain.
- cais i sicrhau bod digon o adnoddau ariannol ac adnoddau dynol ar gael er mwyn i'r ddogfen hon fod yn effeithiol. Dim ond os bydd sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau yn y trydydd sector yn cael digon o gyllid a chyllid parhaus y gellir gwireddu hawl pobl anabl i fyw'n annibynnol.
- bod y fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd yn wan o ran eu hymrwymiadau tai, o gymharu â'r fframwaith blaenorol - gall hyn arwain at gamau am yn ôl o ran gwireddu'r hawl i dai digonol ac i fyw'n annibynnol yn y dyfodol.
- ceisiadau i gynnwys safonau Cartrefi Gydol Oes ar draws pob daliadaeth (dim ond i dai cymdeithasol a ariennir drwy grant Llywodraeth Cymru y maent yn berthnasol ar hyn o bryd) a phennu targed i sicrhau bod o leiaf 10% o'r holl dai a gaiff eu hadeiladu yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn - er bod ymrwymiad ar hyn o bryd i ddefnyddio'r Rhaglen Tai Arloesol i annog trafodaethau ar dai fforddiadwy, nid yw hyn yn sôn am dai hygyrch a thai y gellir eu haddasu - Byddem yn croesawu ymrwymiad sy'n nodi sut y gallai Llywodraeth Cymru ymdrin â darparu tai hygyrch, er enghraifft ymrwymiad i ystyried sut i gynyddu'r cyflenwad tai hygyrch i'r eithaf fel rhan o'r Adolygiad presennol o'r Cyflenwad Tai Fforddiadwy.
- y diffyg cysylltiad rhwng egwyddorion presennol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwella cyfleoedd i bobl anabl fyw'n annibynnol a'r realiti sy'n gysylltiedig â phobl anabl yn cael gafael ar wasanaethau yng Nghymru. Cais i'r ddogfen newydd ymdrin â'r bylchau hyn wrth ddarparu gwasanaethau a gwella bywydau pobl anabl yng Nghymru.
- yr angen i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gynnydd a'i gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- y ffaith nad yw'r cynllun gweithredu yn cyfeirio at ofalwyr di-dâl/sy'n aelodau o'r teulu nac yn darparu ar eu cyfer - cais i Lywodraeth Cymru ystyried mynediad at seibiannau,

cymorth ariannol a galluogi gofalwyr i barhau yn y gweithle lle y byddant am wneud hynny er mwyn osgoi'r caledi ariannol y mae llawer o ofalwyr yn ei wynebu.
- cais i'r cynllun gweithredu gyfeirio at ganfyddiadau'r ymgynghoriad diweddar ar Unigrwydd ac Ynysigrwydd Cymdeithasol – Cymunedau Cysylltiedig.
- argymhelliad y dylai'r adran ar bolisïau a rhaglenni eraill gyfeirio at adnodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Tai ar gyfer Pobl Anabl: Pecyn Cymorth ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru
- Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gynnwys data ar dai hygyrch neu dai y gellir eu haddasu fel rhan o'i data ar stoc newydd a stoc bresennol.
- ymrwymiad i annog y defnydd o Gofrestri Tai Hygyrch a oedd yn y fframwaith blaenorol ond heb ei gynnwys yn y fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd – cais i ddatblygu safonau a/neu ganllawiau a fyddai'n diffinio cofrestri Tai Hygyrch a sut y dylent weithredu.

**Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu yn nogfen Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol Llywodraeth Cymru? Esboniwch y rhesymau dros eich ateb yn y blwch sylwadau eraill.**

Mae'r sylwadau ychwanegol a gafwyd mewn ymateb i gwestiwn 1 nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw thema benodol yn cynnwys cyfeiriadau at y canlynol:
- yr angen i wneud rhagor o waith i ddenu gweithwyr a phrentisiaid ychwanegol ag anableddau i weithio yn y sectorau gofal cymdeithasol, gofal plant ac iechyd meddwl, a chefnogi'r rhaglen Cymunedau am Waith.
- nad oes llawer o gyfeiriad at yr agenda Gwaith Teg yn y fframwaith newydd, a nodwyd y dylai hyn fod yn rhan sylfaenol o bob cam gweithredu yn y cynllun gweithredu newydd er mwyn cyflawni cydraddoldeb gwirioneddol.
- bod y cynllun gweithredu newydd yn dueddol o ddefnyddio gwasanaethau neu becynnau cymorth arbenigol i bontio bylchau, a chais i aralleirio hyn er mwyn adlewyrchu egwyddor y modelau cymdeithasol a/neu hawliau dynol.
- cais i Gam Gweithredu 13 (yn yr adran Ffyniannus a Diogel) ynghylch mynd i'r afael â thlodi a setiau data i ddefnyddio'r adroddiadau sy'n ofynnol o dan Ran 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar yr asesiadau o'r boblogaeth ac adroddiadau cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol.
- croesawyd y pwyslais yng Ngham Gweithredu 1 ar "wella sgiliau ymarferwyr prif ffrwd", yn hytrach na chreu gweithwyr proffesiynol, gwasanaethau neu sgiliau ar wahân, gan fod hyn yn fwy addas ar gyfer y model cymdeithasol o anabledd a'r model hawliau dynol o anabledd.
- yr angen i gynnwys ymdrechion i fynd i'r afael â throseddau casineb yn yr adran Ffyniannus a Diogel yn hytrach na'r adran Uchelgais a Dysgu.
- bod y camau gweithredu o dan Unedig a Chysylltiedig yn siomedig o ran eu cwmpas a'r ffaith y byddent ond yn arwain at welliannau cyfyngedig.
- sylw mai dim ond at welliannau cymharol fach y bydd y rhan fwyaf o'r camau gweithredu sy'n ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus yn arwain, ac nad oes unrhyw gydnabyddiaeth i'r cyfyngiadau cyfredol ar drafnidiaeth gyhoeddus yn gyffredinol.
- siom nad yw'r ymgynghoriad na'r cynllun gweithredu yn sôn am wella gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol neu wasanaethau tacsi, y mae'r ddau ohonynt yn fathau pwysig o drafnidiaeth i bobl anabl.

- bod angen i'r cynllun gweithredu gynnwys y gwaith y mae Trafnidiaeth Cymru yn ei wneud i wella'r ddarpariaeth gwasanaethau trafnidiaeth ymatebol ledled Cymru.
- bod y camau gweithredu yn y cynllun yn dibynnu ar ymdrechion gan sefydliadau i gydweithio ac ar sicrhau y cânt eu hariannu'n briodol.
- yr angen am fwy o bwyslais ar ymdrin â'r trawma sylweddol y mae pobl anabl yn ei brofi o ganlyniad i fesurau cyni a newidiadau i fudd-daliadau - nodwyd bod canfyddiadau Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar Dlodi Eithriadol a Hawliau Dynol yn berthnasol yn hyn o beth.
- croesawyd cysylltiadau â 'Ffyniant i Bawb'.
- argymhellion adroddiad 'A yw Cymru'n Decach? 2018' ac argymhelliad Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn ei adroddiad Sylwadau Terfynol, a sut y mae angen eu cynnwys yn y cynllun gweithredu.
- sut y bydd angen mwy o amser ar ymarferwyr i'w fuddsoddi yn y cynllun gweithredu newydd a sut y mae hyn yn debygol o arwain at gost uwch i wasanaethau.
- cais i ddyfynnu Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ochr yn ochr â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Bobl ag Anableddau a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel y prif ddarnau o ddeddfwriaeth i rymuso pobl anabl i fyw'n annibynnol.
- bod y fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd ar eu ffurfiau presennol yn canolbwyntio'n llwyr ar wasanaethau, ond bod fersiwn 2013 yn seiliedig ar y mudiad pobl anabl.
- bod y fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd i raddau yn cydnabod bod hawliau pobl anabl eisoes wedi'u sefydlu gan y gyfraith ac mai diffygion wrth ddehongli'r hawliau hynny'n briodol sy'n atal pobl anabl rhag gweithredu'r hawliau hynny.
- bod Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar awdurdod, ac nad yw'r drefn o gyfathrebu â chleientiaid unigol drwy'r system yn gwella.
- diffyg gwerthfawrogiad o ran pwysigrwydd BSL yn y fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd.
- pryderon ynghylch y defnydd o derminoleg pobl anabl yn y fframwaith newydd.
- bod llawer o syniadau a chynlluniau yn cael eu lledaenu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru a phryder na fydd o bosibl yn gallu rhoi pob un ohonynt ar waith.
- bod rhywfaint o'r geiriad a ddefnyddir yn y fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd yn broblematig, yn enwedig y pwyslais ar ffyniant a'r cyswllt uniongyrchol tybiedig â chyflogaeth â thâl neu gynhyrchiant cyflogaeth.

**Cwestiwn 2: Rydym eisiau gwneud yn siŵr fod sefydliadau a chymunedau eraill ledled Cymru yn gweithredu i gefnogi'r cysyniad o'r Hawl i Fyw'n Annibynnol. Beth yw'r ffordd orau o weithio gydag eraill i gyflawni hyn?**

Mae'r sylwadau ychwanegol a gafwyd mewn ymateb i gwestiwn 2 nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw thema benodol yn cynnwys cyfeiriadau at y canlynol:
- bod dyletswydd ar y sector statudol i gyflogi pobl anabl ac y dylid cyflwyno cais i ddarparwyr gwasanaethau wneud hynny.
- bod dyletswyddau yn cael eu rhoi ar gyrff cyhoeddus, fel Byrddau Iechyd, yn debyg i'r rheini sydd eisoes wedi'u cynnwys mewn ymarfer gwaith cymdeithasol o ganlyniad i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 (Adran 6 ac Adran 5) - yn enwedig o ran hybu annibyniaeth.
- Llywodraeth Cymru yn monitro a defnyddio arfer gorau o Ddeddf Canada Hygyrch.

- yr angen i Lywodraeth Cymru annog busnesau yng Nghymru i gwblhau'r fframwaith a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth y DU er mwyn helpu cyflogwyr i gyflwyno adroddiadau gwirfoddol ar anabledd, iechyd meddwl a lles yn y gweithle.
- cais i ddefnyddio sefydliadau lleol arbenigol a chenedlaethol fel rhan o raglenni cymorth cyflogaeth er mwyn rhoi'r cymorth mwyaf cyfannol ac addas i gyfranogwyr.
- cefnogaeth o blaid y model cymdeithasol o anabledd.
- sut y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â phobl sydd wedi colli eu golwg a sefydliadau sy'n helpu pobl sydd wedi colli eu golwg. Mae angen i unrhyw ohebiaeth a gwybodaeth fod yn hygyrch i bobl sydd wedi colli eu golwg.
- yr angen i Lywodraeth Cymru nodi sefydliadau priodol ar lefel genedlaethol a'u helpu â threfniadau cyfeirio ac ariannu, a'r angen i adlewyrchu hyn ar lefel llywodraeth leol.
- y budd i gymunedau o'u hannog i ystyried yr anawsterau y mae unigolion yn eu hwynebu wrth ymdopi â namau o ran golwg, clyw, symudedd ac ati. – a bod yn barod i ymgysylltu â'r bobl hynny mewn ffordd ystyriol mewn sefyllfaoedd cymdeithasol a sefyllfaoedd eraill.
- ei bod yn ddefnyddiol egluro nad yr un bobl o reidrwydd yw'r bobl 'sy'n cynrychioli' pobl anabl a'r bobl anabl eu hunain ac y dylid felly nodi'n benodol pryd y cyfeirir at bobl anabl/sefydliadau a arweinir gan ddefnyddwyr a phryd y cyfeirir at sefydliadau'r trydydd sector yn gyffredinol.
- creu cyfleoedd i sefydliadau a chymunedau gyfarfod.
- bod gan Lywodraeth Cymru ran hanfodol i'w chwarae wrth arwain, o ran rhoi cyngor neu arweiniad, astudiaethau achos ac enghreifftiau o arfer da o ran yr hyn y mae'n ei wneud i helpu unigolion i fyw'n annibynnol ac i gynnwys y Model Cymdeithasol o Anabledd ym mhob rhan o'i gwaith.
- yr angen i Lywodraeth Cymru gynnwys camau gweithredu ar yr Hawl i Fyw'n Annibynnol yn ei Hamcanion Cydraddoldeb Strategol nesaf o dan Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, yn 2020.
- cais i sefydliadau ac asiantaethau fabwysiadu'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl Ifanc.
- bod angen i sefydliadau, asiantaethau a chymunedau helpu pobl anabl i wireddu eu hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl – gallai Llywodraeth Cymru annog hyn drwy gomisiynu hyfforddiant sy'n tynnu sylw at arfer gorau.
- sut y dylid darparu hyfforddiant i bobl anabl er mwyn iddynt ddeall eu hawliau a gallu manteisio'n llawn arnynt. Gellid datblygu rhwydwaith yn cynnwys pobl anabl, gweithwyr proffesiynol, grwpiau cymunedol a sefydliadau gyda chymorth Llywodraeth Cymru er mwyn rhannu arfer gorau.
- Llywodraeth Cymru i gyhoeddi adroddiadau blynyddol ar gynnydd wrth roi camau gweithredu ar waith.
- dylid ystyried sefydlu comisiynydd i bobl anabl.
- dylai'r cynllun gweithredu newydd fod yn gliriach ynghylch pa gamau gweithredu 'newydd' y disgwylir i sefydliadau eraill a chymunedau eu rhoi ar waith.
- sicrhau bod y cysylltiadau ag iechyd a thai yn gadarn.
- sicrhau nad oes loteri cod post ar waith gan fod gwahanol awdurdodau lleol yn rhoi blaenoriaeth i wahanol feysydd gwariant neu'n ymdrin â'r un mater mewn ffyrdd gwahanol, a hynny'n ddiangen.
- yr angen i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniadau clir cyn gweithredu.

- cais i Lywodraeth Cymru ymgymryd â chymaint o'r gwaith gweithredu â phosibl yn "fewnol" heb gynnwys trydydd partïon sydd ond yn gyfrifol am ran o'r broses.
- cychwyn trefniadau ar gyfer cyfranogiad mwy ffurfiol â Chymdeithas Fyddar Prydain er mwyn cyrraedd pobl fyddar sy'n defnyddio ieithoedd ar wahân i Gymraeg neu Saesneg.
- addysgu plant fod angen parchu unigolyn ag anabledd yn yr un ffordd ag unigolion heb anabledd.
- yr angen i sefydliadau a chymunedau ledled Cymru ddod at ei gilydd er mwyn gofyn am safbwyntiau personol cymaint o bobl â phosibl am yr hyn y dylai'r cynllun ei gynnwys a sut i gydweithio er mwyn sicrhau y caiff y cynllun ei roi ar waith.

**Cwestiwn 3: Gan gyfeirio at Bennod 2 yn benodol, a ydych chi'n ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau eraill ers i'r Fframwaith blaenorol gael ei gyhoeddi yn 2013 y dylid eu cynnwys yn eich barn chi?**

Mae'r sylwadau ychwanegol a gafwyd mewn ymateb i gwestiwn 3 nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw thema benodol yn cynnwys cyfeiriadau at y canlynol:

- y Pecyn Cymorth a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru a nodwyd fel adnodd da i gyfeirio ato wrth ystyried sut i ymgysylltu'n effeithiol â phreswylwyr anabl mewn perthynas â thai.
- y Cynllun Gweithredu Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.
- yr adolygiad seneddol o drefniadau CHC a'r her gysylltiedig a gwaith y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.
- Cynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru ar Ofal Llygaid.
- “Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol”.
- Strategaeth Gwella Bywydau Llywodraeth Cymru.
- rhoi'r Confensiwn Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (ICESCR) ar waith.
- asesiadau o'r effaith ar lesiant sy'n ystyried effaith cynnig ar 'lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Sir y Fflint, Cymru a'r byd'.
- y cysylltiadau sydd angen eu creu rhwng Prosiect Engage to Change a'r Cynllun Cyflogadwyedd.
- tystiolaeth a gyflwynwyd i Adolygiad Senedd Cymru o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn 2017, sy'n cynnwys tystiolaeth o ran sut y gall ymarfer corff wella iechyd corfforol ac iechyd meddwl, a sut y gellir dod o hyd i atebion drwy dechnoleg, hyfforddiant ac addasu cyfleusterau cyhoeddus (newid agweddol a sefydliadol).

**Cwestiwn 4: Ein nod yw i bawb gael y cyfle i gyflawni eu potensial yn llawn a byw bywyd iach, llewyrchus a boddhaus, gan eu galluogi i gymryd rhan lawn yn eu cymunedau a chyfrannu at lwyddiant economaidd Cymru yn y dyfodol. Gan ystyried y Cynllun Gweithredu, sut y gallem gyflawni hyn yn well ar gyfer pobl anabl?**

Mae'r sylwadau ychwanegol a gafwyd mewn ymateb i gwestiwn 4 nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw thema benodol yn cynnwys cyfeiriadau at y canlynol:

- cysylltu rhywfaint o'r gwaith â mesurau Haen Un er mwyn helpu sefydliadau i ailflaenoriaethu.
- pwysigrwydd gwasanaethau therapi galwedigaethol hygyrch, a all amrywio o gyfeirio pobl i'r adnoddau cymunedol, y gwasanaethau a'r dechnoleg briodol i weithio gyda

phreswylwyr ag anghenion gofal cymhleth ac anghenion gofal diwedd oes mewn cartrefi gofal.

- helpu cymunedau i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros roi cymorth gofal cymdeithasol - yn ogystal â gwella gwydnwch a gallu cymunedau, bydd hyn hefyd yn darparu gweithgareddau a gwerth pwysig i bobl sydd ar yr ymylon, neu sy'n teimlo eu bod felly, ac yn cynnig gwell cyfleoedd i integreiddio, mwy o fuddiannau o ran iechyd corfforol ac iechyd meddwl a gwell hunangysyniad (hunanymwybyddiaeth, hunanhyder, gwydnwch).
- bod angen i'r cynllun gweithredu newydd sôn mwy am bwysigrwydd gwerth cymdeithasol, menter gymdeithasol a phrosiectau cydweithredol wrth gefnogi llawer o'r gwaith. Ceir cyfeiriadau cadarnhaol atynt yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac mewn adroddiad diweddar a gyhoeddwyd gan Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru yn ystyried potensial rhai o'r mentrau.
- yr angen i ddeall bod llawer o bobl yn datblygu anableddau wrth heneiddio.
- yr angen i benseiri roi ystyriaeth briodol i fynediad i bobl anabl.
- yr angen i greu sŵn ac i gyflwyno cyhoeddusrwydd amlsianel yn canolbwyntio ar y camau gweithredu ymarferol y mae Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol ac ati yn eu cymryd a'r pethau ymarferol y gall pawb eu gwneud i ymgysylltu â'r bobl hynny ag anabledd a'u cynnwys.
- y byddai cynnwys manylion mwy cynhwysfawr am gamau gweithredu sy'n ymwneud â phobl â nodweddion gwarchodedig yn atgyfnerthu'r cynllun gweithredu ymhellach.
- cais i gyhoeddi manylion cyswllt pob bwrdd partneriaeth rhanbarthol mewn un man, gan gynnwys ei is-strwythurau, ynghyd â chais i sicrhau y caiff mwy o bobl anabl eu cynrychioli ar y byrddau hyn.
- y gwahaniaeth rhwng ardaloedd gwledig a threfol o ran cael y cymorth, y gwasanaethau a'r drafnidiaeth gyhoeddus sydd eu hangen er mwyn byw'n annibynnol.
- y ffaith bod y strategaeth gomisiynu newydd yn Abertawe, sy'n cyfyngu ar nifer y rhanbarthau y gall unrhyw ddarparwr gofal unigol ddarparu gwasanaethau o'u mewn, yn debygol o olygu na fydd pobl yn gallu dewis pa wasanaethau i'w defnyddio. Er bod rhai wedi cael cynnig taliadau uniongyrchol er mwyn helpu i oresgyn y broblem drwy dalu darparwr o'u dewis, mae'n bosibl na fydd llawer o bobl ag anableddau dysgu yn Abertawe yn gallu cael gafael ar yr opsiwn hwn.
- pwysigrwydd sicrhau bod Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn annog gwasanaethau i gynyddu ymdrechion i fyw'n annibynnol a bod gwasanaethau gofal yn atebol am eu llwyddiant wrth wella sgiliau byw'n annibynnol y rheini y maent yn eu cynrychioli.
- adolygu'r trefniadau ar gyfer Credyd Cynhwysol.
- ystyried sut y gall y gwahanol 'basbortau' a 'chardiau' gydweithio i'w gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio trafnidiaeth.
- sicrhau bod lleoliadau ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol a hamdden yn gwbl hygyrch drwy lunio deddfwriaeth gaethach a monitro cydymffurfiaeth.
- creu cymhellion i sefydliadau cyhoeddus a phreifat ddarparu cyfleusterau 'Changing Places'.
- adnewyddu ac atgyfnerthu Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy.
- sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Bobl Anabl yng nghyfraith a pholisi Cymru.
- darparu hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at bobl anabl.

- sut mae'r seilwaith trafnidiaeth (a dealltwriaeth staff o sut i helpu pobl ag anableddau) yn aml yn allweddol o ran sicrhau y gall pobl gymryd rhan yn eu cymunedau.
- nad yw'r cynllun gweithredu yn ymdrin â'r arafwch wrth gael gafael ar wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS), lle nad oes unrhyw gyllid ar gael ar gyfer y triniaethau mwyaf effeithiol megis therapi chwarae, a'r diffyg trefniadau asesu cynnar ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), lle y bydd rhieni yn ariannu'r asesiad eu hunain yn breifat lle na cheir lefel briodol o gymorth, er gwaethaf blynyddoedd o apelio.
- adroddiad Bercow sy'n nodi ei bod yn holl bwysig cael diagnosis cynnar o anawsterau iaith mewn plant ifanc a chael cymorth priodol.
- gallu trefnu apwyntiadau meddyg teulu mwy hyblyg er mwyn ystyried trafnidiaeth gyhoeddus, neu ffordd haws o drefnu apwyntiad dros y ffôn.
- bod yr adran ar ffyniant yn y fersiwn hawdd ei darllen mor annelwig fel nad oedd unrhyw ystyr iddi.
- yr angen am well cysylltiadau ag addysg i oedolion - mae angen pennu categori cyllid cyfan ar gyfer addysg i oedolion sy'n anelu'n benodol at wella iechyd er mwyn i staff gofal cymdeithasol/gwasanaethau cymdeithasol allu nodi'r rheini sydd mewn perygl a'u cyfeirio at addysg ac y caiff gwybodaeth am anghenion yr unigolion a gaiff eu cyfeirio ei rhannu â'r partneriaid addysg er mwyn sicrhau bod y cyrsiau a ddarperir yn cyflawni eu diben yn effeithlon ac yn effeithiol.
- yr angen am fwy o fynediad i bobl anabl.
- mae sut i allu manteisio ar gyfleoedd hunanreoledig i wneud ymarfer corff yn rhan allweddol o sicrhau y gall pobl anabl gymryd rhan lawn yn eu cymuned a chyflawni eu llawn botensial.
- bod datrysiadau trafnidiaeth fforddiadwy (fel VEST) a chynwysoldeb mewn cyfleusterau ffitrwydd cymunedol fel canolfannau hamdden yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall dinasyddion anabl fynd allan a chymryd rhan yn eu cymuned a rheoli eu lles corfforol a'u lles meddwl eu hunain.
- yr angen am atebolrwydd ar lefel llywodraeth leol er mwyn rhoi'r cynllun gweithredu ar waith.
- yr angen i helpu cymunedau gwledig.
- cyfleoedd i roi rhaglen hyfforddi genedlaethol ar waith, wedi'i chydgynhyrchu, ei dylunio a'i chyflwyno gan arbenigwyr â phrofiad go iawn o fyw a gweithio ag anabledd neu ag awtistiaeth gweithrediad uchel ac mewn rhai achosion, gorbryder cymdeithasol, a sut y byddai hyn yn helpu i feithrin dealltwriaeth o'r heriau a'r anghenion unigryw, a'r hyn y gall oedolion ar y sbectrwm awtistig ei gyfrannu.
- nodwyd y byddai'n well defnyddio'r term 'sefydlogrwydd economaidd' na 'llwyddiant' a 'ffynnu' yn hytrach na 'llewyrchu'.
- yr angen am fwy o gymorth mewn tai er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch.
- yr angen am gydgysylltydd cymunedol a allai annog pobl anabl i gymryd mwy o ran yn eu cymuned, yn ogystal â throsglwyddo gwybodaeth.
- rhoi cyfleoedd i bobl anabl gael gafael ar fwyd(ydd) iach a maethlon er mwyn iddynt gael deiet mor gytbwys â phosibl, a sicrhau y gall pobl anabl ddefnyddio cyfleusterau hamdden a chymryd rhan mewn gweithdai er mwyn iddynt fod yn fwy tebygol o fyw'r bywyd gorau posibl.

**Cwestiwn 5: Dylai pawb fod â'r sgiliau a'r addysg sydd eu hangen arnynt i gael swydd a'r cyfle i ddatblygu sgiliau newydd drwy gydol eu bywyd gwaith. Gan ystyried y Cynllun Gweithredu, sut gallwn gyflawni hyn yn well ar gyfer pobl anabl?**

Mae'r sylwadau ychwanegol a gafwyd mewn ymateb i gwestiwn 5 nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw thema benodol yn cynnwys cyfeiriadau at y canlynol:

- yr angen i bob swydd therapi galwedigaethol gynnwys cyflogaeth fel cyfrifoldeb allweddol o fewn eu manylebau swydd.

  *"Dylid cyflogi therapyddion galwedigaethol i arwain gwasanaethau galwedigaethol. Dylid rhoi cytundebau ar waith i gefnogi trefniadau gweithio uniongyrchol rhwng therapyddion galwedigaethol a'r Ganolfan Byd Gwaith leol, yn arbennig â Chynghorwyr Cyflogi Pobl Anabl. Bydd cyflogi therapyddion galwedigaethol i helpu pobl ifanc â'u cyfleoedd dysgu yn sicrhau bod darparwyr mewn gwell sefyllfa i gyflawni eu dyletswyddau yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), gan gynnwys gwneud addasiadau rhesymol. Os ymdrinnir yn well â phroblemau iechyd meddwl pobl ifanc yn ystod y cam hwn, maent yn fwy tebygol o gwblhau eu cyrsiau, prentisiaethau ac interniaethau. Mae hyn o fudd i'r darparwr a'r myfyriwr".*

- nad yw'r fframwaith newydd yn cyfeirio at ymgynghoriad Llywodraeth Cymru i ddiweddaru'r Canllawiau Gwrthfwlio Parchu Eraill na'i bwriad i sicrhau bod addysg ar gydberthnasau iach yn rhan orfodol o'r cwricwlwm newydd i ysgolion. Byddai cynnwys y rhain yn y cynllun gweithredu arfaethedig ar gyfer anabledd yn helpu i greu synergedd rhwng camau gweithredu ar draws y llywodraeth.
- Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru, a ddaeth i rym ym mis Rhagfyr 2018, a'r angen am ymrwymiadau yn y cynllun gweithredu i ategu unrhyw ddiwygiadau yn y dyfodol i Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd er mwyn osgoi unrhyw achosion posibl o ddyblygu gwasanaethau gwybodaeth.
- adran 'Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan yn y gymdeithas' Adroddiadau Blynyddol Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, lle roedd y ffocws gan fwyaf ar sut i gefnogi pobl i gysylltu â'u cymunedau. Roedd y mwyafrif helaeth o'r adroddiadau yn cyfeirio at gymorth cymunedol drwy grwpiau neu gyfleoedd dydd sy'n anelu at wella llesiant a chreu cysylltiadau. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol.
  - prosiectau a chyfleoedd seiliedig ar waith, fel garddwriaeth
  - sgiliau a diddordebau arbennig, fel ffotograffiaeth, gwau neu brosiectau celf
  - cyfleoedd dydd i bobl ag anableddau dysgu, pobl hŷn a phobl â phroblemau iechyd meddwl
  - cyfeillio
- ystyried cynnwys rhesymeg sylfaenol dros y camau gweithredu yn y cynllun gweithredu newydd:

  *"Dylid ystyried llunio rhesymeg sylfaenol dros y camau gweithredu hyn. Er y dylid canmol y camau gweithredu ynddynt eu hunain, dylent fod yn gysylltiedig â chyfres benodol o ganlyniadau neu gyfres o nodau dilynol. Dylid cyflwyno rhesymeg hefyd yn nodi pam y rhoddwyd blaenoriaeth i'r camau gweithredu hyn, y canlyniadau disgwyliedig, a pha gamau dilynol y gall fod eu hangen, yn ogystal â dadansoddiad o unrhyw rwystrau o ran cyflawni'r canlyniadau neu'r nodau hyn h.y. cyni, y ffaith nad oes gan Lywodraeth Cymru reolaeth dros faterion penodol fel y system les"*
- rôl cyflogwyr yn y sector cyhoeddus:

*"Nid oes unrhyw gyfeiriad yn y Cynllun Gweithredu ar ôl cyflogwyr yn y sector cyhoeddus. Cyflogwyr yn y sector cyhoeddus yw'r cyflogwyr mwyaf yng Nghymru, ac fel cyflogwyr cyflog byw, maent yn aml yn gallu cynnig mwy o sicrwydd o ran swyddi a gwell telerau ac amodau cyflogaeth. Mae'n bwysig bod y sector cyhoeddus (awdurdodau iechyd ac awdurdodau lleol yn arbennig) yn cymryd rhan weithredol mewn rhaglenni i greu cyfleoedd swyddi i bobl anabl".*

- sut mae colli golwg yn effeithio ar y gallu i fanteisio ar addysg:

  *"Mae colli eich golwg yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd person, gan gynnwys ei allu i fanteisio ar addysg. Gan fod 80 y cant o'n dysgu yn dod drwy ein golwg, mae'n hanfodol y caiff anghenion myfyrwyr sydd wedi colli eu golwg eu cydnabod a bod cymorth priodol ar gael iddynt. Mae effaith bosibl hyd yn oed nam cymharol fach ar y golwg yn sylweddol. I blant a phobl ifanc â nam ar eu golwg, gwneir hyn drwy ddarparu arbenigwr Sefydlu, ac athro sy'n gymwys ym maes namau ar y golwg, sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig i alluogi plant a phobl ifanc i fanteisio ar y byd o'u hamgylch a dysgu amdano ac y mae ganddynt brofiad o gefnogi eu datblygiad cyfannol"*
- sut y dylai cyflogwyr fod yn fwy rhagweithiol wrth recriwtio pobl ddall a phobl rhannol ddall.
- yr angen i Lywodraeth Cymru barhau i gefnogi Grant Cyflogadwyedd Cymunedau am Waith yn ogystal â chefnogi ymdrechion i recriwtio prentisiaid anabl
- sut y dylid ariannu cyfleoedd dysgu cymunedol.
- mai'r prif ffactorau sy'n atal pobl ag anableddau dysgu rhag dod o hyd i waith yw "agweddau negyddol rhai cyflogwyr a chydweithwyr".
- bod gan fusnesau ran allweddol i'w chwarae wrth herio stereoteipiau negyddol o anabledd drwy roi cyfleoedd go iawn i bobl ag anableddau dysgu wneud swyddi cyflogedig ystyrlon.
- pwysigrwydd sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi prosiect Engage to Change, a'r angen i fuddsoddi ymhellach er mwyn bodloni'r galw parhaus am gyfleoedd cyflogaeth â chymorth i bobl ag anableddau dysgu sy'n awyddus i ddod o hyd i swydd a chadw'r swydd honno.
- sut mae hunaneiriolaeth yn chwarae rhan hanfodol a sut y dylid addysgu'r sgiliau hyn i blant cyn gynted â phosibl, a'u datblygu drwy gydol bywyd fel oedolyn.
- pwysigrwydd sicrhau bod pobl sy'n gweithio ym maes anableddau dysgu wedi'u haddysgu i ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau wrth ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol, gan gynnwys newid agweddau.
- yr angen i Lywodraeth Cymru fonitro a gwerthuso rhaglenni wedi'u hanelu at ymdrin â bylchau cyrhaeddiad.
- p'un a yw Llywodraeth Cymru wedi cyflogi unrhyw un ag anabledd dysgu
- yr angen i Lywodraeth Cymru weithio gyda chyflogwyr er mwyn:
- - rhoi mwy o ffocws ar feithrin a defnyddio talentau pobl anabl
- - ystyried ble y maent hwy/cymdeithas yn creu rhwystrau sy'n eu hatal rhag defnyddio gweithlu talentog.
- y defnydd o dechnoleg (rhyngrwyd) fel ffordd o wneud bywyd yn haws i bobl ag anableddau gael gafael ar yr addysg sydd ei hangen arnynt.
- yr angen i bobl â gwahanol anableddau gymryd rhan yn ystod pob cam, gan nad yw'r ffaith bod unigolyn yn anabl yn rhoi persbectif go iawn i'r unigolyn hwnnw ar anableddau eraill

- y diffyg pwyslais ar Erthyglau 21 a 30 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl.
- y ffaith bod gallu cael gafael ar wybodaeth yn holl bwysig i ddefnyddwyr BSL Byddar a methiant parhaus cymaint o ddarparwyr gwasanaethau ledled Cymru gyfan i ymdrin â hyn, gan greu sefyllfa lle mae defnyddwyr BSL byddar mewn gwirionedd yn cael eu hynysu o'u cymunedau lleol.
- diffyg mannau y gall pobl anabl fynd iddynt i ddatblygu sgiliau ymarferol mewn ardaloedd gwledig.
- bod geiriad rhannau o'r cynllun gweithredu yn gyfarwyddol ac yn negyddol, ac nad yw'n ystyried profiad o addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y gorffennol.

**Cwestiwn 6: Rydym am i bawb fyw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion ac yn cefnogi bywyd iach, llwyddiannus a llewyrchus. Gan ystyried y Cynllun Gweithredu, sut gallwn gyflawni hyn yn well ar gyfer pobl anabl?**

Mae'r sylwadau ychwanegol a gafwyd mewn ymateb i gwestiwn 6 nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw thema benodol yn cynnwys cyfeiriadau at y canlynol:

- newid yr ymadrodd 'yn eu cartrefi eu hunain' gan y gellid dehongli'r polisi hwn fel polisi sy'n hyrwyddo gofal sefydliadol.
- gall therapyddion galwedigaethol weithredu fel catalyddion ar gyfer ymdrin â phroblemau o ran tai, o ystyried eu profiad ar draws sectorau a'u harbenigedd ym maes iechyd corfforol ac iechyd meddwl.
- Adroddiadau Blynyddol y Cyfarwyddwyr a ganolbwyntiodd ar faterion fel cartrefi addas ac atal digartrefedd.
- bod y cam gweithredu sy'n cyfeirio at ddarparu cymorth sy'n ymwneud â thai yn rhy amwys.
- cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus ar ystadau tai newydd, o ystyried pwysigrwydd sicrhau y gall pobl anabl gyrraedd llwybrau bysiau yn hawdd er mwyn teithio o'u cartref a dychwelyd yno.
- y pecyn cymorth gan Access Design Solutions, o'r enw "Tai ar gyfer pobl anabl: Pecyn cymorth ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru", sydd wedi'i anelu at gynghorwyr awdurdodau lleol yng Nghymru, yn arbennig y rheini sy'n ymwneud â thai a chynllunio.
- cynnwys cam gweithredu sy'n nodi uchelgais a chynllun Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â chartrefi anfoddhaol.
- cynnwys cam gweithredu sy'n nodi uchelgais a chynllun Llywodraeth Cymru i ymdrin ag achosion o wahaniaethu gan landlordiaid yn y sector preifat yn erbyn ymgeiswyr am denantiaethau sy'n cael budd-daliadau.
- yr angen am safonau dylunio penodedig ar gyfer cartrefi gofal a chartrefi preswyl ac i ystyried cynllun ymarferol cartrefi o'r fath.
- pwysigrwydd grwpiau hunaneiriolaeth, fel grwpiau People First rhanbarthol, wrth feithrin hyder a datblygu sgiliau annibyniaeth i lawer o bobl ag anabledd dysgu, a sut mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol barhau i ariannu'r grwpiau lleol hyn.
- nad yw'r cynllun gweithredu yn ymdrin â llawer o'r materion allweddol y tynnodd ymchwiliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i dai a phobl anabl sylw atynt, gan arwain at gyfeirio at y fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd fel cam yn ôl o'r Fframwaith gwreiddiol y 2013.

- yr angen i Lywodraeth Cymru gynnwys yr argymhellion a wnaed yn adroddiad 'Tai a phobl anabl: argyfwng cudd Cymru' yn y cynllun gweithredu.
- cymorth cynnar ar gyfer sgiliau rhianta, fel grwpiau cymorth cynhwysol i rieni.
- sut y bydd Llywodraeth Cymru yn dylanwadu ar awdurdodau lleol a phwy fydd yn arwain y broses.
- bod sgiliau sylfaenol a sgiliau byw'n annibynnol yn hanfodol.
- yr angen am ymrwymiad personol i bobl go iawn.
- y gydberthynas bersonol y mae gofalwyr yn ei meithrin gyda phobl anabl sy'n golygu os bydd gofalwr yn gadael y gall gael effaith sylweddol ar y person anabl.
- yr angen i hyfforddi staff gwasanaethau cymdeithasol yn well o ran sut y dylid gwneud penderfyniadau.
- y ffaith bod hyd yn oed llai o gyfleoedd i ddod o hyd i lety a chartref sy'n diwallu anghenion mewn ardaloedd gwledig fel Sir Benfro, a chais i Lywodraeth Cymru greu mandad yn erbyn bod yn berchen ar ail gartref mewn ardaloedd gwledig.

**Cwestiwn 7: Rydym am i sector gofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd Cymru gefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol. Gan ystyried y Cynllun Gweithredu, sut gallwn gyflawni hyn yn well ar gyfer pobl anabl?**

Mae'r sylwadau ychwanegol a gafwyd mewn ymateb i gwestiwn 7 nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw thema benodol yn cynnwys cyfeiriadau at y canlynol:

- dylid rhoi blaenoriaeth i lesiant yr unigolyn, a dylai unrhyw benderfyniadau a wneir fod yn dryloyw ac yn agored i'w herio, gan sicrhau bod cymorth ar gael i'r unigolyn herio o dan rai amgylchiadau.
- yr angen i bob gwasanaeth cyhoeddus gydbwyso trefniadau i amddiffyn y cyhoedd â'r angen i hyrwyddo llais, dewis a rheolaeth, gan fod cymryd risgiau cadarnhaol yn agwedd allweddol ar dwf a datblygiad personol, yn ogystal â hawliau fel bodau dynol.
- diffyg manylion o ran sut y caiff y cynllun gweithredu ei ddeddfu.
- dylid dylunio gwasanaethau er mwyn galluogi therapyddion galwedigaethol i ehangu eu dull gweithredu i ddiwallu anghenion amrywiol yn eu cymunedau lleol, sy'n golygu:
- darparu digon o adnoddau i wasanaethau therapi galwedigaethol er mwyn iddynt allu derbyn atgyfeiriadau o bob rhan o gymdeithas, gan gynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd.
- darparu pwyntiau mynediad i dimau cymunedol gael cyngor therapi galwedigaethol, fel darparwyr gwasanaethau gofal ac ailalluogi yn y cartref.
- bod angen esboniad mewn perthynas â'r defnydd o'r termau 'byw'n annibynnol', 'byw mewn ffordd annibynnol' ac 'annibyniaeth'.
- y 22 o adroddiadau blynyddol gan Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (sy'n ofynnol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) sy'n ymdrin â llawer o'r meysydd sy'n rhan o'r fframwaith.
- hyrwyddo llesiant, fel y'i diffinnir o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn cael ei hailadrodd ar gyfer deddfwriaeth sy'n llywodraethu cyrff cyhoeddus eraill, yn enwedig Byrddau Iechyd.
- y cam gweithredu i fonitro'r defnydd o Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy, a'r cymorth i roi'r Safonau ar waith yn effeithiol, yn ogystal â chymorth o ran yr angen am gyfres o dargedau cenedlaethol sy'n debyg i'r rheini ar gyfer Safonau'r Gymraeg a fyddai'n nodi blaenoriaethau allweddol ac yn golygu y gellir craffu'n well ar gynnydd ac effaith.

- nifer y bobl ag anabledd dysgu yng Nghymru sy'n cael archwiliad iechyd blynyddol:
  *"Nododd gwaith ymchwil diweddar y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 'A yw Cymru'n Decach' nad yw'r rhan fwyaf o bobl ag anabledd dysgu yng Nghymru yn cael archwiliad iechyd blynyddol. Ariannodd Llywodraeth Cymru raglen i fonitro nifer y bobl a oedd yn cael archwiliadau iechyd rhwng 2007 a 2011 ac fe'i cynhaliwyd gan y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (NPHS) ar y pryd. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ddata monitro cyfredol neu ddiweddar i nodi nifer yr archwiliadau iechyd a gynhelir na'u hansawdd. Nodwyd amrywiad sylweddol o ran nifer yr archwiliadau iechyd ledled Cymru yn ystod oes y prosiect monitro. Byddem yn awgrymu y byddai'n fuddiol ailystyried y prosiect monitro a llunio gwaith ymchwil cyfredol er mwyn deall lefel yr archwiliadau iechyd a pham nad yw pobl ag anableddau dysgu yn manteisio ar eu harchwiliadau iechyd, gyda'r bwriad o ymdrin â'r materion".*
- dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y gellir cael gafael ar wasanaethau adsefydlu a sefydlu yn hawdd er mwyn helpu pobl i fyw bywydau annibynnol.
- pryderon bod llawer o bobl ddall a rhannol ddall yn methu â chael y cymorth adsefydlu golwg sydd ei angen arnynt i ddatblygu a chynnal annibyniaeth.
- yr angen i Lywodraeth Cymru lunio cynlluniau ar gyfer datblygu'r gweithlu yn y dyfodol ac annog pobl i weithio fel Swyddog Adsefydlu ar gyfer Unigolion â Nam ar eu Golwg (ROVI). Yn y pen draw, mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau y gall pobl gael gafael ar wasanaethau adsefydlu mewn modd amserol ni waeth ble y maent yn byw, i'w galluogi i fyw bywydau mor gyflawn ac mor annibynnol â phosibl.
- argymhelliad y dylai Cam Gweithredu 10 o'r Cynllun Gofal Llygaid diwygiedig ddisodli Cam Gweithredu 4 Iach ac Egnïol yn y cynllun gweithredu hwn.
- cysylltu'r cynllun gweithredu hwn â'r strategaeth drawslywodraeth 10 mlynedd Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, gan gyfeirio'n benodol at Bennod 2.
- ei gwneud yn ofynnol, fel cam gweithredu yn y Cynllun hwn, i goladu a chyhoeddi data am ddefnyddwyr gwasanaethau mewn gwasanaethau eilaidd ledled Cymru a nododd sgôr gadarnhaol (cytuno'n gryf neu gytuno'n rhannol) wrth ystyried p'un a oeddent yn fodlon / yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn eu cynllun gofal a thriniaeth yn yr un modd ar draws gwahanol grwpiau, gan gynnwys ethnigrwydd ac anabledd, fel y nodwyd yn wreiddiol yng ngham gweithredu 3.1 Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2016-19.
- lansio arolwg manylach na'r hyn sy'n bosibl drwy'r ymgynghoriad hwn (am faterion y mae pobl anabl yn eu profi) a defnyddio data'r arolwg fel adnodd ar gyfer eu datrys, mewn partneriaeth â phobl anabl.
- dileu'r rhwystrau y mae pobl ddigartref yn eu hwynebu wrth gael gafael ar wasanaethau iechyd gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol.
- sicrhau bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn realiti ymarferol, gan gynnwys dyfynnu'r ddeddf fel deddfwriaeth sylfaenol yn rhan Fframwaith y ddogfen.
- Llywodraeth Cymru yn cynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl o fewn strategaethau a threfniadau cyflwyno ar gyfer gofal iechyd.
- Llywodraeth Cymru yn cynnal gwerthusiad llawn o'r cynnydd a wnaed o dan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a'r strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, gan gynnwys i ba raddau y mae gwasanaethau yn diwallu anghenion pobl sy'n rhannu gwahanol nodweddion gwarchodedig.

- ehangu "Safonau Cymru Gyfan ar gyfer darparu gwybodaeth i bobl â nam ar eu synhwyrau a chyfathrebu â hwy mewn lleoliadau gofal eilaidd" i gynnwys unrhyw un ag anghenion cyfathrebu a monitro'r broses o'u rhoi ar waith.
- eitem 12 o dan 'Iach ac Egnïol', a ph'un a fydd cyllid Chwaraeon Anabledd Cymru hefyd yn galluogi athletwyr ag anableddau dysgu i gymryd rhan yn y Gemau Olympaidd Arbennig?
- y ffaith nad oes unrhyw sôn am ddeintyddiaeth gofal arbennig.
- bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi wyth agwedd ar lesiant a sut y mae'n bwysig ymdrin â'r rhain gyda'i gilydd yn hytrach nag ar wahân.
- y ffaith mai prif ffocws Gweithredu ar Anabledd yw Erthygl 19 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl – yr hawl i fyw'n annibynnol a'r ffaith mai dim ond sylw cyfyngedig a roddir i'r erthyglau eraill:

  *"Mae prif ffocws Gweithredu ar Anabledd ar Erthygl 19 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl – yr hawl i fyw'n annibynnol. Dim ond sylw cyfyngedig a roddir i'r erthyglau eraill. Felly, nid yw'r dull gweithredu a geir yn Gweithredu ar Anabledd yn darparu disgrifiad cyflawn o'r ffordd y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati i gyflawni ei rhwymedigaethau i bobl anabl er bod Gweithredu ar Anabledd yn honni ei fod yn cynrychioli Fframwaith newydd sy'n nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan y Confensiwn"*
- mae angen gwneud mwy o ran 'cymorth ataliol' y gellid ei gynnig cyn i unigolion gyrraedd pwynt argyfwng, ac mae angen mewnbwn gan y sector gofal cymdeithasol/gwasanaethau iechyd yn hyn o beth.
- yr angen i ddychwelyd i system lle y caiff gofal ei reoli gan y gwasanaethau cymdeithasol, gan fod cymhelliant iddynt wella annibyniaeth.

  *"Dylid dychwelyd i system lle y caiff gofal ei reoli gan y gwasanaethau cymdeithasol gan fod cymhelliant iddynt wella annibyniaeth. Mae'r system bresennol lle y caiff pecynnau gofal eu darparu drwy gontractau allanol gan asiantaethau preifat yn cael effaith negyddol ar annibyniaeth. Nid oes unrhyw gymhelliant iddynt gynyddu annibyniaeth gan y byddent yn colli'r contract drwy wneud hynny."*
- yr angen i ymweliadau gofal ailalluogi fod yn ddigon hir i ofalwyr allu annog annibyniaeth. Os bydd ymweliadau yn rhy fyr, nid oes gan ofalwyr unrhyw ddewis ond darparu gofal llawn yn hytrach na chaniatáu i'r person wneud hynny ei hun.
- gofyn am farn unigolion anabl yn rheolaidd, rhoi cyfleoedd iddynt weld eu cynllun gofal hirdymor a gaiff ei ailasesu yn seiliedig ar anghenion bob blwyddyn.
- atebolrwydd i'r sector gofal cymdeithasol ac iechyd weithio o ddifrif gan ystyried beth sy'n bwysig i bobl anabl yn hytrach na beth y gallwn ei fforddio fel gwasanaeth.
- mae angen mwy mewn perthynas â cham gweithredu 12 yn yr adran 'Iach ac Egnïol':

  *"(Rydym) o'r farn bod angen mwy yn y cynllun gweithredu mewn perthynas â cham gweithredu 12 yn yr adran 'Iach ac Egnïol'. Mae Cam Gweithredu 12 yn nodi'r gwaith i'w gwblhau gan Chwaraeon Anabledd Cymru er mwyn galluogi pobl ag anableddau i gymryd rhan mewn chwaraeon. (Rydym) yn cefnogi hyn ond yn awgrymu y dylid gwneud mwy i wella mynediad i bobl anabl i gyfleusterau hamdden er mwyn iddynt allu cymryd rhan mewn ymarfer corff rheolaidd. Ceir enghreifftiau ledled Cymru lle mae canolfannau hamdden wedi gwella mynediad yn benodol i bobl â chyflyrau hirdymor fel sglerosis ymledol a strôc ond mae angen gwneud hynny'n ehangach ac mae angen i feysydd chwaraeon, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol gydweithio. (Byddem) yn hoffi gweld hyn yn cael ei gynnwys fel cam gweithredu ychwanegol."*

- yr angen i gynnal asesiad o leiaf unwaith y flwyddyn ar gyfer anghenion iechyd ac anghenion cymdeithasol.

**Cwestiwn 8: Gan ystyried y Cynllun Gweithredu, beth arall allwn ni ei wneud i wella hygyrchedd lleoliadau a thrafnidiaeth gyhoeddus i bobl anabl?**

Mae'r sylwadau ychwanegol a gafwyd mewn ymateb i gwestiwn 8 nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw thema benodol yn cynnwys cyfeiriadau at y canlynol:

- bod angen i'r fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd ystyried lle y gellid cynnwys Rhan M o Reoliadau Adeiladu 2010
- cynllun y waled oren.
- p'un a allai trafnidiaeth gyhoeddus weithredu fel cyswllt i fannau diogel.
- dim ond caniatáu i drenau â thoiledau sy'n gweithio weithredu.
- staff Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â pholisi trafnidiaeth a gwaith comisiynu trafnidiaeth i roi cynnig ar ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus gyda'r sefydliadau a all eu helpu i efelychu profiad gwahanol grwpiau anabledd wrth ddefnyddio'r gwasanaethau hyn, er mwyn meithrin dealltwriaeth o'r problemau a hwyluso trefniadau ar gyfer gweithio gyda phobl anabl er mwyn dod o hyd i atebion effeithiol.
- Llywodraeth Cymru i barhau i weithio gyda'r Adran Drafnidiaeth er mwyn rhannu arfer gorau a dysgu oddi wrth ei gilydd:

  *"Rydym yn cefnogi'r rhestr o gamau gweithredu mewn perthynas â pholisi trafnidiaeth yn y Cynllun Gweithredu. Byddem yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithio gyda'r Adran Drafnidiaeth er mwyn rhannu arfer gorau a dysgu oddi wrth ei gilydd. Yn arbennig, mae sawl agwedd cadarnhaol yng Nghynllun Gweithredu Hygyrchedd yr Adran Drafnidiaeth, y gwnaethom gyfrannu at y broses o'i lunio, ac a arweiniodd at Strategaeth Trafnidiaeth Gynhwysol y Llywodraeth. At hynny, mae Swyddfa'r Rheilffyrdd a'r Ffyrdd wrthi ar hyn o bryd yn ymgynghori ar gynigion i wella trefniadau teithio â chymorth a newidiadau i'r canllawiau ar gyfer gweithredwyr trenau a gorsafoedd."*
- ei bod yn bwysig monitro llwyddiant y fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd
- bod cyfle yng Nghymru i wella ymwybyddiaeth o'r cynllun Cymorth i Deithwyr (sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd).
- sicrhau bod y ffordd y caiff safleoedd tacsis, gorsafoedd, cyfnewidfeydd trafnidiaeth, cyfleusterau a cherbydau eu dylunio yn hygyrch ac yn ddiogel i deithwyr dall a theithwyr rhannol ddall.
- mabwysiadu egwyddorion 'Visibly Better' RNIB Cymru wrth ddylunio amgylcheddau mewn ffordd hygyrch, gan y gall hyn leihau rhwystrau i bobl ddall a rhannol ddall.
- argaeledd anghyson gwasanaeth Bwcabus.
- yr angen i ystyried y rhwystrau teithio seicolegol i bobl â chyflwr meddwl gofidus
- yr angen i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn gwneud toriadau i wariant ar drafnidiaeth

  *"Mae toriadau trafnidiaeth, yn enwedig yn y Gogledd ac mewn rhannau gwledig o Gymru yn aml yn digwydd heb ymgynghori â'r cyhoedd neu heb rybudd. Maent wedi cyfyngu ymhellach ar allu ein haelodau i ddefnyddio'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt i ddiwallu eu hanghenion llesiant, fel yr hyrwyddir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)"*
- hyrwyddo'r cynllun 'Changing Places', gyda phenderfyniadau i gau toiledau cyhoeddus yn cael effaith andwyol ar allu pobl anabl i deimlo'n hyderus wrth fynd allan.

- y ffaith bod pob sector yn trefnu lleoliadau heb roi unrhyw ystyriaeth i hygyrchedd a phan fydd pobl anabl yn gwrthwynebu, cânt yn aml eu trin fel niwsans.
- y gred nad oes unrhyw drafnidiaeth gyhoeddus mewn gwirionedd i bobl â namau symudedd.

  "*Os ystyriwch yr holl rwystrau – o'r gostyngiad mewn gwasanaethau bysiau, i'r prinder bysiau sy'n hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn, i agwedd wael ambell i yrrwr, i'r diffyg parhaus o ran tacsis hygyrch, i'r nifer gyfyngedig o orsafoedd rheilffordd â mynediad gwastad neu doiledau hygyrch, i'r diffyg gwasanaethau trên hygyrch, i'r angen i drefnu cymorth ymlaen llaw ac ati, daw'n gwbl amlwg fod yn rhaid i bobl â namau symudedd naill ai allu fforddio eu trafnidiaeth eu hunain neu fod yn rhaid iddynt dderbyn na fyddant yn gallu symud o amgylch yn hwylus*".
- y dylai'r cynllun gweithredu newydd adlewyrchu'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei dull gweithredu 'Budd i'r Gymuned' ac yn gweithredu ei dyletswydd caffael ei hun o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru i lywio gwelliannau.
- yr angen i Lywodraeth Cymru weithredu'n unol â'i hymrwymiad cynharach i adolygu ac ailgyhoeddi'r Canllaw Lleoliadau Hygyrch a dilyn y canllawiau hyn er mwyn sicrhau bod cyfarfodydd yn hygyrch ac yn cael eu cynnal mewn lleoliadau hygyrch.
- yr angen am welliannau i'r seilwaith ffisegol sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth gyhoeddus (e.e. lleoli cyrbiau is er mwyn sicrhau y gall pobl anabl gyrraedd arosfannau bysiau, grisiau mewn gorsafoedd trenau, y ffaith mai dim ond un defnyddiwr cadair olwyn ar y tro y gellir ei gludo ar fysiau, diffyg toiledau i bobl anabl ar awyrennau).
- yr angen i warchod gwasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus yn hytrach na'u diddymu.
- y ffaith nad dim ond pobl anabl sydd angen bysiau, ond eu gofalwyr hefyd.
- dylid sicrhau bod gan bob adeilad cyhoeddus fap 3D o lwybrau drwy'r adeilad y gall pobl anabl ei weld ar-lein a'i ddefnyddio cymaint o weithiau ag y mae angen iddynt ei ddefnyddio cyn cyrraedd yr adeilad yn gorfforol.
- rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu lle ceir achosion o wahaniaethu yn erbyn pobl anabl, nid dim ond trafod yr achosion hynny.
- mwy o gyllid ar gyfer gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol, neu weithio gyda busnesau er mwyn noddi gwasanaethau o'r fath.
- yr angen i ddewis darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus yn unol â chynllun busnes, sy'n darparu gwasanaethau i bobl anabl.

**Cwestiwn 9: Yn eich barn chi, pa faterion eraill sy'n effeithio ar bobl anabl ddylai fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru?**

Mae'r sylwadau ychwanegol a gafwyd mewn ymateb i gwestiwn 9 nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw thema benodol yn cynnwys cyfeiriadau at y canlynol:

- yr angen i'r fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd adlewyrchu'r rheini sy'n wynebu 'anfantais dwbl' ac sy'n profi wynebu gwahaniaethu deuol yn fanylach, gan gynnwys sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu helpu'r rheini sy'n wynebu gwahaniaethu yn seiliedig ar fwy nag un nodwedd warchodedig.
- annog Llywodraeth Cymru i arwain ymgyrch gwrth-stigma ac ymwybyddiaeth o anabledd ac iechyd meddwl, wedi'i thargedu at gyflogwyr mawr, canolig a bach, yn ogystal â chyflogeion. Dylid ei datblygu drwy ymgynghori'n agos ag elusennau iechyd meddwl ac anabledd a chyrff cynrychioliadol.

- yr angen i Lywodraeth Cymru roi mesurau ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd allanol yn hygyrch, gan gynnwys y camau diogelu y gellir eu cynnwys o fewn polisi cynllunio, camau cyn-ymgynghori a gwaith ymgysylltu.

  *"Mae angen i Lywodraeth Cymru roi mesurau ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd allanol yn hygyrch, gan gynnwys y camau diogelu y gellir eu cynnwys o fewn polisi cynllunio, camau cyn-ymgynghori a gwaith ymgysylltu. Dylai dylunio cynhwysol fod wrth wraidd y prosesau hyn. Rydym yn pryderu'n benodol am y cysyniadau dylunio sy'n gysylltiedig â "gofod a rennir". Mae gofod a rennir yn golygu dymchwel cyrbiau er mwyn i gerbydau, cerddwyr a beicwyr allu rhannu gofod. Mae hyn yn creu amgylchedd ansicr sy'n aml yn codi ofn ar gerddwyr sydd wedi colli eu golwg".*
- bod rhagfarn, agweddau negyddol a gwahaniaethu yn broblemau sylweddol.
- y byddai o fudd annog pobl mewn cymunedau i ystyried yr anawsterau y mae unigolion yn eu hwynebu wrth ymdopi â namau o ran golwg, clyw, symudedd ac ati. – a bod yn barod i ymgysylltu â'r bobl hynny mewn ffordd ystyriol mewn sefyllfaoedd cymdeithasol a sefyllfaoedd eraill.
- y posibilrwydd o gyflwyno cynllun gwobrau i bobl ifanc anabl, ac i fudiadau a sefydliadau nodi enghreifftiau o arferion da ac arferion gwael.
- gosod dyletswydd ar Gynghorau Gwirfoddol Sirol i ddarparu gwell gwasanaethau i grwpiau anabl.
- bod diffyg gwasanaethau a chymorth fel y nodwyd gan yr Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth, yn cael effaith andwyol ar allu pobl ag anableddau dysgu i fyw'n annibynnol.
- dylai Llywodraeth Cymru dargedu ei phenderfyniadau treth a gwariant tuag at leihau'r anfantais a brofir gan wahanol grwpiau, gan gynnwys Asesiad o'r Effaith Gronnol o effeithiau pob digwyddiad cyllidol ar bobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig.
- cais i Lywodraeth Cymru hyrwyddo delweddau cadarnhaol o bobl anabl; gwneud mwy i helpu gofalwyr (gofalwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr); rhoi mwy o fentrau cymunedol ar waith er mwyn trechu ynysigrwydd ac unigrwydd; a defnyddio iaith sy'n hygyrch, ac yn hawdd i'w deall, er mwyn sicrhau y gall pobl anabl ymgysylltu â gwahanol faterion.
- yr angen i Lywodraeth Cymru roi'r gorau i leihau cyllidebau ac yna gynnig cyllid "newydd" i wahanol wasanaethau, a'r angen yn lle hynny i ystyried beth a ddarperir eisoes ac i ddatblygu'r gwasanaethau hynny fel y bo angen.
- darparu cyllid ychwanegol byrdymor er mwyn lleihau rhestrau aros o fewn gwasanaethau cymdeithasol.
- ymchwilio i'r costau y mae 'Gofal a Thrwsio' yn eu codi; mae rhai o'r taliadau yn eithafol.
- darparu monitorau Lifeline a Chwympo am ddim i'r rheini sydd mewn perygl.
- y ffaith y gall gofal seibiant fod yn anodd:

  *"gall gofal seibiant fod yn anodd. Os bydd a wnelo ag iechyd, caiff ei roi. Fodd bynnag, rwy'n ymwybodol o deuluoedd yng Nghymru y dywedwyd wrthynt y gallai fod angen iddynt aros hyd at 2 flynedd am ofal seibiant, ac nid yw hynny'n dderbyniol, oherwydd heb y gofalwyr hyn, ni fyddai'r unigolion yn gallu byw yn y gymuned a byddai'n costio llawer mwy o arian i'r llywodraeth ac i drethdalwyr"*
- yr angen i ymgynghori ar feysydd eraill o anableddau dysgu penodol.

  *"Mae'n ardderchog gweld strategaeth awtistiaeth integredig, ond beth am y rheini â dysffracsia, ADHD, dyslecsia, dyscalcwlia ac ati. Mae gan lawer o'r oedolion hyn botensial eithriadol nad yw wedi cael y cyfle i ddod i'r amlwg eto ac maent yn wynebu rhwystrau wrth ddod o hyd i swydd oherwydd diffyg ymwybyddiaeth, stigma cymdeithasol, diffyg gwybodaeth am y rhaglen Mynediad i Waith ac ati."*

- peidio â chyflwyno newidiadau tan y bydd y cyllid yn bendant ar gael.
- dewis 'partneriaid' yn ôl tystiolaeth o ansawdd y gwasanaeth yn hytrach na'r dyfynbris rhataf.
- ceisiadau am well mynediad a mynediad mwy fforddiadwy i gyfleusterau ffitrwydd yn y gymuned.
- rhannu arfer Llywodraeth Cymru ag Awdurdodau Lleol, o ran yr hyfforddiant a gynigir i staff, y llenyddiaeth a rennir â staff a'r arferion a'r prosesau mewnol sy'n helpu cyflogeion anabl.
- y ffaith bod y cynllun hwn yn uchelgeisiol iawn a'r awydd i Lywodraeth Cymru fod yn onest o ran yr hyn y gall ei wneud o ddifrif i helpu pobl anabl i fyw bywydau annibynnol.
- gwahaniaethau o ran mynediad gan ddibynnu ble rydych yn byw.
- sicrhau na fydd pobl anabl o dan anfantais yn y byd gwleidyddol a chais i Lywodraeth Cymru hyrwyddo syniadau sy'n ei gwneud hi'n haws ac yn fwy hygyrch i bleidleisio.

**Cwestiwn 10: Hoffem gael eich barn ar yr effeithiau y byddai Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw’n Annibynnol yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.**

**Beth fyddai’r effeithiau yn eich barn chi? Sut byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru’r effeithiau negyddol?**

Mae'r sylwadau ychwanegol a gafwyd mewn ymateb i gwestiwn 10 nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw thema benodol yn cynnwys cyfeiriadau at y canlynol:

- yr angen i'r Gymraeg gael mwy o ystyriaeth yn y fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd

  *"Roedd yn syndod gennym braidd na roddwyd mwy o ystyriaeth i'r Gymraeg yn y ddogfen fframwaith. Gellid bod wedi dyfynnu'r gwaith da mewn perthynas â Mwy na Geiriau ym mhennod 2 ac mae'r defnydd cynyddol a wneir o'r Cynnig Rhagweithiol yn gyfraniadau pwysig. Mae hyn bellach wedi'i gynnwys yn yr is-ddeddfwriaeth sy'n ategu'r broses o roi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014 ar waith. Hoffem weld y defnydd o'r Gymraeg a chyfleoedd i'w defnyddio yn cael eu hintegreiddio'n llawn i'r holl bolisïau ac arferion terfynol".*

  yr anawsterau sy'n gysylltiedig â dod o hyd i staff cymorth addas sy'n siarad Cymraeg.

  *"Mae pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt yn aml yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i staff cymorth addas sy'n siarad Cymraeg. Mae prinder gweithwyr cymorth profiadol sy'n siarad Cymraeg yn y gweithlu. Er mwyn cael effaith, mae angen i Gweithredu ar Anabledd ystyried camau gweithredu a allai ysgogi twf yn y gweithlu, yn enwedig mewn perthynas â siaradwyr Cymraeg".*
- dylai cadarnhau a chefnogi hawl pobl anabl i fyw bywydau annibynnol gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg gan fod diwallu gwahanol anghenion ieithyddol unigolion yn hollbwysig wrth sicrhau ymreolaeth ac annibyniaeth.
- y dystiolaeth sy'n dangos bod diwallu anghenion ieithyddol unigolion y gall fod ganddynt broblemau iechyd meddwl neu ddiffyg gallu i gyfathrebu mewn unrhyw iaith ac eithrio eu mamiaith yn hanfodol er mwyn hybu iechyd a lles da.
- sicrhau y caiff braille Cymraeg a deunyddiau sain Cymraeg eu mabwysiadu a'u defnyddio gan y bydd hyn yn annog pobl yn y gymuned ddall a rhannol ddall i ddefnyddio'r iaith, ac yn sicrhau cyfle cyfartal i ddefnyddio'r Gymraeg.

- yr angen i sicrhau bod nodi dewisiadau iaith yn ogystal â dewis fformat cyfathrebu unigolyn (e.e. print bras, sain, braille, BSL ac ati) yn arfer gorau.
- p'un a ymgynghorwyd ar nifer y bobl anabl sy'n awyddus i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar ba ffurf yr hoffent wneud hynny.
- ehangu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg i ddefnyddwyr BSL Byddar, gan nad oes unrhyw ddarpariaeth o'r fath ar gael i'r grŵp hwnnw ar hyn o bryd.
- cydgysylltu â chydweithwyr yng Ngogledd Cymru mewn perthynas â'r mater hwn.
- yr angen i sicrhau bod opsiynau Cymraeg hawdd eu darllen ar gael ar gyfer pob dogfen.

**Cwestiwn 12: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech chi godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle hwn er mwyn sôn amdanynt.**

Mae'r sylwadau ychwanegol a gafwyd mewn ymateb i gwestiwn 12 nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw thema benodol yn cynnwys cyfeiriadau at y canlynol:

- y diffiniad o fyw'n annibynnol a ddefnyddir yn y fframwaith newydd.
  *"Mae'r ffaith bod syniadau am fyw'n annibynnol ac annibyniaeth wedi'u cyfuno yn peri dryswch penodol ynghylch byw'n annibynnol. Mae pobl anabl wedi nodi'n glir nad oes cysylltiad rhwng byw'n annibynnol a'r gallu i wneud pethau drostynt eu hunain, neu fyw ar eu pen eu hunain, neu gyda chyn lleied o gymorth â phosibl. Mewn perthynas â byw'n annibynnol, mae 'annibyniaeth' yn cyfeirio at hunanbenderfyniad, a'r gallu i fyw'r bywyd a ddewisir gan yr unigolyn, gyda chymorth i fyw bywyd bob dydd a gaiff ei reoli gan yr unigolyn ei hun. Mae hyn yn croesawu'n amlwg y defnydd o gymorth a ddarperir gan y system gofal cymdeithasol. Nodir y gwahaniaeth hwn yn y diffiniad o fyw'n annibynnol a ddarperir yn y ddogfen ymgynghori, er y byddai'n ddefnyddiol dileu'r ymadrodd 'o reidrwydd' o'r diffiniad hwn. Fodd bynnag, mewn mannau eraill yn y ddogfen, caiff y termau 'byw'n annibynnol' ac 'annibyniaeth' eu cyfuno, eu drysu neu eu defnyddio i olygu yr un peth. Dylai'r ddogfen derfynol fod yn glir drwyddi draw o ran y gwahaniaeth rhwng byw'n annibynnol ac ystyron termau eraill tebyg neu annibyniaeth. Os drysir rhyngddynt, mae perygl y drysir rhwng byw'n annibynnol a'r syniad nad oes angen cymorth neu na ddefnyddir cymorth fel rhan o fywyd beunyddiol yr unigolyn".*
- Gofal Iechyd Parhaus ac anghenion pobl ag anableddau dysgu.
  *"Gan ystyried y gwaith a wnaed gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig (2017) ar gydymffurfiaeth y DU â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl, ni cheir unrhyw raniad yn ei ganfyddiadau na'i argymhellion mewn perthynas ag anabledd a deallusrwydd. Felly, mae creu polisi penodol ar wahân yn seiliedig ar ddeallusrwydd yn debygol o gymylu'r broses o ystyried anghenion pobl ag anableddau dysgu a'u gosod ar yr ymylon. Wedi dweud hynny, nid yw'r naill bolisi na'r llall yn ymdrin â'r hepgoriad cyfredol hwn i bobl anabl ag anghenion Gofal Iechyd Parhaus fyw'n annibynnol.... Mae nifer y bobl ag anableddau dysgu yn cynyddu ac o ganlyniad, felly hefyd yr angen i gomisiynu gwasanaethau i ddarparu gofal a chymorth hirdymor mewn lleoliadau cymunedol. Tynnwyd sylw hefyd at bryderon pellach ar ffurf oedi wrth ryddhau o'r ysbyty drwy geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, gan gynnwys enghreifftiau lle y nodwyd bod gan y grŵp hwn o ddefnyddwyr gwasanaethau bryderon parhaus o ran sut y darperir cymorth parhaus yng Nghymru".*
- Arolygiad Cenedlaethol 2016 o Anableddau Dysgu.

*"Cynhaliwyd Arolygiad Cenedlaethol 2016 o Wasanaethau Anableddau Dysgu gan Arolygiaethau Gofal Cymdeithasol (AGGCC) neu Ofal Iechyd (AGIC) a fynegodd bryderon am y diffygion wrth roi'r polisi Gofal Iechyd Parhaus ar waith. Fodd bynnag, dim ond ailadrodd pryderon a gyflëwyd eisoes a wnaeth eu casgliadau ac nid ymchwiliwyd i unrhyw bryderon: 'canfu'r arolygwyr fod staff yn treulio mwy a mwy o amser ar geisiadau am gyllid, ar asesiadau yr oedd ond eu hangen at y diben hwn yn hytrach nag angen clinigol ac yn casglu tystiolaeth ar gyfer prosesau nad oeddent yn eglur yn eu cylch".*

- yr angen am gymorth ariannol tuag at gostau fel y rhyngrwyd, teledu, a chyfleustodau sylfaenol, yn arbennig i unigolion sy'n gaeth i'w cartref / yn gaeth i'r gwely.
- y ffaith bod cost llety a rentir yn breifat yn golygu ei bod bron yn amhosibl y bydd unigolion yn berchen ar eu cartrefi eu hunain, yn enwedig pan fydd yr unigolyn hwnnw yn dioddef salwch cronig / yn anabl â rhagolygon cyfyngedig o ran cyflogaeth.
- bod angen i Lywodraeth Cymru wneud mwy er mwyn helpu pobl anabl i gronni blaendal i brynu cartref, yn ogystal ag ymdopi â thaliadau morgais, o ystyried nad yw costau rhentu yn ffafriol o gymharu â chost morgeisi.
- cais i Lywodraeth Cymru gysylltu â phob math o eiriolwyr a grwpiau / croesawu cysylltiadau ganddynt, er mwyn meithrin dealltwriaeth fwy cyflawn o ba fathau o 'weithgaredd' sy'n briodol ar gyfer yr amrywiol gymunedau. Nid yw pob cyflwr / anabledd yr un peth; felly ni ddylai'r ymyriadau a gynigir ar eu cyfer fod yr un peth.
- helpu i ddarparu mwy o gymorth wyneb-yn-wyneb a sicrhau bod asiantaethau cyngor ar gael i bobl anabl, a allai gynnwys eiriolaeth annibynnol, yn unol â Rhan 10 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Yn ogystal, gofynnwyd i hyn gael ei gynnig i gleifion pan fyddant yn mynd i leoliadau clinigol am y tro cyntaf (neu'n cael gofal yn y gymuned / yn y cartref), gan gynnwys pan gânt eu rhyddhau pan fydd yn bwysicach fyth sicrhau bod pecyn gofal parhaus cydgysylltiedig ar gael er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y caiff yr unigolion eu hailddерbyn i'r lleoliad.
- ceisiadau i Lywodraeth Cymru werthfawrogi a gwobrwyo gweithwyr cymorth o bob math yn llawer gwell:

  *"Wrth i natur ein heconomi yng Nghymru newid, mae angen i ni geisio sicrhau bod y sector gofal yn sector y mae pobl yn awyddus i weithio ynddo – nid o reidrwydd drwy ei wneud yn fwy 'academaidd' ond yn syml, drwy werthfawrogi sgiliau rhyngbersonol, empathi, caredigrwydd a natur ofalgar fel rhinweddau dynol a thalu cyflog deniadol i bobl yn y swyddi hyn"*

  *"Yn aml, ni all pobl anabl fyw'n annibynnol heb gymorth digonol i'w teuluoedd sy'n aml yn gweithredu fel gofalwyr di-dâl. Ymddengys yn annheg bod gofalwyr di-dâl yn cael eu cosbi drwy gynnal prawf modd ar eu cydnabyddiaeth dila. Byddai talu incwm sylfaenol boddhaol i ofalwyr di-dâl yn dangos bod cymdeithas yn gwerthfawrogi eu gwaith diflino, yn hytrach na'u cymryd yn ganiataol. Byddai hefyd yn lleihau'r tlodi a wynebir gan deuluoedd lle na all un enillydd cyflog weithio mwyach oherwydd anabledd".*
- yr anawsterau y mae rhai pobl anabl yn eu hwynebu wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd a sicrhau y caiff safbwyntiau'r grwpiau anodd eu cyrraedd hyn eu hystyried er mwyn iddyn nhw hefyd allu dylanwadu ar bolisïau.
- yr angen i Lywodraeth Cymru a chynghorau lleol ddod yn fwy hygyrch o ran creu systemau sy'n golygu y gall unigolion / grwpiau gysylltu'n hawdd â'r bobl briodol i'w hysbysu am broblemau ac i gydgynhyrchu atebion. Awgrymu y dylai pob corff cyhoeddus

greu 'map' o'u sefydliad, gan gynnwys enwau'r staff, rolau swydd a manylion cyswllt, er mwyn sicrhau bod pob dinesydd yn gwybod â phwy y dylid cysylltu mewn perthynas ag unrhyw fater penodol.

- bod canlyniadau llwyddiannus yn fwy tebygol os bydd Awdurdodau Lleol yn adlewyrchu Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru.
- cais i bennu targedau penodol yn hytrach na chyhoeddi canllawiau y gall gwahanol sefydliadau eu dehongli mewn gwahanol ffyrdd.
- awgrym y dylai Awdurdodau Lleol sefydlu grwpiau Gweithredu ar Anabledd Trawsbleidiol.
- pryder y dylai'r camau gweithredu yn y fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd hefyd adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- yr angen i gynnal dadansoddiad pellach o'r ddogfen Gweithredu ar Anabledd yn erbyn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl, y Sylw Cyffredinol ar Erthygl 19 a'r rhannau o Sylwadau Terfynol y Pwyllgor sy'n ymwneud yn benodol â byw'n annibynnol – mewn partneriaeth â phobl anabl.
- bod angen gwneud mwy i fynd i'r afael â throseddau casineb sy'n gysylltiedig ag anabledd ac achosion o gam-drin pobl anabl ar-lein
- y dylid ehangu'r terfyn oedran ar gyfer cyrsiau gradd am ddim i ôl-raddedigion o 70 oed o leiaf
- nad oes unrhyw gam gweithredu penodol yn y fframwaith na'r cynllun gweithredu newydd mewn perthynas â bwlio.
- yr angen i Lywodraeth Cymru fod yn gryf a grymus wrth sicrhau bod cyrff fel Awdurdodau Lleol yn cymryd camau, o ystyried y toriadau ariannol sylweddol y maent yn eu hwynebu.
- yr angen i sicrhau bod opsiynau Cymraeg hawdd eu darllen ar gael ar gyfer pob dogfen.